



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.


About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

NYPL RESEARCH LIBRARIES



3 3433 07492399 0



Edwance

NDR

CLASURON RHYDDIAITH CYMRU

WRDDI ARI DEITHOL GŀAR
EDWARD EDWARDS, M.A.
ATHRAW HANES YNG NGHQLEG CYMRU ABBAYDDEWYTH

109210
JARVIS & CÖSTER, LÖRNE HOUSE
MCMVIII

1850

1850

2/11

1/12

**CLASURON
RHYDDIAITH CYMRU**


CLASURON RHYDDIAITH CYMRU



WEDI BU DETHOL GAN
EDWARD EDWARDS, M.A.
ATHRAW HANES YNG NGHOLEG CYMRU, ABERYSTWYTH

Bangor
JARVIS & FOSTER, LORNE HOUSE
MCMVJII

FJE



THE NEW YORK
PUBLIC LIBRARY
839658
ASTOR, LENOX AND
TILDEN FOUNDATIONS
R 1919 L

THE NEW YORK
PUBLIC LIBRARY
ASTOR, LENOX AND
TILDEN FOUNDATIONS

RHAGAIR

Dyma ail argraffiad o Glasuron Rhyddiaith Cymru at wasanaeth plant yr Ysgolion Canol-raddol a myfyrwyr y Colegau. Mae'r darnau bron yr un fath ag yn yr argraffiad cyntaf, ond y mae'r orgraff wedi ei newid i fod yn fwy tebyg i'r orgraff wreiddiol—yn lle'r ymgais i roddi gwisg ddiweddar i Gymraeg yr hen ysgrifennwyr clasurol.

Am fywyd M. Kyffin, gweler rhagymadrodd campus Mr. W. P. Williams yng nghyfres llyfrau Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, a gyhoeddir mor ddestlus gan Jarvis a Foster; ac iddynt, hefyd, y dymunaf ddatgan fy niolch cynhesaf am bob cymorth ac am eu holl fwyneidd-dra gyda'r llyfryn hwn.

EDWARD EDWARDS.

BRONALLT, ABERYSTWYTH,
Chwefror 8, 1908.



CYNNWYSIAD

Rhagair	v
Y Mabinogion	i
Gruffudd Roberts	15
Wiliam Morgan	29
Sion Dafydd Rhys	47
Morus Kyffin	61
Edward Kyffin	81
Edward James	87
Morgan Llwyd	95
Charles Edwards	113
Ellis Wynne	131
Theophilus Evans	153
Edward Samuel	173

**CLASURON
RHYDDIAITH CYMRU**

Y MABINOGION.

Dyma i ddechreu ychydig ddetholion o hen ystoriau a adroddid gan yr hen Gymry gynt, ac a drosglwyddwyd i lawr o dad i fab a mam i ferch hyd nes eu hysgrifennu yn "Llyfr Coch Hergest" rywbryd yn y drydedd ganrif ar ddeg. Nid oes dim rhyfeddach a mwy dymunol erioed wedi ei ysgrifennu na'r hen hanesion hyn, a fy anhawsder i ydyw gwybod pa rannau i'w pigo allan gan ddifyred a thlysed yr oll o honynt.

Mae Gwenogfryn Evans wedi cyhoeddi rhai o'r Mabinogion mewn llyfr destlus hanner coron, fel y maent i'w cael yn yr hen lawysgrifau, a J. M. Edwards (Hughes a'i Fab), wedi troi y pedair caingc hynaf,—Pwyll, Branwen Ferch Llyr, Manawyddan Fab Llyr, Math Fab Mathonwy,—i Gymraeg diweddar mewn llyfr bychan hardd o bris swllt.

Cedwais mor agos ag y medrwn at iaith a llythyren "Llyfr Coch Hergest" yn y dyfyniadau, ond rhaid oedd newid tipyn er mwyn eu gwneud yn rhwydd eglur.

Mae Alfred Nutt newydd gyhoeddi adargraff rhad o gyfeithiad Lady Charlotte Guest, a chyhoedda Fisher Unwin gyfeithiad newydd O. M. Edwards.



Y MABINOGION.

*Y Cwn a
welod
Pwyll.* Ac yna edrych ohonaw ef ar liw yr
erchwys heb hanbwyllaw edrych ar
y carw. Ac or awelsei ef o helgwn
ybyt, ny welsei cwn un lliw ac wynt.

Sef lliw oed arnunt, claerwynn llathreit, ac eu
clusteu yn gochyon. Ac val y llathrei wynnet
y cwn y llathrei cochet y clusteu. Ac ar
hynny att y cwn y doeth ef, a gyrru yr erchwys
a ladssei y carw ymeith, a llithyaw y erchwys
ehunan ar y carw. Ac val y byd yn llithyaw
y cwn, ef a welei varchawc yn dyvot yn ol yr
erchwys y ar varch erchlas mawr, a chorn canu
am y vynwgyl, a gwisc o frethyn llwyttei
ymdanaw yn wisc hela.

[*Pwyll Penndevic Dyfet.*]

*Y Gaer
a'r
Cawg.* Pa hyt bynnac y buant ar y fford
wynt a doethant y dyvet, ac arberth a
gyrchassant. A llad tan a wnaethant,
a dechreu ymborth a hela a threulaw
mis velly: a chynnull eu kwn attunt, a bot velly
yno vlwydyn. A boregweith kyvodi pryderi
a manawydan y hela, a chyweiryaw eu kwn a

mynet odieithyr y llys. Sef a wnaeth rei or cwn, kerdet oe blaen a mynet y berth vechan a oed geyr eu llaw. Ac ygyt ac yd aant yr berth kiliaw yn gyflym a cheginwrych mawr gantunt ac ymchoelut at y gwyr. Nessawn heb y pryderi parth ar berth y edrych beth yssyd yndi. Nessau parth ar berth a wnaethant. Pan nessayssant, llyma vaed coet clærwyn yn kyvodi or berth. Sef a oruc y cwn o hyder y gwyr ruthraw idaw: ssefa wnaeth ynteu adaw y berth a chilyaw dalym y wrth y gwyr. Ac yny vei agos y gwyr idaw kyvarth a rodei yr kwn heb gilyaw yrdunt. A phan yghei y gwyr y kiliei eilweith ac y torrei gyvarth. Ac yn ol y baed y kerdassant yny welynt gaer vawr aruchel, a gweith newyd arnei yn y lle nywelsynt na maen na gweith eiryoet, ar baed yn kyrchu yr gaer yn vuan ar kwn yn y ol. A gwedy mynet y baed ar kwn yr gaer, ryvedu a wnaethant welet y gaer yn y lle ny welsynt eiryoet weith kyn no hynny. Ac o benn yr orsed edrych a wnaethant ac ymwarandaw ar kwn. Pa hyt bynnac y bydynt velly ny chlywynt un or kwn na dim ywrthunt. Arglwyd heb y pryderi mi a af yr gaer y geissaw chwedleu y wrth y cwn. Dioer heb ynteu nyt da dy gyghor vynet yr gaer honn nys gweleist eiryoet, ac o gwney vyg kyngor i nyt ey idi: ar neb a dodes hut

ar y wlat a beris bot y gaer ymma. Dioer heb y pryderi ny madeuaf i vyg cwn. Pa gyghor bynnac a gaffei ef y gan vanawydau y gaer a gyrchawd ef. Pan doeth yr gaer, na dyn na mil, nar baed nar cwn, na thy nac anhed nys gwelei yn y gaer. Ef a welei val am gymherved llawr y gaer ffynnawn a gweith o vaen marmor yny chylch. Ac ar lan y fyynnawn, kawc eur uch benn llech o vaen marmor, a chadwyneu yn kyrchu yr awyr, a diben nys gwelei arnunt. Gorawenu a wnaeth ynteu wrth decket yr eur, a dahet gweith y kawc. A dyvot a wnaeth yn yd oed y kawc ac ymavael ac ef : ac val yd ymavaelawd ar kawc, glynu y dwylaw wrth y kawc ae draet wrth y llech yd oed y kawc yn sevyll arnei : a dwyn y lewenyd y gantaw hyt na allei dywedut un geir, a sevyll a wnaeth velly.

[*Manawydau fab Llyr.*]

Ac [wynt] a welsant y vorwyn yn *Y forwyn ar amherawdwr.* eisted y mywn cadeir o rud eur, a gostwng ar tal eu glinyeu a wnaethant y kennadeu. Amherodres ruvein hanpych gwell. Ha wyrda heb y vorwyn ansawd gwyr dyledawc a welaf arnawch, ac arwyd kenadeu. Py wattwar a wnewch chwi am danafi. Na wnawn arglwydes un gwattwar

am danat, namyn amherawdyr ruvein ath welas trwy y hun. Hoedel nac einyoes nyt oes idaw am danat. Dewis arglwydes a geffy y gennym ni, ae dyvot gyt a ni yth wneuthur yn amherodres yn ruvein, ae dyvot yr amherawdyr yma yth gymryt yn wreic idaw. Ha wyrda heb y vorwyn amheu yr hynn a dywedwch chwi nys gwnaf i, nae gredu hevyt yn ormod. Namyn os mivi a gar yr amherawdyr, deuhet hyt yman ym ol. Ac y rwng dyd a nos y kerdassant y kenadeu drachevyn, ac val y diffykyei eu meirch y prynynt ereill o newyd. Ac val y doethant hyt yn ruvein, kyvarch gwell yr amherawdyr a wnaethant ac erchi eu koelvein, a hynny a gawssant val y notteynt. Ni a vydwn gyvarwyd itt arglwyd heb wynt ar vor ac ar tir hyt y lle y mae y wreic vwyhaf a gery. A ni a wdam y henw ae chystlwm ae boned. Ac yn diannot y kerdwys yr amherawdyr yn y luyd, ar gwyr hynny yn gyvarwyd udunt. Parth ac ynys prydein y doethant dros vor a gweilgi. Ac y goresgynnwys yr ynys ar veli mab manogan ae veibion, ac y gyrrwys ar vor wynt, ac y deuth racdaw hyt yn arvon, ac yd adnabu yr amherawdyr y wlat mal y gwelas. Ac val y gwelas kaer aber sein, weldy racco heb ef y gaer y gweleis i y wreic vwyhaf a garaf yndi. Ac y doeth racdaw yr gaer ac yr neuad. . . . Y vorwyn a

welas trwy y hun ef ae gwelei yn eisted y mywn kadeir o eur. Amherodres ruvein heb ef hanpych gwell, a mynet dwylaw mynwgyl idi a wnaeth yr amherawdyr.

[*Breidwyt Maxen Wledic.*]

Dyvot a oruc hitheu, a chamse sidan *Olwen*. flamgoch ymdanei, a gwrd dorch rud eur am vynwgyl y vorwyn, a mererit gwerthvawr yndi a rud emeu. Melynach oed y phenn no blodeu y banadyl: gwynnach oed y chnawt no distrych tonn. Tegach oed y dwylaw ae byssed no channawan gotrwyth o blith man gaean ffynnawn ffynhonws. Na golwc hebawc mut, na golwc gwalch trimut nyt oed olwc degach nor eidi. Gwynnach oed y dwyvron no bronn alarch gwynn. Cochach oed y deurud nor ffuon cochaf. Y sawl ae gwelei kyflawn vydei oe serch. Pedeir meillonon gwynnyon a vydei yn y hol pa fford bynnac y delhei, ac am hynny y gelwit hi olwen.

[*Kulhwch ac Olwen.*]

Ac ymeith yd aeth owein, ae wahawd *Owein* a wnaeth yr iarlles idaw, ef ae holl *a* gyfoeth. Ac ny mynnwys owein *Lunet.* namyn kerdet racdaw eithafoed byt a diffeithwch. Ac val yd oed yn kerdet ef a

glywei disgrech vawr y mywn koet, ar eil ar dryded. A dyvot yno aoruc owein. A phan doeth yno, ef a welei clocvryn mawr ygkanawl y koet, a charrec lwyd yn ystlys y bryn, a hollt a oet yn y garrec, a sarff a oed yn yr hollt, a llew purdu a oed yn ymyl y garrec. A phan geissei y llew vynet o dyno y neidêi y sarff idaw oe vrathu. Sef a oruc owein dispeilaw cledyf a nessau att y garrec. Ac val yd oed y sarff yn dyvot or garrec, y tharaw a oruc owein a chledyf yny vyd yn deu hanner, a sychu y gledyf a dyfot yr fford val kynt. Sef y gwelei y llew yn y ganlyn, ac yn gware yn y gylch val milgi a vackei e hun, a cherdet a orugant ar hyt y dyd hyt ucher. A phan vu amser gan owein orffowys, disgynnu a oruc, a gellwng y varch y mywn dol goedawc wastat. A llad tan a oruc. A phan vu barawt y tan gan owein, yd oed gan y llew dogon o gynnut hyt ym penn teirnos: a difflannu a oruc y llew y wrthaw. Ac yn y lle nachaf y llew yn dyvot attaw a chaeriwrch mawr telediw gantaw, ae fwrw ger bronn owein, a mynet am y tan ac ef. A chymryt a oruc owein y kaeriwrchae vlighaw, a doddi golwython ar vereu ygkylch ytan. A rodi y iwrch namyn hynny yr llew oe yssu. Ac val yd oed owein velly ef a glywei och vawr, ar eil ar dryded, yn gyfagos idaw. A gofyn a oruc

owein ae dyn bydawl. Ie ys gwir heb y dyn. Pwy wyt titheu heb yr owein. Dioer heb hi Lunet wyfi, llawvorwyn iarllles a ffynawn. Beth a wney di yma heb yr owein. Vyg karcharu heb hi yd ydys, o achaws marchawc a doeth o lys arthur y vynnu y iarllles yn priawt, ac a vu rynnawd gyt a hi, ac yd aeth y dreiglaw llys arthur. Ac ny doeth vyth drachefyn, a chedymdeith y mi oed ef mwyaf a garwn or byt. Sef a oruc deu weisson ystavell y iarllles y oganu ef ae alw yn twyllwr. Sef y dywedeis i na allei y deu gorff hwy amrysson ae un corff ef. Ac am hynny vgy karcharu yn y llestyr maen, a dywedut na bydei vy eneit ym corff o ny delei ef ym amdiffyn i yn oet y dyd. Ac nyt pellach yr oet no thrennyd, ac nyt oes ymi neb ae keissaw ef. Sef yw ynteu owein fab uryen. A oed diheu gennyt titheu pei gwyppei y marchawc hwnnw hynny ydeuei yth amdiffyn. Diheu y rof i a duw heb hi. A phan vu dogyn poethet y golwython, eu rannu a oruc owein yn deu hanner y ryngtaw ar vorwyn: a bwytta a orugant, a gwedy hynny ymdidan yny vu dyd drannoeth.

[*Owein a Lunet.*]

*A welod
Peredur.*

Yna y kyvarvu ac ef yn eisted ar benn cruc y wreic deckaf or a welsei eiryoet. Mi a wn dy hynt heb hi, mynet yd wyt y ymlad ar adanc, ac efath lad. Ac nyt oe dewred namyn oe ystryw. Gogof yssyd idaw, a philer maen yssyd ar drws yr ogof, ac ef a wyl pawb or a del ymywn ac nys gwyl neb evo. Ac a llechwaew gwennwynic o gysgawt y piler y llad ef bawp. A pheir rodut ti dy gret vug caru i yn vwyhaf gwreic mi a rodwn itt vaen val y gwelut eve pan elut y mywn ac ny welei ef dydi. Rodaf myn vug kret heb y peredur. Yr pan yth weleis gyntaf mi ath gereis. A pha le y keisswn i dydi. Pan geissych di vyvi keis parth ar india. Ac yna y difflannwys y vorwyn ymeith gwedy rodi y maen yn llaw peredur. Ac ynteu a deuth racdaw parth a dyffrynn avon: a gororeu y dyffryn oed yn goet, ac o pob parth yr avon yn weirglodyeu gwastat. Ac or neill parth yr avon y gwelei kadw o deveit gwynnyon, ac or parth arall y gwelei kadw o deveit duon. Ac val y brevei un or deveit gwynnyon y deuei un or deveit duon drwod ac y bydei yn wenn, ac val y brevei un or deveit duon y deuei un or deveit gwynnyon drwod ac y bydei yn du. A phrenn hir a welei ar lann yr avon, ar neill hanner a oed idaw yn llosci or gwreid hyt y vlaen, ar hanner

arall a deil ir arnaw. Ac uch law hynny y gwelei mackwy yn eisted ar benn cruc a deu vilgi vronnwynnyon vrychyon mywn kynllyvaneu yn gorwed geyr y law, a diheu oed gantaw na welsei eiryoet mackwy kyn deyrneidet ac ef. Ac yn y coet gyfvarwyneb ac ef y clywei ellgwn yn kyvodi hydgant, a chyvarch gwell a wnaeth yr mackwy, ar mackwy a gyvarchawd well y peredur.

[*Peredur.*]

1

GRUFFUDD ROBERTS. 115

Ychydig o hanes Gramadegwr boreuaf Cymru sydd ar gaei.
Cyhoeddwyd ei brif waith,

“DOSPARTH BYRR AR Y
rhann gyntaf i ramadeg cymraeg
lle cair llawer o bynciau an-
hepcor i un a chwen-
nychai na doedyd
y gymraeg yn ddilediaith, nai
scrifennu'n iawn,”

yn 1567, ym Milan; fel y gellid tybied ei fod ym 60 oed pan ddechreuodd y Frenhines Elizabeth deyrnasu. Yr oedd felly yn gyd-oeswr a William Salsbri, a megis mai Protestant poeth oedd cyfieithydd y Testament Newydd, felly Pabydd llwyr oedd awdwr y Gramadeg. Feallai fod y ddau yn adnabod eu gilydd, canys mae'n sicr mai brodor o Ogledd Cymru oedd Gr. Roberts. Y mae dullwedd ei iaith a'r mynych gyfeiriadau at rannau o'r Gogledd yn profi hynny. Dywed mewn un man am ei hiraeth am “lan y Ddyfrdwy” a “llawr Dyphryn Clwyd.” Mewn lle arall, pan y mae ef a'i ddisgybl yn ymddiddan am ysgrifennu gramadeg, dywed ei ddisgybl (mae'n debyg Rhosier Smyth, o Lan Elwy), “Mi a'm clywn fy hun yn cynhessu oddimewn a'm calon yn cyrchneittio yn fynghorh o wir lawenydd wrth wrando ar draethu Bruttaniaeth yn 'r Eidal megis pe buaswn ynghanol Gwynedd.” Fe ysgrifennodd Gruffudd Roberts amryw lyfrau eraill —yr oll at wasanaeth pabyddion Cymru, pan yr oedd yn gyffeswr i Cardinal Borromeo, ym Milan.

Yr wyf yn cyhoeddi rhannau helaeth o'i “Ddosparth Byrr” oherwydd prydfferthwch ei arddull ac ystwythder ei iaith. Yr oedd ei gariad at Gymru a'i hanes a'i hachos yn angerddol, a gwnaeth

wasanaeth dirfawr i'r Gymraeg trwy ei "scrifennu" mewn dull mor ddeniadol ac eglur. Canmolir ei arddull a'i iaith yn uchel gan Morus Kyffin, yr hwn a ddywed ei fod " yn ddarn o waith dyscedig ynghelfyddyd gramadec, mor buraidd, mor lathraidd ag mor odidawg ei ymadroddiad na ellir damuno dim perffeithiach yn hyny o beth."

Cyhoeddwyd, yn 1883, ad-argraff o'r hen Ramadeg gan Henri Gaidoz a D. Silvan Evans. Yn y darnau hyn newidiais ei sillebiaeth er mwyn ei wneud yn haws i'w ddarllen, oherwydd yn y gwreiddiol ceir *l*, *d*, ac *u*, am *ll*, *dd*, ac *w*, ac wrth ben *u* yn fynych mae hfnod pan y saif am *un*. Cywirais ambell i air hefyd lle yr oedd cam-argraff amlwg, canys cwyna Griffith Roberts ei hun nad oedd yr Italiaid ym Milan yn deall eu gwaith na iaith ei lyfr.

GRAMADEG GRUFFUDD ROBERTS.

YR IAITH GYMRAEG.

yn erchi gan dduw, lwiddiant a hyfryd
gynnydd mewn gras, anrhydedd, a
gogoniant i'w hanrhydeddussaf
bennadur, ai diball nodded
Wiliam Harbart
Iarll o Benfro
ag Arglwydd o Gaer dydd.

*Y Gym-
raeg
yn erfyn
nodded.* Wrth fyngeled fyhun, er ysllawer
o flynyaddoedd, heb bris gan neb arnaf
trwy dir cymru, na chwaith ddim
gennyf mewn scrifen a phrwyth ynddo
i hyphorddi mewn dysg, a dawn fyngharedigion
bobl : mi a dybiais (f'anrhydeddfawr Bennaeth)
mae da oedd ymy, fyned trwy wledydd Europa i
edrych ymysc ieithoedd eraill a gaid yrun cyn
ddiystyred i chyflwr a mi, ag mor ddiles i'r bobl
sy'n i doedyd. Ond wedi ymy gerdded o fraidd
benn yr hyspaen trwy phraingc, Phlandria, ag
Alemania, a'r Eidal hyd yn eithaf Calabria tan
ymofyn ymhob lle am gyflwr, braint, a helynt
yr ieithoedd sydd tu draw i hynny, ni fedraisi
weled na chwaith glowed oddiwrth yrun ; na bai
yn cael gwneuthur yn fawr o honi ymysc pawb

sydd o naturiaeth yn i doedyd. Ag wrth fod pob un o honynt yn cael i'mgeledd, a'i pherchi gen i phobl, hithau drachefn i wneuthur iawn am y caredygrwydd a gafodd, sy'n traethu i'w phobl bob peth a fo gwiw i wybod, hyfryd i glowed, a gogoneddus i wneuthur. Canys nyd oes nag ystori iddyscuhenafiaeth nachylfyddydd o enw a lles na gwybodaeth o ddim a dalai i ddysgu nas darfu i'r hyspaniaith, phranged, a'r eidaliaith i tanu, ai hau ymysc gwyr i gwlad i dalu am i magwriaeth ai'mgeledd. Pan welais innau hynny, e fu ryfedd iawn gennyf fod y cymru mor ddiddarbod amdanaf a minnau mor ddifudd iddynhwythau; yn anwedig wrth weled fod fynghymru i, o athrylith a synwyr yn abl i'mgystadlu a'r rhai gorau yn imysec nhwy, a minnau mor llawnllythr im scrifennu, cyn gyfoethocced o eiriau, cyn hyned fynechreuad a'r falchaf or ieithoedd a henwais. Ynol hir ymgynghori a dyfal fyfyrion farnwyd nadoedd fodd i mi godi fynghewn i fynu i wneuthur lles i'r gwyr imtrefnodd duw iddynt, nes cael onof yn ganllaw ac yn nodded ym, wr ai ewyllys yn damuno da ymy, ag ai bwyll yn abl i weled y phordd a fyddai im dyrchafu, a hefyd, o rym yn gallu dwyn i benn y peth a ddamunai ag a farnai yn dda ar fy lles. Felly wrth fwrw fy llyfrau ag edrych ple cawn y fath ganllaw a

gynghorwyd ymmy i cheisio, mi a welaf fod yn ych arglwdiaethchwi bob un o'r tri phwnc sydd anghenrhaid i mi wrthyn. Canys e wyr holl gymru a lloegr faint ych serch Yr fruttaniaith, pryd na ddoedech wrth gymro ond cymraeg, ie, ymysg penaduriaid y deyrnas : mal y clowais fagod o wyr yn doedyd, tan fawr ddiolch i dduw, weled i pennaeth mewn gradd, a lle cyn uchod, yn dangos dirfawr serch oi wlad naturiol ar i'mddygiad ai'madrodd. A bid diau gennyh (f'arglwydd urddassol) fod calon pob gwir Gymro yn crychnneittio yn i gorph o wir lawenydd pan glowo wr o'ch anrhydedd chwi yn doedyd i iaith : canys nid oes dim i ennil calonnau adeiliaid yn gystal ag ymgleddu i hiaith a siarad wrthyn bob un yn i iaith naturiol. Hynny a wnaeth fod Mithridates mor enwog,—gwr oedd a dwy deyrnas arhugain tano,—ag yntau yn medru ymddiddan a phawb yn i dafod ihun. Hynny a wnaeth i Garolus y bumed fod cimaint i allu am nad oedd raid iddo wrth un ieithydd i'mddiddan ai holl adeiliaid er i bod o amrafael genedloedd. Hynn a wnaeth ich anrhydedd chwithau fod cimaint i gariad ynghymru, am ych bod mor gariadus i'r gymraeg ag yn i medru mor hyfedr. Tu ag at am bwyll i ddyfeisio phyrdd i'm gossod i rhagof, a grym i wneuthur y peth a welech yn dda, mae

pawb yn gwybod nad oes moi diphig ynoch ; gan fod yn eglur, nid o fewn lloegr yn unig, eithr ymhob mann y mae son am dani nad oes dim a phrwyth ynddo yn perthynu at stad y deyrnas mewn heddwch a rhyfel ond a luniwyd trwy'ch cyngor, ag a wnaethbwyd trwy'ch grym a'ch cymorth, a'ch anorphwys lafur. Am hynny y mae gennyf obaith yrowron, y byddwch ymy yn arglwydd da i'mdiphin rhag argowedd a drwg, ag im helpu wrth geisio ymossod allan i ddangos f'wyneb ymysc yr ieithoedd eraill nid ydynt well i braint no minnau : ond cael ohonynt imgeledd ai mowrhau gan bennaduriaid a boneddigion i gwlad, ag wrthyddy gadel llawer arnafi, a fum cyd heb nag ymgeledd na mowrhaad. Etto pe cawn ynawr ddechrau'mdrwsio tan ych aden chwi, a gweled o bawb fod wyneb yn pennaeth tu ag attaf, e fyddai bob cymro barod im studio, im cyfoethogi agi'm gwneuthur yn hylwybr ac yn berphaith. Yrhwnn beth os cenhiada ych daioni chwi ymy, mi a obeithiaf, cyn nemawr o ennyd y gwelir o'mgwaithi ymysg y cymru lawer pwnc o ddysg a gwybodaeth ni ellais moi ddangos iddynt hyd yn hynn. Canys wrth y cydnabod a gefais ag ieithoedd eraill, yn hwyr yrowron mi allaf pan fynnywyf gael gentynt bob peth a berthyn at gampau a chynneddfau

gwyr rhinweddol, gynghordioledd gramadeg, flodeuau rectorigyddiaeth, ystriw dialectigyddiaeth, cowreinrhwydd meddygion, pwyllled dinasswyr, gwybodaeth philosophyddion, gorchestion milwyr, duwioldeb theologyddiaeth i ddyscu, helpu, diddanu a pherpheiddio gwyr fyngwlad ymhob peth a fo golud iddynt, hyglod yngolwg y byd, a chymradwy gar bron duw. Yn hynn o orchwyl, os ych anrhydedd chwi a fydd awdur, nodded a chynhorthwy ymy, chwi a gewch yn ddiogel glod tra barha iaith y bruttaniaid, a gwasanaeth ufudd didwyll genthynt i chwi a'ch etifeddion yn y byd yma, a thal didranc gan dduw yn y byd sy'n dowad, yrhwn a ddanfono iwch rwydddeb, a chynnyrch ymhob llawenydd a daioni wrth fodd ach caro.

Ych phyddlonaf law forwyn
yr iaith gymraeg.


IAITH GAMBR YN

annerch yr hygar ddarlledd.

An-nerch y Gym-raeg. Aristoteles, gwr o ragoriaeth mewn disc a gwybodaeth a ddowad am bob celfyddyd mae bychan ac anrhefnus fydd i dechreuad; ac yna bob ychydig tyfy ag ymdacclu a wna, nid ar unwaith, ond o amser i amser trwy fod eraill yn gweled ag yn bwrw at y dechreuad ryw beth nis canfu

na'r cyntaf na'r ail. Er bod y dechrau fynychaf yn llai no'r ddarn a roesswyd wrtho ; etto mae'n galettach ag yn fwy clod, ddychmygu ychydig o newydd nog yw trefnu hyny ai chwanegu yn helaethwch. Am hynny na fid diystr na diflas gennyf fyngweled i yn ymddangos mor ddisas ag mor anhylwybr, canys honn yw'r awr gyntaf yr amcanwyd fynwyn i lwybr celfyddyd. Yr ydoedd y beirdd rhyd cymru yn ceisio fynghadw rhag colli ne gymyscu a'r saesnaeg. Ond nid oedd gentynt phordd yn y byd, nag y ddangos yn fyrr ag yn hyphordd yr odidowrwydd sydd ynof rhagor nog mewn llawer o ieithoedd, na chwaith i fanegi rhessom am fagod o ddirgelion a gaid i gweled, ond chwilio yn fanwl amdanynt, mal y mae gramadegrwyr da yn gwneuthur, pawb in i iaith ihun. O herwydd hynn, gan nad wyf ond dechrau etto, rhaid iti (ddarlleydd howddgar) pan welych ar hynn o gais ddim a allesid ei ddoedyd wedi adel allan ne ryw beth wedi gyfleu allan o'i ddyledus le, ne ddiphig mewn rhyw phordd arall, beidio a gwaradwyddo'r neb, o ewyllys da ymy, amcanodd fynwyn i fraint celfyddyd. Eithr os perpheiddid di y peth a ddechreuawdd ef, heb ddoedyd iddo mor absen nes dwyn hynny i benn, mae ytty fawr ddiolch gennyfi a chantho yntau ; canys nid ydyw ef yn tybied fod

hynn yn agos i'r perpheidrwydd y gweddai iddo fod, eithr i geissio denu rhai ai medrai yn well ef a wnaeth orau gallodd yn y drapherth ar blinder y mae ynddo heb gael ennyd im taclusi mal y damunai : a heb gynfigen wrth neb a wnelo yn well nog ef, ond diolch yn gynt iddo am ddwyn i ben y peth a wnaethai ef ihun pes gallasai. Na ryfedda chwaith weled cimaint o fiau wrth brintio, canys yr ydoedd y dynion oedd yn gweithio heb fod nag yn gyfarwydd yn yr iaith nag yn ddisceulus ar i gorchwyl, nag yn rhoiog oi trin ag i gweirio'r pethau a fethai gentynt. Heb law hynn, yr oedd arnynt eisie llythrennau ag amryw nodau afuasai raid wrthynt i brintio yn gyflawn bob pwnc a berthynai attaf. Rhaid ymy ddamuno ar bob cymro bonheddig a rhoiog na bo mwy annaturiol i mi nog yw pobl eraill i iaith i mamau. E fydd weithiau'n dostur fynghalon wrth weled llawer a anwyd ag a fagwyd im doedyd yn ddiystr gentynt amdanaf, tan geisio ymwrthod a mi ag ymgystlwnag ag estroniaith cyn adnabod ddim [o] honi. Canys chwi a gewch rai yn gytrym ag y gwelant afon Hafren, ne glochdai ymwithig a chlowed sais yn doedyd unwaith "good morow," a dechreuant ollwng i cymraeg tros gof ai doedyd yn fawr i lediaith ; i cymraeg a fydd saesnegaidd,



cadw rhag pelydr yr haul, a'r gwynt arafaidd o'r gogledd yn oeri, ag yn difyllu y rhodfa a'r eisteddfa hon, fal na bo cyn flined arnom ganol dydd, ag a fu y dyddiau aeth heibio.

Mo. Er bod yn deg y fangre lle'r ydym, ag yn hyfryd gweled y dail gwrddleision yn gyscod rhag y tes, ag yn ddirgrif clowed yr awel hon or gogleuwynt yn chwythu tan frig y gwynwydd i'n llawenychu yn y gwres anrhy-symol hwn sydd drwm wrth bawb a gafodd i geni ai meithrin mewn gwlad cyn oered ag yw tir cymru: etto mae arnaf hiraeth am lawer o bethau a gaid ynghymru i fwrw'r amser heibio yn ddifyr ag yn llawen wrth ochel y tês hirddydd haf. Canys yno, er poethed fai'r dymyr, ef a gaid esmwythdra a diddanwch i bob bath ar ddyn. Os byddai un yn chwennychu digrifwch e gai buror ai delyn i ganu mwyn bynciau, a datceiniad peroslau i ganu gida thant, hwn ai fynnychwi ai mawl i rinwedd yntau gogan i ddrwgcampau. Os mynnych chwithau glowed arfer y wlad yn amser yn teidiau ni, chwi a gaech henafgwyr briglwydion a ddangossai iwch ar dafod laferydd bob gweith-red hynod a gwiwglod a wnaethid drwy dir cymru er ys talm o amser. Ond os myfyrio a ddamunech ne ddarllain ar ych pen ych hun, chwi a gaech ddewis lle cymwys i hynny, er

maint fyddai boethni'r tes,—naill ai mewn tai gleision hafaidd ne gar llaw'r dwfr rhedegog mewn glyn ag irgoed, ne mewn dyphryn llyseuawg, ne ar ael doldir meillionawg ne mewn cadlas o fedw ne o ynn planedig, ne ar fynydd amlwg awelog, neu mewn rhyw gyfle arall lle ni byddai na blinder na lludded wrth wres yr hinon. Ond ynghylch y dref hon nid oes dim tebyg; canys os i ogo y cyrchwch ne i gilfach heb haul yn towynnu un amser arni, chwi a gewch oerfel anghewawl, os yntau mewn lle amlwg y trigwch y brydni a dawdd frain ag adar: os aros a wnewch yn ty chwi a fygwch gen fyllni, a'r gwinllannau o'r fath yma, er i bod yn deg yr olwg arnyn ag yn hyfrydach aros ynddyn nog mewn mannoedd eraill o'n hamgylch, etto ni chynhessa calon cymro wrthynt megis y gwnaï wrth lan dyfrdwy ne lawr dyphryn clwyd; ne wrth aml o leoedd a fedrwn i henwi o faenol dewi i gaergybi ym mon. A phe bai'r lle o hono ihun yn gystal ar fan ore ynghymru, etto e lawenychai fynghaloni yno yn gynt wrth glowed y gog yn canu nog a wnaï yma wrth glowed perbynciau'r eos ne fwynlais bronfraith ne lathreiddgan mwyalch ne pe gwnaïd musig cysson cyfangan o gydlais paradwyssaidd holl adar y byd yn yr unlle.

Gr. Ych dirfawr gariad i'r wlad sydd yn peri hynny: gwir felly a ddowad y phylosophydd na bydd uniawn barn lle bo cariad ne gas yn rheoli. Canys digassedd a wyl fai lle ni bo, a chariad weithiau a farna'r bai yn rhinwedd. Wrth hynny, tra fo cimaint ych serch i gymru, anodd iwch fod yn ustus cyfiawn rhyngthi ag estronwlad yn y byd. Felly am fod cyn hophed gennyh y wlad ar bobl, ni welwn ni ddim well i ddifyrru'r amser na siarad am bethau cymreig, ag edrych beth a wnai les iddynt a fyddai ar ych llaw chwi i ddwyn i ben.

Mo. Gwir iawn a ddoedwch, am hynny moesswch weled a fyddai bosibl i ni wneuthur mal y gwnaeth llawer o'r groegwyr a'r lladinwyr gynt pan yrrid nhwy ar darfysc i ryw gilfach neulltuawl i dario: yno'r scrifonnet hwy riw beth i hyphorddi gwyr i gwlad mewn rhinwedd dysc ne bethau eraill a fyddai lles, urddas a gogoniant iddynt, fal y gwnaeth Tullius i lyfrau o philosophyddiaeth gan mwyaf i gyd.

Gr. Nid gwiw ini edrych am wneuthur yn debig i'r gwyr o'r amser a'r gwledydd hynny, gan nad oes yn y to sydd heddiw un synwyr abl i'mgystadlu ar athrylith oedd gentynt hwy. . . . A ninnau sydd heb yrun o'r rhain gennym, na chwaith (am yn bod cyn belled

oddi cartref) fodd i graphu ar yr iaith sathredig ymysc y cyphredin. Oherwydd hyn, pe gallem gael gwybodaeth wrth ddarlennu llyfrau o ieithiau eraill am lawer o bethau a dalent i dysgu ai treuthu, etto, e fydd caledi mawr pan geisier cyfieuthu a throi yr unrhiw bethau i'r gymraeg, am fod yn brin y geiriau gennym er bod yr iaith ohoni ihun cyn gyfoethocced ag un arall.

Mo. Gedwch iddo, er nas gallom wneuthur yn gystal ag y damunem; ef alle y bernir yn ewyllys ni yn dda am wneuthur a allem, canys lle pallo'r grym, ewyllys da a haedda glod. Hefyd gwell, rhag bod yn segur, ag i ddifyrru'r amser, siarad am y gymraeg yn gynt nog am oferedd gan na ad y brydni anfeidrawl i ni yr owran studio dim a phrwyth ynddo.

Gr. Yn enw duw, gyfynnwch y peth a fynnoch, minnau a'ttebaf yn orau mettrwyf. Ond yn fy marni, gorau oedd yn gyntaf son am ramadeg. Canys oddyno byddau ddechrau os mynnem i'r iaith gynnyddu yn llwyddiannus.

WILIAM MORGAN. 1720?—1664

Fel cyfieithydd yr holl Feibl i'r Gymraeg yr anwylir enw Wiliam Morgan, a gweddus iawn oedd codi cofadail iddo, ac ysgrifennu ei hanes yn fanwl ar dri chan mlwydd y Beibl yn yr iaith Gymraeg. Daeth yr argraffiad o'r holl Ysgrhythyr Lân allan yn 1588,—blwyddyn fawr gorchfygu llynges Yspañ a gallu y Pâb.

Nid Wiliam Morgan oedd cyfieithydd cyntaf yr Ysgrhythur i'n iaith ni. Credir fod gan yr hen Gymry ran-gyfieithiad o honi mewn ysgrifen : daeth cyfieithiad Wiliam Salsbri,—cymydog Wiliam Morgan—o'r Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi Cyffredin allan yn 1567, mewn Cymraeg lled afrosgo ac esgryniog. Yr oedd y Beibl yn llaw y Saeson yn gyffredin erbyn yr adeg hon, canys ymddangosodd y Testament Newydd wedi ei droi i'r Saesneg gan Wiliam Tindal mor foreu a 1526, a bu aml argraffiad o hono gan fawr awydd y werin am wybodaeth ysgrhythyrol. Daeth yr holl Feibl, sef Beibl Miles Coverdale, allan yn 1535, dan awdurdod y Goron, ac yn 1560, wele gyfieithiad arall o'r Beibl, sef Beibl Geneva, gan y Cristnogion Seisnig aeth ar ffo i Geneva—cartre Calfiniaeth—rhag creulon lidiog erledigaeth y Frenhines waedlyd Mari.

Ond 1588 ydyw'r flwyddyn fawr yn hanes cyfieithiad y Beibl Cymraeg, a fel hyn y mae ei deitl :

“ Y Beibl Cyssegr-Lân, sef yr Hen Destament a'r Newydd.
Imprinted at London by the Deputies of Christopher
Barker, Printers to the Queen's most Excellent Majestie.
1588.”

Ganwyd Wiliam Morgan tua 1547, yn y Wybrnant,—lle tlws, rhamantus ar gyffiniau plwyfi Penmachno a Dolyddelen yn Nant Conwy,—lleoedd nodedig am nifer o ddyinion dyscedig a fagwyd eisoes ynddynt. Derbyniodd ei addysg yng Ngholeg Ioan Sant yng Nghaergrawnt, lle y graddiodd yn D.D., ac yn 1575 fe'i gwelir yn ficer y Trallwm. Bu yno am flynyddoedd yn gweithio

yn galed a gonest gyda'i gyfieithiad a'i bregethu,—ond yn 1585 fe'i gwyswyd o flaen Archesgob Whitgift i ateb amryw gyhuddiadau a ddwyg id yn ei erbyn. Nid yn unig fe'i profwyd yn ddieuog, ond daeth yr Archesgob yn un o'i brif gefnogwyr i ddwyn allan yr oll o'r Beibl, canys rhyfeddodd at ei ddysceidiaeth ac at ei onestrwydd diwyrni a'i gariad mawr at ei genedl oedd eto heb gael yr Ysgrythur yn ei hiaith. Yn ei lythyr cyflwyniad i'r Frenhines Elisabeth, dywed Morgan i Whitgift fod yn un o'i brif noddwyr,—ac enwa hefyd Wm. Hughes, Esgob Llandaf, Hugh Bellot, Esgob Bangor, Gabriel Goodman, Deon Westminster, Dr. Powell, yr Archddiacon Edmund Prys, a Richard Fychan, Esgob Llundain.

Gwaith cariad oedd cyfieithu'r Beibl i Wiliam Morgan,—eto cafodd ychydig o dâl mewn swyddi Eglwysig am ei fawr lafur, canys yn 1595 cafodd Esgobaeth Llandaf, ac yn 1601 fe'i hetholwyd yn Esgob Llandaf, lle y bu farw yn 1604, a lle codwyd colofn gŵf ar ei fedd yn 1888.

Mae'n hawdd ysgrifennu llawer ar fywyd llawn gwaith a llafur a llwyddiant yr Esgob Morgan, ond mae yn barod amryw gofiannau iddo, gan Charles Ashton a chan y Parch. Wiliam Hughes, Llanuwchllyn,—sy'n rhoddi ei hanes yn llawn.

Y mae ei Gymraeg yn cael ei gydnabod gan bawb yn Gymraeg safonol,—yn ystwyth, yn feistrlogar, a byw. Creodd ymddangosiad ei Gymraeg ef ddull newydd a gwell o ysgrifennu, canys y mae y gwahaniaeth rhyngddo ef a'r rhan fwyaf o'r llyfrau a brintwyd o'i flaen yn ddirfawr.

Copiais y ddwy bennod o Iob ac Esau a'r tair Psalm yma o gopi o'r Beibl sy'n llyfrgell Coleg Aberystwyth, a maent fel yr ysgrifennodd Wiliam Morgan hwynt. Pigais y rhannau lled wybyddus yma er mwyn i'r rhai a'u darlennen gael eu taro gan y gwahaniaeth rhyngddynt a Chymraeg presennol ein Beibl. Y mae llyfr Iob wedi ei ddwyn allan eisoes gan Gwenogfryn Evans, a gobeithio yn fawr y caiff y cyfneustrada yn fuan i gyflawni ei addewid o ddyfod a rhannau eraill allan yn ei ddull campus ei hun.

IOB XXIX.

Iob yn hiraethu am y gwynfyd gynt. 12 Yn datcan ei fuchedd. 21 Ac yn mynegu ei barch.

1. YNa Iob a barablodd trachefn, ac a ddywedodd,
2. Oh na bawn i fel yn y misoedd o'r blaen : fel yn y dyddiau pan gadwe Duw fyfi.
3. Pan wnae efe iw oleuni lewyrchu uwch fy mhen : wrth oleuni yr hwn y rhodiwn drwy dywyllwch.
4. Pan oeddwn yn nyddiau fy ieuengtid, ac ymgeledd Dduw ar fy mhabell.
5. Pan [oedd] yr Holl-alluog etto gyd a mi : a'm llangciau o'm hamgylch.
6. Pan olchid fy nhraed ag ymenyn : a [phan] dywallte y graig arnafi afonydd o olew.
7. Pan awn i allan i'r porth trwy'r dref : parwn baratoi fy eistedda yn yr heol.
8. Llangciau a'm gwelent ac a ymguddient : a henuriaid a gyfodent, ac a safent.
9. Tywysogion a attalient eu ymadroddion : ac a osodent [eu] llaw ar eu genau.
10. Pendefigion cymmen a ymguddient : ai tafod hwy a lyne wrth daflod eu genau.

11. Canys y glust [a'm] clywe a'm bendithie : a'r llygad [a'm] gwele a destiolaethe o honnof.
12. Canys gwardwn y tlawd yr hwn a fydde yn gweiddi : a'r ymddifad, a'r [hwn] ni [bydde] gynnorthwy-wr iddo.
13. Bendith y colledig addeue arnaf : a gwnawn i galon y wraig weddw lawenychu.
14. Gwisewn gyfiawnder, a hithe a wisce am danfi : a'm barn [fydde] fel mantell a choron.
15. Llygaid oeddwn i'r dall : a thraed oeddwn i'r cloff.
16. îad oeddwn i'r rhai anghenog : a'r cwyn [yr hwn] nid adwaenwn, a chwiliwn i allan.
17. Drylliwn hefyd gilddannedd yr anghyfiawn ; a gwnawn iddo ef fwrw'r slyfaeth allan o'i ddannedd.
18. Am hynny y dywedwn, byddaf farw yn fy nŷth : a byddaf morr aml [fy] nyddiau a'r tywod.
19. Fyng-wreiddin [oedd] yn agored i'r dyfroedd : a'r gwllith a arhosodd yn fy mrig.
20. Fyng-ogoniant oedd îr gyda mi : a'm bwa a adnewyddde yn fy llaw.
21. Hwynt a wrandawent arnaf, ac a ddisgwilient : distawent am fyng-hyngor.
22. Ar ôl fy ymadrodd ni ddywedent hwy ail-

- waith : canys fy ymadrodd a ddifere arnynt hwy.
23. A hwy am disgwylient i fel glaw : ac a agorent eu genau fel [am] y diweddar law.
 24. Chwarddwn arnynt hwy [ond] ni chredient : ac ni wnaent hwy i lewyrch fy wyneb syrthio.
 25. Dewiswn eu ffordd hwynt, eisteddwn yn bennaf, a thrigwn fel brenin mewn llu : megis yr hwn a gyssuro rai galarus.

IOB IX.

*Iob yn cydnabod gallu, cyfiawnder a doethineb
Duw : a diffig dyn, ac er hyny yn cwyno
rhac ei adfyd.*

1. AC Iob a atebodd, ac a ddywedodd,
2. Yn wîr mi a wn mai felly [y mae :] canys pa fodd y cyfiawnheir dÿn, [o chydystyrir ef] a Duw ?
3. Os myn efe ymryson ag efo : nid ettyb iddo ef [am] un [peth] o fil.
4. Y mae efe yn ddoeth o galon ac yn alluog o nerth : pwy a galedodd [ei galon] yn ei erbyn ef, ac a lwyddodd ?
5. Yr hwn sydd yn symmud mynyddoedd :

- heb wybod iddynt : yr hwn sydd yn eu dymchwelyd hwynt yn ei ddigofaint.
6. Yr hwn sydd yn cynhyrfu y ddaiar allan oi lle : fel y cryno ei cholofnau hi.
 7. Yr hwn a ddywed wrth yr haul, ac ni chyfyd : ac a selia ar y sêr.
 8. Yr hwn sydd yn tanu y nefoedd yn unic : ac yn sathru ar donnau y môr.
 9. Yr hwn sydd yn gwneuthur Arcturus, Orion, a Phleides, a stafelloedd y dehau.
 10. Yr hwn sydd yn gwneuthur [pethau] mawrion anchwiliadwy : a rhyfeddodau anneirif.
 11. Wele efe aiff trosofi, ac nis gwelaf : ac efe a aiff heibio, ac ni chanfyddaf mo honaw.
 12. Wele efe a sclyfaetha, pwy a wna iddo dalu ? pwy a ddywed wrtho ef, pa ham y gwnei di [felly ?]
 13. Ni thrŷ Duw ei ddigllonedd ymmaith : tano ef y crymmwyd cynhorthwy-wŷr balchder.
 14. Pa feint llai'r atebaf iddo ef ? [ac] y gallaf ddewis fyng-eiriau [i'w dywedyd] wrtho ef ?
 15. I'r hwn pe bawn cyfiawn nid atebwn, eithr ymbiliwn a'm barn-wr.
 16. Os galwn, a phe atebe efe i mi, ni chredwn y gwrandaue efe fy lleferydd.

17. Yr hwn a'm dryllia a chor-wynt : ac a
amlhâ fy archollion yn ddi-achos.
18. Ni ddioddef efe i mi gymmeryd fy anadl
attaf : canys efe a'm lleinw a chwerwder.
19. Os am gadernid, wele ef yn gadarn : ac os
am gyfraith, pwy a ddadleua trosofi?
20. Os myfi a ymgyfiawnhaf fyng-enau a'm
barn yn euog : [os] perffaith [y cymmer-
wn i arnaf fy mod] efe a'm barn fi yn
drofaus.
21. Pe byddwn berffaith [etto] nid adwen i fy
enaid : ffaidd genuif fy enioes.
22. Dymma un peth, am hynny y dywedais : y
mae efe yn difetha y perffaith fel yr
annuwiol.
23. Er lladd o honaw ef a ffrywyll yn ddisym-
mwrth : a watwar efe am benn cospedig-
aeth rhai diniwed.
24. Y ddaiar a roddwyd yn llaw'r annuwiol,
efe a fwrw hûg dros wynebaw ei barn-wy'r
hi : onid e, pa le [y mae efe? a] phwy
[yw efe a ddengys y gwrthwyneb?]
25. A'm dyddiau mau fi fuant gynt na rheddeg-
wr : ffoasant heb wêled daioni.
26. Aethant heibio [megis] gyda llongau buan :
megis yr eheda eryr at ymborth.
27. Os dywedaf, gollyngaf fyng-hwŷn dros
gof : mi a adawaf fy nigllondeb, ac a
gryfhâf.

28. [Yna yr] ofnaf fy holl ddoluriau : gwn na'm berni yn wirion.
29. [Os] euog fyddaf : pa ham yr ymflinaf felly yn ofer ?
30. Os ymolchaf mewn dwfr eira : ac [os] glanhaf fy nwyllaw yn lân ;
31. Yna di a'm trochi mewn pwll : a'm dillad a'm drewant.
32. Canys nid gŵr fel myfi [ydyw yr hwn] ymae yn rhaid i mi atteb iddo ef, [pan] ddelom yng-hyd i'r farn.
33. Nid oes rhyngom ni gryf ddyddiwr [yr hwn] a osodo ei law arnom ein dau.
34. Tynned ymmaith ei wialen oddi arnaf : ac na ddychryned ei ddychryn ef fi.
35. Yna y dywedaf, ac nid ofnaf ef : canys nid ydwyfi felly ynof fy hûn.

PSALM XCI.

1. YR hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf a erys yng-hyscod yr Holl-alluoc.
2. Dywedaf wrth yr Arglwydd, fyng-obaith a'm hamddeffynfa [ydwyf,] yn fy Nuw y gobeithiaf.
3. Canys efe a'th wareda di o fagl yr heliwr, [ac] oddiwrth haint echryslon.

4. Ai ascell y cyscoda efe trosot, a thann ei adenydd y byddi diogel: ei wirionedd [fydd] darian ac astalch [i ti].
5. Nid ofni rhag dychryn nôs, [na] rhag y saeth a eheto'r dydd.
6. [Na] rhag yr haint yr hwn a rodio yn y tywyllwch, [na] rhag y dinistr a ddistrio hanner dydd.
7. Wrth dy ystlys y cwmp mil, a deng-mil wrth dy ddeheu-law: ond ni ddaw yn agos attat ti.
8. Etto canfyddi a'th lygaid, a gwêli dâl y rhai annuwiol.
9. Canys ti ô Arglwydd [wyt] fyng-obaith uchel y gosodaist dy bresswylfa.
10. Ni ddigwydd i ti niwed, ac ni ddaw plâ yn agos i'th babel.
11. Canys efe a orchymyn i'w *Matth. 4. 6.* angelion am danat ti, dy gadw yn dy holl ffyrdd.
12. Ac ar eu dwylo i'th ddygant, rhag taro dy droed wrth garrec.
13. Ar y llew, a'r asp y cerddi: ar genew llew, a'r ddraig y sethri.
14. Gwardaf ef hefyd am roddi o honaw serch arnaf: derchafaf ef am adnabod o honaw fy enw.
15. Efe a eilw arnaf, a mi ai gwrndawaf:

mewn ing y byddaf fi gyd ag ef, y gwar-
edaf ef, ac y gogoneddaf ef.

16. Digonaf ef â hir ddyddiau : a dangosaf
iddo fy iechydwrïaeth.

PSALM XXIII.

Psalms Dafydd.

1. EIDDO* yr Arglwydd y ddaiar, *Boreol we-*
ai chyflawnder : y bÿd, ac a *ddi.*
bresswylia ynddo.
2. Canys efe a'i seiliodd ar y môr- *Deut. 10. 14.*
oedd : ac ai paratôdd ar yr afonydd.
3. Pwy a escyn i fynydd yr Ar- *Iob 28. 12.*
glwydd, a phwy a saif yn ei lê *1 Cor. 10. 8.*
sanctaidd ef?
4. Y diniwed [ei] ddwylo, a'r glân [ei] galon :
yr hwn ni dderchafodd ei feddwl at
wagedd, ac ni thyngodd i dwyllo [ei
gymmydog].
5. Efe a dderbyn fendith gan yr Arglwydd, a
chyfiawnder gan Dduw ei iechydwrïaeth.
6. Dymma genhedlaeth y rhai a'i ceisiant ef,
[sef] y rhai a geisiant dy wyneb di ô
Iacob. Selah.
7. O byrth derchefwch eich pennau, ac ym-

- dderchefwch ddrysau tragywyddol: a brenin y gogoniant a ddaw i mewn.
8. Pwy yw yr brenin gogoneddus hwnnw? yr Arglwydd nerthol a chadarn: yr Arglwydd cadarn mewn rhyfel.
 9. O byrth derchefwch eich pennau, ac ymdderchefwch ddrysau tragywyddol, a brenin y gogoniant a ddaw i mewn.
 10. Pwy yw'r brenin gogoneddus hwnnw? Arglwydd y lluoedd, efe [yw] brenin y gogoniant. Selah.
-

PSALM LXXXIII.

At y pen-cerdd ar y Gittith. Psalm i feibion Corah.

1. MO'r hawddgar [yw] dy bebyll di ô Arglwydd y lluoedd.
2. Fy enaid a chwênichodd, ac a flysiodd hefyd am dy gynteddau di ô Arglwydd: fyng-halon a'm cnawd a orfoleddant yn Nuw byw.
3. Aderyn y tô hefyd a gafodd dŷ, a'r wennol nŷth iddi, lle y gesid ei chywion: sef dy allorau di ô Arglwydd y lluoedd fy Mrenin a'm Duw.

4. Gwynfyd presswylwyr dy dŷ : yn wastad i'th foliannant. *Selah.*
5. Gwyn ei fyd y dŷn y mae ei gadernid ynot, [a'th] ffyrdd yn ei galon.
6. Y rhai sydd yn myned trwy ddyffryn wylofain a'i gosodant yn ffynnon, a'r glaw a leinw y llynnau.
7. Aant o nerth i nerth, [ac] ymddengys [pob un] ger bron Duw yn Sion.
8. O Arglwydd Dduw'r lluoedd clyw fyngweddi, gwranddo ô Dduw Iacob. *Selah.*
9. O Dduw ein tarian gwel, ac edrych wyneb dy eneiniog.
10. Canys gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mil : dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw o flaen trigo ym-mhebyll annuwioldeb.
11. Canys haul a tharian yw'r Arglwydd Dduw, yr Arglwydd a rydd râd a gogoniânt : ni attal efe ddaioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith.
12. O Arglwydd y lluoedd gwynfyd y dyn a ymddyriedo ynot.

ESAY.

PEN. XL.

*Efangyliaid gyssur i'r Eglwys. 3 Galwedigaeth
Ioan fedyddiwr. 12 Gallu Duw i gyflawni
y cyssur uchod. 18 Ofered yw pob delw. 22
Duw'n unig sydd Ollalluog.*

1. CYssurwch, cyssurwch fy mhobl, medd eich Duw.
2. Dywedwch wrth fodd Ierusalem, llefwch wrthi hi, gyflawni ei milwriaeth : canys maddeuwyd ei hanwiredd, oherwydd derbyniodd o law'r Arglwydd yn ddau ddyblyg am ei holl bechodau.
3. Canys llêf sydd yn llefain yn yr anialwch, paratoiwch ffordd yr Arglwydd, inionwch lwybr ein Duw ni yn y diffaethwch.
4. Pob pant a gyfodir, a phob mynydd a brynn a ostyngir, y gwŷr a fydd yn iniawn, a'r anwastad yn wastadedd.
5. A gogoniant yr Arglwydd a ymeglura fel y cydwelo pob cnawd mai genau'r Arglwydd a lefarodd [hyn].
6. Llef a ddywedodd [wrth y prophwyd,] gwaedda di, yntef a ddywedodd, beth a waeddaf, [bod] pob cnawd yn wellt, a'i holl odidawgrwydd fel blodeun y maes.

7. Gwywodd y gwelltyn [a] syrthiodd y blodeun, canys Ysbryd yr Arglwydd a chwythodd arno, gwellt yn ddiau [yw] 'r bobl.
8. Gwywodd y gwelltyn, syrthiodd y blodeun, a gair ein Duw ni a saif byth.
9. Dring rhagot yr efangyles Sion i fynydd uchel, derchafa dithe dy lef trwy nerth ô efangyles Ierusalem : derchafa nac ofna, dywed wrth ddinasoedd Iuda, wele eich Duw chwi.
10. Wele'r Arglwydd Dduw a ddaw'n erbyn y cadarn, a'i fraich a lywodraetha arno ef, wele ei obrwy gyd ag ef, ai waith oi flaen.
11. Fel bugail y portha ef ei braidd, âi fraich y cascl ei wŷn, ac [ai] dŵg yn ei fonwes, ac a goledda y mamogiaid.
12. Pwy a fessurodd y dyfroedd yn ei ddwrn? ac a fessurodd y nefoëdd âi rychwant, ac a gymhwysodd bridd y ddaiar mewn mesur, ac a bwysodd y mynyddoedd mewn pwys, a'r brynnau mewn cloriannau?
13. Pwy a gyfarwyddodd Yspryd yr Arglwydd? ac yn wŷr oi gyngor ai hyfforddiodd ef?
14. A phwy'r ymgynghorodd efe, ie [pwy] ai hyfforddiodd ac a'i dyscodd mewn llwybr barn? ac a ddyscodd iddo wŷbodaeth, ac

- a gyfarwyddodd iddo ffordd deallgarwch ?
15. Wele'r cenedloedd a gyfrifwyd fel defnyn o gelwrn, ac fel brychewyn oddi wrth gloriannau : wele fel brychewyn y bwrw efe ymaith yr ynysoedd.
 16. Ac nid digon Libanus yn dân, nid digon ei fwyst-filod ychwaith yn boeth offrwm.
 17. Yr holl genhedloedd [ydynt] megis diddim ger ei frô ef, yn llai na dim, ac [na] gwagedd y cyfrefwyd hwynt ganddo.
 18. I bwy gan hyny y cyffelybwch Dduw? a pha ddelw a osodwch chwi i fynu iddo ef?
 19. Y saer a lunia gerf-ddelw, a'r aurych ai goreura, ac a dawdd gadwyni o arian.
 20. Yr hwn sydd arno eisieu offrwm a ddewis bren heb pydru, cais ef atto saer cywraint i baratoi cerf-ddelw yr hon ni syfl.
 21. Oni ŵyddoch, oni chlywch, oni fynegwyd i chwi o'r dechreuad, oni ddeallwch seiliad y ddaiar?
 22. [Myfi ydwyf] yr hwn a eistedd ar amgylchoedd y ddaiar, (pan [yw] ei thrigolion fel locustiaid) yr hwn a estyn y nefoedd fel cortyn, ac ai lleda fel pabell i drigo [ynddi].
 23. Yr hwn a rydd lywodraeth-ŵyr yn ddiddim, fel gwagedd y gwnaeth efe farnŵyr y tir.

24. Ac ni phlannwyd hwynt, ni's hauwyd ychwaith, ei foncyff hefyd ni wreiddiodd yn y ddaiar, eithr efe a chwythodd arnynt, ac hwynt a wywasant, a chorwynt ai dwg hwynt ymmaith fel us.
25. I bwy gan hynny i'm cyffelybwch, ac i'm cystedlir, medd y Sanct?
26. Dyrchefwch eich llygaid yn uchel, ac edrychwch pwy a greawdd y rhai hyn, yr hwn a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi, efe ai geilw hwynt oll wrth eu henwau : drwy amllder [ei] rym [ef,] a'i gadarn allu ni phallhâ dim.
27. Pa ham y dywedi Iacob, ac y lleferi Israel? cuddiwyd fy ffordd oddi wrth yr Arglwydd, a'm barn aiff heibio i'm Duw.
28. Oni wyddost, oni chlywaist, na ddeffygia, ac na flina Duw tragywyddoldeb? yr Arglwydd a greawdd gyrau'r ddaiar, ni ellir chwilio allan ei synnwyr ef.
29. Yr hwn a rydd nerth i'r deffygiol, ac a amlhâ gryfder i'r dirym.
30. Canys llangiau a ddeffygiant ac a flinant, a gwŷr ieuaingc gan syrthio a syrthiant.
31. Eithr y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd a wellhânt o nerth, ehedant fel eryrod, rhedant ac ni flinant, rhodiant ac ni ddeffygiant,

PEN. LV.

*Duw yn annog y bobl i ffydd, ac i edifeirwch
trwy ei efangyliaidd addewidion.*

1. O Deuwch i'r dyfroedd bob un y mae syched arno, ie yr hwn nid [oes] arian ganddo, deuwch prynwch, a bwyttewch, ie deuwch prynwch wîn, a llaeth heb arian, ac heb werth.
2. Pa ham y telwch arian am [yr hyn] nid [ydyw] fara? a'ch llafur am [yr hyn] nid [yw] yn ddigonoldeb? gan wrando gwrandewch arnafi, a bwyttewch yr hyn sydd dda: ac ymhyfryded eich enaid mewn brasder.
3. Gogwyddwch eich clustiau a deuwch attaf, gwrandewch fel y byddo byw eich enaid, ac mi a wnafl gyfammod tragywyddawl â chwi [sef] siccr drugareddau Dafydd,
4. Wele rhoddais ef yn dyst i'r *Psalms 132. 11.* bobl, yn flaenor, ac yn athro i'r bobloedd.
5. Wele cenedl nid adweini a elwi, a chenedlaeth nid adwaenant ti a redant attaf, er mwyn yr Arglwydd dy Dduw, ac o herwydd Sanct Israel: canys efe a'th ogoneddodd.
6. Ceisiwch yr Arglwydd tra y caffer ef: gelwch arno tra fyddo yn agos.

7. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei amcannion, a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arno, ac at ein Duw ni o herwydd y mae efe yn barod iawn i faddeu.
8. Canys nid fy amcannion i [yw] eich amcannion chwi: ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i medd yr Arglwydd.
9. Canys [fel] y mae'r nefoedd yn uwch na'r ddaiar, felly uwch yw fy ffyrdd i na'ch ffyrdd chwi, a'm amcannion i na'ch amcannion chwi.
10. Canys fel y descyn y glaw, a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dwfrhâ y ddaiar, ac a wna iddi darddu a thyfu fel y rhoddo hâd i'r hau-w'r, a bara i'r bwytta-wr.
11. Felly y bydd fyng-air yr hwn a ddaw o'm genau, ni ddychwel attaf yn wâg: eithr efe a wna yr hyn a fynnwyf, ac a lwydda lle'r anfonwyf ef.
12. Canys mewn llawenydd yr ewch allan, ac mewn hedd i'ch arweinir [i mewn,] y mynyddoedd a'r brynnau a floeddiant ganu o'ch blaen, a holl goed y maes a gurant ddwylo.
13. Yn lle drain y cyfyd ffynnid-wydd, yn lle danadl y cyfyd myrt-wydd, a [hyn] fydd i'r Arglwydd yn enw ac yn arwydd tra-gywyddol yr hwn ni thorrir.

1020
SION DAFYDD RHYS, 1609

Mae hanes y gwr dyscedig hwn, o'i febyd i'w fedd, yn rhamant ddyddorol. Garddwr oedd ei dad, Dafydd Rhys, a ddaeth i Wynedd o Forgannwg gyda Syr William Griffith, pan briododd ferch Thomas Stradling, o Gastell St. Donat's. Dafydd, ynteu, yn ei dro a briododd wasanaethyddes ei feistr, ac un o St. Donat's oedd hi. Ganwyd iddynt un mab—Sion: a buan wedi ei eni bu farw ei dad a hefyd Syr William. Gan nad oedd i'w fam unrhyw berthynas yn y Gogledd, penderfynodd droi yn ol i'r De, a chan mai ifangc a gwan oedd y bachgen bach, gorfod iddi ei gario ar ei chefn agos yr holl ffordd i Forgannwg. Profodd hyn yn ormod o waith iddi, a bu farw yn union wedi cyrhaedd ei hen gartref, gan adael ei phlentyn diymgeledd yn unig ag amddifad.

Onid gwenodd rhagluniaeth arno, gan i Syr Edward Stradling ei gymeryd i'r Castell, a chafodd yr un meistr i ofalu am ei ddysgeidiaeth ag a ddysgai fab y boneddwr caredig. Anfonwyd y ddau i'r Eidal, i Brif Athrofa Sienna, lle y cawsant bob cyfleustra i ymberfeithio yn yr Italaeg a'r Lladin. Pan ddaethant yn ol, gwnawd Sion Dafydd Rhys yn athro teulu Stradling; a phan gofir iddo achub bywyd yr etifedd rhag boddi yn y môr ar ol i bawb arall fethu, hawdd yw canfod paham y bu i'r Stradlingiaid estyn pob cymorth i Sion ar hyd ei oes. Aeth i'r Eidal drachefn, i Sienna, a gwnawd Sion yn Ddoctor Meddyginiaeth gan Gyngor y Brifysgol. Erbyn hyn, yr oedd wedi penderfynu byw yn fynach, —ond gan fod yr holl fynachlogydd wedi eu dinystrio yn amser Harri'r Wythfed, prynodd Sion Dafydd Rhys etifeddiaeth fechan iddo ei hun a elwir y *Clyn Hir*, ar eithaf Cwm Llŵch, o dan gysgod Bannau Brycheiniog, lle y bu farw yn hen wr aml ei ddyddiau yn 1609.

Ysgrifennodd amryw lyfrau yn ei ddydd,—un ar "Reolau i

Ddeall yr Iaith Lladin” yn Italaeg a argraffwyd yn Venis,—un ar yr iaith Italaeg, yn Lladin a gyhoeddwyd ym Mhadua,—ond ei lyfr mawr a orffennodd yn nhawelwch y “Clûn Hir” ydyw ei Ramadeg Cymraeg. Y mae hwn yn llyfr mawr dyscedig, yn Lladin gan mwyaf, ond gydag Annerch minig Cymraeg. Rhoddaf yma ddarnau o’r Annerch, ac er mwyn ei wneyd yn lled hawdd i’w ddarllen rhaid oedd newid tipyn ar ddull yr hen ddysgawdwr o lythyrennu. Oherwydd mae ganddo ei ddull ei hun o sillebu, canys defnyddia am *f, dd, ng, ngh, ll*, y llythyren wreiddiol ac *h*, fel hyn, *bh, dh, gh, ghh, lh*, yr hyn a rydd olwg ddiifrifol ar ei lawysgrif. Ond er hyn ac ychydig newid arall, cedwir ei arddull a grym ei Gymraeg yn gyflawn. Mae teitl ei Ramadeg yn Lladin, ond o’i gyfieithu dyna yw,—“Elfennau ac Egwyddorion y Gymraeg Brydeinig, wedi eu traethu yn ofalus, ac, hyd y gellid, yn fanwl a llawn, &c., 1592.” Amlwg yw mai i’r bobl ddyscedig y bwriadai Rhys ysgrifennu, canys y mae ei fater a’i ddull o drin ei bwngc ymhell uwchlaw cyraedd amgyffred y werin.

AT BENDEFIGION A BONHEDDIGION A PHRYD-
YDDION A CHYMREIGYDDION, AC AT
ERAILL O'M ANNWYLIEID O GENEDL
GYMRY, AC ERAILL AMGEN NO'R HAIN,
ANNERCH A LLWYDDIANT.

NYD oes nemor o iaith (hyd y gwynn i) ynn
Europa a'i hynsoedd na's cafas ei hymgeleddu
a'i choledd gann ei Ieithyddion a'i Gwladwyr
'ihun o amser i gilydd ; onyd eyn hiaith ni y
Cymry. Yr honn ynawr yn hwy ac o fraidd, a
ddechreuodd gaffael peth gwrtaith gann wyrda
dyscedic o'n hamser ni ; a hynny yn enwedic o
ran cymreic-hau corff yr yscrythur lan. Canys
o's golygwch arr genedloedd a phobloedd
eraill, megys y Groecieit a'r Lladinieit, chwi a
ellwch ganfod, nadd oes nebryw wybodaeth na
chelfyddyd dann yr haul, o'r a ddichon bod
mywn dyn, na's caffer ei gweled yn amlwc ynn
eu hiaith a'e llyfreu hwy, yn gyn amled, a bod
holl Europa yn gyflawn o'i hiaith a'i llyfreu
hwy, ynn tragwyddoli moliant a gogoniant i'r
Gwledydd hynny, ac i'r Awdurieid ac i Ym-
geleddwyr yr ieithoedd hynny, hyd tra barhao
byd. A gwedy yr hain hynn, y dilynassant yr
Ieithoedd cyffredin, megys yr Italieith, yr
Hyspanieith, y Phrangec, yr Almannieith, y

Saesonec, y Scotieith, a ieithoedd eraill heb law hynny, a fedrwn eu hadrodd, ony bei rhac ofn ych trablino. A'r ieithoedd hynn oll a gyfarfuant o amser i amser a Ieithyddion, a Ieithymgeleddwyr hawddgaraf o'r byd, ac ewyllysgaraf i ymgeleddu, a choledd, a mawrhau bob un o honynt ei iaith 'ihun ; hyd ynn y diwedd, nadd oes cymeint ac un heddiw o'r holl ieithoedd cyffredin uchod, na bo ynddei holl gelfyddod-eu'r byd, wedi eu cyfleu a'i cymhennu yn brintiedic mywn Coflyfreu, a barhaont hyd tra barhao ffurfafen. Yr hynn beth a fagodd ddirfawr barch a' mawrhaad tragywyddawl, nyd yn unic i'r Ieithyddion, a'r Gwrteithwyr, a'r Awdurieit ; onyd hefyd i'r Gwladwyr a'r Cenhedloedd hynny. Eithr ninheu y Cymry (mal gweision gwychion), rhai o honon' ynn myned morr ddiflas, ac morr fursennaidd, ac (yn amgenach nog un bobl o'r byd), morr benhoeden, ac y daw brithgywilydd arnam gynnyg adrodd a dywedud eyn hiaith eynhunain : ief a gwynn eyn byd ryw rai o honom fedru bod morr fin-dlws, a chymrud arnam ddarfod inni o gwbl abergofi y Gymraec, a medru weithion (malpei) ddoydud Saesnech, a Phrangech, ac Italieith neu ryw iaith alltudaidd arall parywbynnac a fo honno oddieithr Cymraec : Ctyboet yn wir ynn y cyfrwng hynn, na's

medrom y ganfed rann o'r ddieithriaith a gymhersam arnam ei gwybod a'i doydud morr hyfedr. Eithr nyd yw y fursennaidd sorod hynn o Gymry (o's tég doydud gwir) onyd gohilion, a llwgr, a chrachyddion y bobl a'i brynteion; Y rhai hynn yn ddiameu a'i cyffelyb, megys gelynion i'r iaith Gymreic, a fyddant barod ddigon i ganfod llawer bai ynn y llyfr hwenn, o ethryb ei wneuthur arr amcan mawrles i'r wlad, ag er mwyn ymgeledd a cheidwadaeth tragwyddol i iaith y Cymry. Canys nyd oes na ffordd na modd well yn y byd i warchadw iaith rhac ei cholli no gwneuthur Gramadec iddi ac ohoni. Ac ynn y modd hynny, y cadwyd heb gyfyrgolli yr Hebraec, a'r Groec, a'r Lladin, a'r Arabiaith, a'r Caldaec, &c. A'r mursenyddion uchod, a gwir Erthylod iaith Gymry, er meint a feiant arr hynn o lyfr, eisioes ny's medrant na gwella dim o'r yssydd arr fai, nag uniawni dim o'r yssydd yn ghamm, na chwaith ddechymygu dim o'i hymenyddieu a'i synhwyreu euhunain, a fo cystal ar beieu gwaethaf a gaffer ynn y llyfr yma, pan fwrier y gwyrda hynn at eu prawf. A'r rhai hynn a ellir eu dyfalu a'i cyffelybu i Gostoc tomm, yr hwenn o ddryganian ny wna na chnoi yr ascwrn ihun na goddef i Gi arall ei gnoi. Eithr i'r hai hynn a'i cyfryw, y cynghorwn nadd ymflynnt

ddim o'i penneu ffol a dim o'r y sydd ynn y llyfr yma, onyd yn enw duw, gadel o honynt bob peth yn wastadaidd, ac mywn y fath lonyddwch ac ansawdd, megis a pheî byssid heb yscrifennu ddim o hyn o lyfran eirmoed, a megis hefyd a pheî byssei yr Awdur, a'r dyn a'i gwnaeth, heb ddim o'i eni eirioed. Cansys ny wnaethpwyd ddim o'r llyfr yma er mwyn y fath sothachddynion ac ynt y rhai hynny ; onyd arr hyder a meder gwyr da eu hanian, a gwyr dyscedic ynn yr iaith Gymraec ; er mwyn gallu o honynt drwy ymgais a chann eu pwyll, gael beieu ynn y llyfr o amser py gilydd, wrth fal yr ymgylfarfyddont ac yr ymgylhyrddont a'r beieu, y gallont eu gwella : ac o'r diwedd arwain iaith morr odidoc ac mor brydferth ac yw y Gymraec, allan o'r dygn dywyllni y mae hi ynddo, a'i dwyn idd ei hen berffeithrwydd a'i theilyngdawd gynt. A dyma i chwi (f' annrheithi am' Anwylieid) y meddwl, a'r amcan, a'r cyngyd a oedd gannyfi wrth geisio gwneuthur hynn o waith. Ac nyd o falchedd ynn y byd, nag o ymddangosiad chwaith ofer rodres na gwrhydri y gwneuthum yr hynn a wneuthum. A bît honneid a chyhoeddus i chwi, fy mod er ys llawer dydd ynn ymaros ac yn ddigon da fy ngortho, i edrych a welwn neb o breswyl-

fod Cymry yn gystal ei grêth a'i anian, a myned (o'r diwedd) ynghylch hynn o orchwyl er serch arr yr iaith, a'r wlad, a'r dynion : a chann na's gwelwn chwaith fâth gyngyd ac amcan ynddynt o fywn hynn o amser, a chanfod o honof yr iaith o eisieu Grammâdec Cymraec ynn myned megis arr gyfyrgoll ; a syllu o honof hefyd fod gelynion yr iaith ym mronn cael eu gwynfyd arnei, mi a wneuthum y meint a welwch ; gann obeithio y gallo ryw ddynd da ddyfod i m'hôl, a fetro gwplau a pherffeithio y meint a wyfi ynn ei ado yn anorffenn ac yn ammherffaith. Canys ymmhosibl yw dechreu a pherffeithio ar unwaith, unpeth morr galed ac yw Grammâdec Cymreic. A phob dyn a wyr, na allwyd erioed fwyta pryd o fwyd ynn un tameid, nac aredic erioed erw o dir ynn ungwys ; ac felly o rann cyffelybrwydd, ny allwyd eirioed beffeithio arr unwaith un gelfyddyd ynn y byd ; onyd yn ol ei dechymygu a'e dechreu, oddyna o bryd i bryd ei chwanegu hi, ac o'r diwedd ei pherffeithiaw. Ac wrth hynn, y gellir canfod fod er ys hir dalm o amser fai mawr arr Brydyddion a' Chymreigyddion Cymry o barth distriwiad ac angeu yr iaith : a diameu na's dichon yr iaith adel ddim o'i gwca'i gelanastra, onyd yn fwyaf oll arnynt hwy. Canys cadw a chuddio a 'notaynt y rhei hynn, ac eraill hefyd eu llyfreu

a'i gwybodaethu mywn cistieu a lleoedd dirgel; hyd na ddelei attynt nag arnaddynt na gwynt, nag awyr, na haul, na lleuad, na llygad dyn; ac hyd na bei undyn yn gyfrannol o ddim o'r a fei ynddynt; ac hyd na ddelei ddim llwyddiant iddynt, na dim elw o honynt; onyd gwedi angeu a marwolaeth eu ceidweid, ddyfod o'r llyfreu hynn drwy ddrwc ddilaith a thynghedfen i ddwylo Plantos o'i rhwygo, ag i wneuthur babiod o honynt; neu at Siopwrageddos i ddodi llyssieu sioppeu ynddynt; neu ynteu at Deilwriet i wneuthur dullfesurau dillados a hwynt: hyd nad oes nemor or petheu odidoccaf ynn y Gymraec (wrth hynn o gamwedd) heb eu hanrheithio a'i difa yn llwyr. A'r Prydyddion o'i rhann hwynteu (er mwyn gwaethu arr y gwaethaf) o byddei o ddamchwain gann ryw rai o honynt ddim cynhildeb, na chywreindeb, a'r ny bei gann eraill o'i cedymdeithion: hynny oll a gadwent yn rhin oddiwrth Brydyddion eraill, ac oddiwrth bawb heb law hynny: megis y gellit ddywedud (malpei) fod gann hwnn a hwnn, a'r llall a'r llall, y fath gelfyddyd a chynhildeb mywn Cymraec a Phrydyddiaeth, a'r nadd oedd gann undyn ei chyffelyb, onyd ganthynt hwy. A phann fei meirw y Prydyddion hynny, yna yr aei y tegwch hynny igyd i'r pridd, ynn y lle ny bei byth son am dano.

Hyd ynn y diwedd, ny adawyd na chelfyddyd ynn eu plith na dyn celfydd a fei gwiw sôn am dano; ac hyd wrth hir ddilyn y gamwedd honno, y tynnassant ac y llusgassant euhunain y Prydyddion allan o bob teilyngdod ac urddas; ac yn gystal ac i frain Rogyeit, heb nac Eisteddfodeu ('wiw sôn am danynt) ganthynt, na chwaith Breinieu na Graddeu fal gynt: onyd rhai o honynt ynn ymroddi euhunain i ddiogi, ac i lynna, a phiteinia, ac i ddywedud celwydd ynn eu Cerdd, ac i bob aflwydd gyd a hynny. Eithr pei byddynt, yn ol sampl y Groecieit, a'r Lladinieit; ac yn ol defod ac arfer pob iaith gyffredin ddilynol i'r hai hynn, yn dod allan mywn print, ac i olwe y byd, degwch a phrydferthwch y Brydyddiaeth Gymreic, yn burlan ac heb lygru ddim o honei; yna y buassei Pennadurieit Lloegr a Chymru, a gwyr tramoredic hefyd ynn cymrud cymeint o enrhuffedod, wrth ganfod y fath degwch yn yr iaith gymreic, ac ynghowreindeb a chelfyddyd y Prydyddion, ac y byssynt mor chwenychgar i'n hiaith ni, ac ydym ninheu ac awydd i amgoffeidio ac i amgyffred ei hiaith hwynteu, ac i fawrhau a mawrberchi yr Awdurieit a'i Prydyddion o ethrybeu cywreinrwydd a'i cyfarwyddydd. Ond gwir yw'r ddihaereb [A geisio'r cynn a gyll y clustieu].

Ac ef a allei y cyferfydd y llyfr yma arr
 byrdieu â rhyw fath o ddyntonach anneallus;
 yr hain ny cheissiant well swydd nog ymroi i
 chwilio am y bai yma a'r bai accw, arr hyd corph
 y llyfr yma; arr eulun dynion a feynt ynn
 chwilcenna am lau arr ddiillad marchoc urddol:
 a hynn oll a wneynt nyd o chwant dyscu chwaith
 lles allan o'r Llyfr yma, nag iddynt euhun nag
 i ereill: onyd yn unic (ynn eu meddwl euhunain)
 er mwyn cael eu barnu morr ddyscedic yn
 ngholec y byd, a bod o honynt hwy (malpei) yn
 wyr cymeint eu dysc a'e cyfarwyddyd a medru
 canfod beieu mywn llyfreu gwyr ereill, cytboet
 na's medrant wellhau yr un o'r beieu lleiaf, pei
 medrynt ganfod eu byd yn feieu. Oh chwychwi
 Benhyrddot, pwybynnac ydych, a'r dihiraf a'r
 lleiaf eych hystyr o'ch holl genedl: ony wydd-
 och chwi nadd oes unpeth o'r byd a ddelo
 oddiwrth ddynd na bo beius ac amherffaith er
 daied y gwneler: a doydyd o Selyf Ddoeth,
 nadd oes ond oferedd (ie, a llwyr oferedd) ac
 amherffeithrwydd o ddim o'r y sydd dann y
 Ffurfafen. Ac am hynny, chwychwi y fath ddynt
 ion di ystyriaeth a di synwyr, a gwaethaf eych
 anian o holl blant eych tât, na cheisiwch fod yn
 Fablu cynn gallu bod yn Lleucu: sef yw hynny,
 ceisio bod yn berffaith ym mhob peth cynn gallu
 bod yn berffaith mywn unpeth; ac na cheisiwch

ormodd beio ar eyn Llyfr ni, hyd yny weloch bob Llyfr arall yn ddifai: a'ch hunain hefyd yn ddifai, ac yn gyflawn o ddeall, ac hyd yny wypoeh wneuthur gwir wahaniaeth rhwng petheu beius a phetheu difeius: ac yna beiwch yny flinloch. A pheth a ddywedwch chwi'r ffolieid; agatfydd chwi ddywedwch fod y Llyfr yma yn rhwy hir; meddaf finneu, y mae ef morr rwy hir ac nadd oes ynddo hanner a ddylyei bod ynddo. Gwell (meddwch chwi) y gweddei y Llyfr yma fod yn Saesnac nog yn Gymraec, i ddyscu Cymraec: felly y bydd, pan er mwyn Saeson yn unig y gwneler. Gwell (medd ereill o honoch) a fyssei i'r Llyfr fod yn Gymraec igyd, nog yn Gymraec ac yn Lladin, felly hefyd y bydd, pryd er mwyn Cymru yn unig y gwneler. Ac (yscatfydd) chwyehwi a ddywedwch ffy ffy dyma air yn nghamm, a dyna arall yn nghamm, ac ny bydd gennwch onyd ymgyfarfod a'r camm, a neidio o gamm i gamm: minheu (ony bydd gennwch swydd a fo gwell) a gynghorwn ywch' ynn eych unswydd, fynet yn ddiarchen (sef yn esgeirnoeth droednoeth er mwyn dwyn eych penyd) hyd yn Nghaer Ludd; ac yno a'ch cappieu ynn eych dwylo, deisyf o honoch arr y Printyddion wella peth arr eu dwylo pryd y printiont ddim cymraec o hynn i maes.

A' mwyaf parth o'r Llyfr yma a fyfyrwyd


ac a feddylwyd yn gyntaf, ynn Nhy y Pendefic M. Morgan Merêdydd o ymyl y Bugeildy yn Nyffryn Tafida o fywn Swydd Faesyfed: ynn y lle lawer gwaith y bu fawr fy nghroeso, a'm hansawdd o fwyt a' llynn gann y gwrda a'r wreicdda. Eithr diweddbarth y Llyfr hynn, a fyfyriwyd dan berthi a dail gleision mywn gronyn o Fangre i mi fyhunau a elwir y Clun Hir, ym mlaen Cwm y Llwch, a thann Odreuwon Mynydd Bannychdêni. Rhai a eilw y Mynydd hynn [Bann Arthur,] eraill [Moel Arthur]. Dann grib y Foel honn, ac ynn ei harffet, y mae Llynn digon i' feint, ac yn afrifedd ei ddyfnder, ac yn rhyfedd ei ansawdd; o ethryb [mal y cerddant chwedleu] ny welspwynt eirioet ederyn o'r byd ynn cyrchu atto, nac yn nofiaw arno, onyd yn hollol ynn ymwrthod ac efo: a rhai a ddywedant, na's gnottaynt nag anifeilieid na milod o un rhyw, yfed ddim dwfr o hono. A llawer o enrhyfeddodeu eraill, (ac o rann canfod arr brydieu betheu dieithr dros benn yn nghylch y Llwch yma) a ydys ynn eu hadrodd gann gyffredin y Wlad honno; ac yn anwedic gann y sawl a arferynt o ymgyrchu i'r Moelydd a'r Banneu hynny er mwyn bugeila. A'r Llynn neu'r Llwch hynn, a elwir Llynn Cwmm y Llwch. Eithr ymchwelwn bellach i adrodd i chwi, taw ym mha le bynnac y dechreuwyd,

nac y cenolwyd, nac y diweddwyd y Llyfr yma ;
nag ym mha fann bynnac y myfyriwyd un dim
arno, i chwi, ac er eych mwyn chwi y gwnaeth-
pwyd hynn oll. Ac o'r ethryb hynny, odd oes
dim ynddo a fo tebyc i wneuthur dim lles nag
i'r Iaith nag i chwitheu y Pendefigion a Bon-
eddigion Gwlad y Cymry, y mae yn dda iawn
gann fy nghallon : onyd ef, gadawer heibio
mal diffrwythbeth, a dechymyger ryw beth arall
a fo gwell nog ef, a charer fi (os mynner) am
fy ewyllys da, er imi o ddamchwain fod (a hynny
o eisieu gallu) yn ddyffygiol (scatfydd) o
barth perffeithio fy ngorchwyl. A hynn a
ddywedaf wrthy ch cynn ymado o honof a
chwi, na wnaethpwyd ermoed ddim ynn
y byd yma yn gyn gystadled nac yn gyn
berffeithied, na's gallei ryw ddyd cynfigennus,
a drwc ei ewyllys, o'i ddrwc dafawt, gymryt
arno anurddo y peth da hynny a'i eirieu duon
marwaraidd, o ddamchweiniei iddo arr adegeu
ymgyfarfod ac undyn arall anneallus a fwriei ei
goel arno, ac a gredei i'r peth a ddywettei.
Weithion rhac tra gormodd blino arnoch, yma
y cymmeraf fy nghennad ganwch, gann ddeisyf
ynn fy ngweddi rhât y Tad, a'r Mab, a'r Yspryt
Glan i'ch plith oll yn wastad. Amen.

O'r Clûn Hir y chweched dydd o fis
Tachwedd, oedran eyn Harglwydd Iesu Grist,
mil a phym-cant a deuddec a phedwar ugeint.

Yr eiddoch oll, ac yn holl yr eiddoch,

I.D.R.



MORUS KYFFIN. 3 15 17

MORUS KYFFIN

MAE amser genj a marw Morus Kyffin yn anhysbys. Credir mai ail fab oedd i Richard Kyffin, o'r Glasgoed, Llansilin, Sir Ddinbych. Ymha ysgol ac ymha goleg y bu nid oes hanes, ond mae'n amlwg oddiwrth ei waith ei fod yn hyddysg mewn amryw ieithoedd ac wedi derbyn addysg a diwylliant da. Ei brif waith yw "Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr" a gyhoeddwyd yn 1594 (neu yn ol Charles Edwards yn 1595), a chydnabyddir gan bawb sydd yn abl i farnu fod ei Gymraeg, o ran dullwedd a chystrawen, gyda'r Cymraeg goreu a ysgrifennwyd erioed. Gwelir ei fod yntau yn un o'r band gweithgar, gwladgarol, awyddus am daenu gwybodaeth o'r Ysgrythyr drwy Gymru a flodeuent yn amser Elisabeth ac mae'n debyg mae un rheswm am rymusder a chadernid eu hiaith ydyw iddynt fod yn llygad-dystion o'r ymdrech fawr rhwng Lloegr a Spaen, rhwng Protestaniaeth a Phabyddiaeth am y llaw uchaf.

Cyfieithiad o'r Lladin ydyw "Deffyniad y Fydd" o waith Dr. Jewel, esgob duwiol dysgedig Salisbury, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1562, dan yr enw "Apologia Ecclesiae Anglicanae." Ei enw yn llawn yn y cyfieithiad Cymraeg ydyw, "Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr; lle y ceir gweled, a gwybod, dosparth gwir Grefydd Crist, ac anghywirdeb Crefydd Eglwys Rhufain: Anghenrheidiol i bawb ei ddealld a madws i ddynion ei ddyscu, o ran arwain eu buchedd yn y byd, fal y caffont fywyd tragwyddol yn y byd a ddaw. Wedi ei gyfieuthu o Ladin, yn Gymraeg, drwy waith M. Kyffin."

Ar ddechreu'r llyfr y mae "Annerch at yr howddgar ddarlledd Cristnogawl," a charwn i bawb ei ddarllen a'i ddwys ystyried.

Dilynair argraffiad Charles Edwards, 1671, yn y llyfr hwn.



ANNERCH AT YR HOWDDGAR
DDARLLEYDD CRISTNOGAWL.

“DYMMA iti ar les d’enaïd, yn hyn o lyfr, sylwedd a chrynodeb y Ffydd wir Gatholic, i’th hyfforddi a’th berffeithio yn llwybr gwasanaeth Duw ag iechydwrïaeth dyn. Wrth ddarllen hwn y cei di wybod hanes a dealld gwirionedd y Grefydd Gristnogawl, a chyda hynny ddanghossiad a dat-guddiad amhuredd crediniaeth Pâb Rhufain. Rhod y Goruchaf Dduw i ti ochel y drwg a chalyn y da.

Mi a dybiais yn oref adel heïbio’r hen eiriau cymreig yr rhai ydynt wedi tyfu allan o gydna-bod a chyd-arfer y cyffredin, ag a ddewisais y geiriau howssaf, rhwyddaf, a sathredicca ’gallwn, i wneuthyr ffordd yr ymadrodd yn rhydd ag yn ddirwystrus i’r sawl ni wyddant ond y gymraeg arferedig. Eithr am ryw air angenrheidiol, yr hwn ni ellid dangos mo sylwedd ei rym na synnwyr ei arwyddocâd yn gymraeg, e ddarfu i mi yn ôl arfer yr iaith Saeson-aeg, Ffrangaeg, iaith Itali, iaith Spaen, a bagad o ieithoedd eraill, gymryd y cyfryw air o’r Groeg, neu o’r Lladin yn y modd y mae’n gynefn gan-mwyaf ymhôb gwlad yng-Hred er ys-talm o amser. Nid oes nemawr o’r fath eiriau: ag o’r rhai rheitiaf di a gei hysbys-

rwydd a deonglad ar eu penneu eu hun ar ol diwedd hyn o Rag-ddoediad. Er maint fu fy ngofal am myfyrdod yn hyn o beth, etto, mi a wna gyfri gael fy-marnu a beio arnaf gan ryw fath a'r goeg ddynion, y rhai a graffant ar ymbell air ymma ac accw, ac a ddoedant yn y fan, "wele, geiriau seisnigaidd a geiriau lladingaidd yw rhain yn dwyno'r gymraec:" f'atdeb i'r rheini ydyw'r ddihareb, "Ni Wyr, ni Welodd, ni Ddysc." Druain gwerin, ychydig a wyddant, llai a welsant, ag nid gwiw sôn am ddyscu iddynt. My fi a faddeua i'r rhai hyn eu hanwybodaeth a'u ffolineb, ag adawaf i rai eraill chwerthin am eu penneu. Hawdd yw gwybod am ryw eiriau seisnig, nad oes, ag ni bu erioed eiriau cymreig i'w cael : a hefyd may geiriau yn dyfod o'r Ffrangaec yw'r rhan fwyaf o'r rhai y mae'n hwy yn tybied eu bod yn seisnigaidd. Ag am y geiriau lladingaidd, pwy nis gwyr nad yw'r iaith Gymraec yn ei herwydd, ddim amgen, onid hanner lladin drwyddi. Mi' allwn pe bae gennyf hamdden wneuthyr llyfr digon ei faint o'r geirieu cymreic arferedig a fenthycciwyd, nid yn unig o'r Lladin a'r Ffrangaec, eithr o iaith Itali ag iaith Spaen hefyd ; heblaw'r dafod Roeg, ag Ebryw, a'r cyfryw. Rhyw rai diddysc, di-synwyr, a ddoedant ddarfod i'r Ieith-

bedd hynny fenthyccio gan y Gymraeg, ac nid yr iaith Gymraeg genthyn-nhwy. Nid gwiw mor ymrysymmu a'r fath ynfydion cyn-awynol, namyn eu gadel mewn anwiredd ag oferedd. Yn wir, chwith iawn yw dal sylw ar awer o wyr Eglwysig cymreig yn byw ar bris eneidieu dynion, a bagad eraill o Gymry yn cymeryd arnynt eulun dysc a goruchafiaeth heb gentynt fri'n y byd ar iaith eu gwlad, eithr rhusso i ddoedyd a chwylyddio 'i chlywed, rhag ofn iss-hau ar eu gradd a'u cymeriad : heb na medry darllen na cheisio myfyrio dim a fae a ffrwyth yntho'n gymraeg, fegis mynny onynt i bobl dybied fod cymaint eu rhagor-fraint nhwy, na wedde iddynt (f'eneidieu gwnnion) ostwng cyn issed ag ymyrryd ar ddim addysc cymreig. Telid Duw iddynt ddaed eu cyneddfeu. Amdanaf fy hun, mi allaf ddoedyd, er dwyn onof y rhan fwyaf o'm byd hyd yn hyn o'm hoes ymmhell oddiwrth wlad Gymry, etto wrth fod ymysc Ieithoedd dieithr, a darfod i mi dreulio f'amser am hastudrwydd mewn petheu eraill, ni bu fwy fy ngofal ar fyfyrio a dal i'm cof un iaith' no'r Gymraeg; gan ddamuno allu o honof wneuthyr rhyw lês i'r iaith a'r wlad lle ym ganwyd, yn-ol athrawiaeth Plato'r Athrho mawr a phenadur llawer o philosophyddion dyfnddysc, yr hwn a

ddoedodd “Ortus nostri partem Patria, partem Parentes vendicant, partem Amici,” sef yw hynny, “y mae rhan o’n genedigaeth ni yn ddyledus i’n Gwlad, a rhan yn ddyledus i’n Tadeu a’n Mammeu, a rhan arall yn ddyledus i’n hoff-ddynnion.”

Duw a wyr e fuasse howsach i mi o lawer, a hynodach i’m henw, scrifenny’r cyfryw beth mewn iaith arall chwaethach nôg yn Gymraec: Ond mi a welaf bob peth (onid antur) ymhôb iaith yng-Hred, mor bybyr ag mor berffaith, drwy ddysc a diwdrwydd gwyr da, nad rhaid iddynt (yn ei herwydd) wrth ddim ychwaneg. O’r tu arall, prin y gwela’i ddim (ond llyfr Gair Duw’n unig) yn y Gymraeg, a dim ffrwyth rhinwedd ynddo, i ddyscy ag i hyfforddi yr rhai annyscedig. Doctor Wiliam Morgan a gyfieythodd y Beibl drwyddi yn hwyr o amser,—gwaith angenrheidiol, gorchestol, duwiol, dyscedig: am yr hwn ni ddichyn Cymry fyth dalu a diolch iddo gymaint ag a haeddodd ef. Cyn hynny hawdd yw gwybod may digon llesc oedd gyflwr yr iaith gymraeg, pryd na cheid clywed fynychaf ond y naill ai cerdd faswedd ai ynte rhyw fath arall ar wawd ofer heb na dysc na dawn na deunydd ynddi. O damweinie i ryw brydydd, ryw amser, geisio brâs-naddu ychydig dduw-

holdeb ar gerdd, ef a balle mewn llawer pwnc eisieu dysc a gwybodaeth; gan hynodi i'r bobl ryw hen chwedl neu goel gwrrach ar gwrr y barth, a hynny wedi ei dynny allan (y rhan fwyaf) o lyfr y Myneich celwyddog gynt, yr hwn a elwid *Legenda aurea*, ag a ellir ei alw *Traethawd y Celwyddeu*. Y mae'n fy meddiant i beth o'r fath gerdd Gymraec iw dangos, ag y mae'n dostur iawn gan fynghalon i feddwl ddarfod twyllo ac anrheithio llawer enaid dyn drwy'r fath erchyll ynfydrwydd. E ddarfuessid cyfieuthu'r Testament newydd ynghylch yr wythfed neu'r nowfed flwyddyn o Deyrnas eyn harglwyddes frenhines Elizabeth, ond yr oedd cyfled llediaith a chymaint anghyfiaith yn yr ymadrodd brintiedig, na alle clust gwir Gymro ddiodef clywed mo'naw'n iawn."

Ac yna a ymlaen i ddymuno yr hyn ni chafodd ef egwyl i'w gyflawni,—

"Gwaith rheidiol iawn fydde troi'r *Psalmeu* i ganghanedd gymraeg, nid i ganghanedd Englyn, nag Owdl, na Chowydd, nag i fath yn y byd ar gerdd blethedig; herwydd felly ni ellir byth troi na'r *Psalmeu* na dim arall yn gywir. Eithr i'r fath fessur a thôn canghanedd ag sydd gymeradwy ymhôb gwlad, a ddiwygyd drwy dderbynniad discleirdeb yr Efengel: ag fal y gwelir yn Saeson-aeg, Scotiaith,

Ffrangaeg, iaith Germania, iaith Itali a'r cyfryw : fal y gallo'r bobl ganu y gyd ar unwaith yn yr Eglwys: yr hyn beth fydde ddifyrrwch a diddanwch nefawl iddynt yn y Llan a char-tref. Am Englyn, neu Owdl, neu Gowydd, ewyr pawb nad cynefin ond i un dyn ar unwaith ganu'r un o'r rheini. Heblaw hynny, ni wasnaetha tŷn yr un o honynt i gerdd ysprydol uchelfraint; a phe gwasnaethe, etto, cabledd mawr yw cymmysc cerdd yr Yspryd glan yn yr un don ganiad a cherdd faswedd ofer. Rhaid i'r neb a gychwnno hyn o orchwyl cyssegr, ddealld amryw ieithoedd dyscedic, fegis na raddo ef un gair yn y Ganghanedd ond a fo cwbl cyd-synniol a meddwl yr Yspryd glan. Pette gennyf y seibiant a'r hamdden sydd gan lawer, cyntaf peth, a chwannocca poen a gymerwn i arnaf, fydde, tueddu at hyn o waith, ar ôl cyd-siarad a dyscedigion Cymry ynghylch pa ddull a math ar ganghanedd, a debygid oref a chymessuraf i hyn o Dduw-ioldeb."

I'R GWIR URDDASOL

A'M CAR ANWYL

Wiliam Meredydd.

Annerch Mi a welaf may peth arferedig
M. Kyffin yn yr hen oesoedd gynt ymhlith
i'w Nodd- y Groegwyr a'r Lladinwyr penna'i
ydd. dysc a'u cymeriad, ydoedd gwneuthyr
anrhegion o'u gorchwilion dyscedig i'r
sawl oedd nessaf iddynt a hoffaf gentynt : fal
y gallent, drwy'r cyfryw fodd, adel hyspys-
rwydd i'r oesoedd a ddele ar eu hol nhwy, am
rinwedd a rhyglyddiad y gwyr hynny rhagor
eraill. Nid anghymmwys i minne ddilyn yr
un llwybr wrth ossod allan cyfieythiad hyn o
addysc, yr hwn yr wyf yn ei orchymyn i'ch
noddod. Oblegig, fegis nad oes neb byw fwy
ei serch a'i ewyllis ar wneuthyr mowr-les i'ch
gwlad na chwi'n unig; felly nid oes neb dayarol
a haedde gael hyn gennyf, o'ch blaen chwi'ch
hunan. Ag er mwyn nad amheuthyn gennyh
ddim a aller ei fyfyrio a'i anrhegu i chwi yn
Saesonaeg, neu'n Lladin : (yn yr hyn ieithoedd
y buoch er ioed gynefin a phob rhyw ddisc ag
athrawiaeth) hefyd gan i ni'n dau ddwyn eyn
byd allan o Gymry a bod mor anghynefin i mi

scrifenny ag yw i chwithe ddarllen dim yn yr iaith Gymraeg; hynny a wnaeth i mi, ydwyf wir gymro a gwir gâr o'r eyddoch, ddewis eych annerch a'ch anrhegu yn Gymraeg chwaethach nog mewn un iaith arall. Pa gymro bynnag a gaffo wellaad dysc neu gynyddiad gwybod-aeth oddi wrth y llyfr hwn, diolched i Dduw yn gyntaf, ag i chwithe yn ail. Ef a ddengys hwn y llwybr i'r anghyfarwydd. A chyda hyn, pettid yn pregethu Efengyl Crist yng-Hymry fal y gwelsoch chwi a minne mewn gwledydd eraill, diau nad oes Genedlaeth yng-Hred a alle ragori ar y Cymry mewn Crefydd a Duwioldeb; gan eu bod nhwy o athrylith a naturiaeth yn chwannog i ddyscu pob Rhinwedd a Dayoni, ond cael ei dangos a'i ddeongl iddynt. Ag yna, ni bydde gymmaint câs, cenfigen, brâd a bwriad drwg, yn eu mysc nhwy; lle nid oes yr owr'on, soweth, ddim cyffredinach (medd pawb) nog ymdrechu, ymgyfreithio, ag ymgrafangu, drwy gam, trowssedd, a dygassedd, i ddwyn o ddjar bawb ei eiddo. Etto o'r diwedd, pe cae gwir Grefydd a Gwasanaeth Dduw ddechre'i goledd a'i ossod allan yn hylwybr; a gweled unwaith o'r cyffredin-bobl fod wynebeu a llown-fryd pendefigion Cymry y ffordd honno, e fyddai bob Cymro barod i studio ag i wrando gair Duw yn ddyfal; a

gobeithio, cyn nemmawr o ennyd, y ceid
gweled ym-mysc gwyr eyn gwlad ni lawer
pwnc o ddysc a dawn a diwdrwydd ar ni wel-
wyd hyd yn hyn. Yr hwn beth caniatiaed y
Goruchaf Dduw iddynt, ag i chwithe lwydd-
iant a llawenydd wrth fodd

eych Câr ffyddlonaf

M. KYFFIN.

RHAN O GYFIEITHIAD M. KYFFIN.

Dim terfysc “Elont, ydolwg, i'r manneu
yng ngwlad hynny lle yr ydis drwy ddayoni
Efengyl. Duw yn pregethu'r Efengyl:
ym-mha le mae mwy braint a llai trowsedd y
Twysogion? ym-mha fan rydis yn rhoi mwy o
anrhydedd i'r Pennaeth? Pa le mae'r bobl yn
llai eu hafrol? Ac ym-mha fan y mae llywodr-
aeth y cyffredin ar Eglwys yn howddgarach?

Nid hwyrach y doedwch chwi wneuthyr o
bobl y wlad gynnhwrf a therfysg ymhob man
yng-Germania, wrth ddechreuad athrawiaeth
yr Efengyl. Gedwch i henny fod; etto Martin
Luther, cyhoeddwr yr athrawiaeth hon, a scri-
fennodd yn owch-lym iawn ag yn hagraidd

dros-ben yn eu herbyn hwynt, ag au dygodd nhwy drach-gefn i heddwch ag ufudd-dod.

Ond lle y mae dynion anghyfarwydd yn doedyd weithie'ngwrthwyneb i hyn, dan sôn am newidiad llywodraeth y Swisseriaid, lladdiad Leopoldus y Duc o Awstria a dad-roddi rhydd-did i'r wlad ; e wnaethpwyd hynny fal y testiolaetha'r holl ystoriaeu ychwaneg i ddeucant a thrigain mylynedd i heddyw dan y Pab Bonifacius yr wythfed pan oedd fwyaf rhwysc a phennaf llywodraeth Pab Rhufain, ynghylch deucan mylynedd cyn yr un o'r ddau na dechreu o Huldericus Zuinglius bregethu'r Efengyl na'i eni ef ychwaith. Ag er y pryd hynny etto, e fu bob peth gentynt hwy yn heddych-lawm ac yn dangnefeddol heb na thwrwf gelynyion dieithr na therfysc yn eu plith eu hunain. Ag os ydoedd hyn bechod yn y Swisseriaid ryddhau onynt eu gwlad eu hun oddi dan lywodraeth estron genedl, ag yn enwedig pan oeddynt yn cael eu gorthrechu drwy ddirfawr falchder a throwsder ; etto anghyfiawn ag anrhesymmol yw bwrw beieu rhai eraill arnom-ni, neu fwrw arnynt hwytheu feieu eu henafieid.

Gofynion i'r Eithr o Dduw tragwyddol ! wrth
Pab. hynny ynte, a gyhudda Pab
 Rhufain nyni o drauturiaeth? A

ddyse ef i'r bobl ymufuddhau a rhyngy bodd iw Pennaethieid? neu yw ef yn gwneuthyr bri yn y byd am fraint a mowredd Twysogion? Paham y mae ynte (y peth ni wnai yr un o hen Escobion Rhufain gynt) yn gadael iw wenieithyddion ei alw ef yn Arglwydd yr Arglwyddi, fegis mynny ono-fo i'r holl frenhinoedd a'r Twysogion pwy bynnag ydynt, a ph'le bynnag y maent, fod yn weision chwibanogl iddo ef? Pa ham y mae ynte yn gwneuthur ffrost may Brenhin y Brenhinoedd ydyw ef, a fod iddo frenhinol lywodraeth ar ei ddeiliaid? Pa ham y mae ef yn peri i'r holl Ymerodreu a'r Twysogion roi llwf ffyddlondeb ag ufudd-dod iddo ef? Pa ham y mae ef yn ffrostio fod yn uwch ei radd ef no gradd yr Ymerodr agos y deucan cymaint: a hynny'n enwedig oblegid i Dduw wneuthyr dau oleuad yn y Nef, ag er mwyn iddo wneuthyr y Nef a'r ddayar nid mewn dau ddechreuad ond mewn un? Pa ham y darfu iddo ef a'i ganlynwyr, yn ol dull Anabaptistiaid a'r Libertiniaid, fwrw'r Iau heibio ag ymryddhau oddi dan pob awdurdod yn y byd, fel y gallent hwy foelstotta'n benrhyddach, ag yn ddiogelach? Pa ham y mae gantho ef Gennadwyr, sef yw hynny Spiwyr ffel iawn, yn dirgel-ddisgwyl o fewn llysoedd, cynghorau, a chyfrinach stafell-

eu pob brenin? Pa ham y mae ef, pan fynno fo, yn rhoi'r Twysogion Cristnogaid yn erbyn eu gilydd, ag wrth ei chwanteu ei hun, yn aflonyddu'r holl fyd drwy gynnhwrf a chynhenneu? Pa ham y mae ef yn escumuno ag yn cymeryd fal Ethnic a Phagan pob Twysog o Gristion a ymwrthodd a'i lywodraeth ef? A pha ham y mae ef yn addo enaid rhydd a phardyneu cyn haeled a chyn helaethed i bwy bynnag ar a laddo un o'i elynion ef, mewn ffordd yn y'byd? ydyw ef yn cynnal Ymerodraetheu a Brenhiniaetheu, neu yw ef unwaith yn chwennychy heddwch cyffredin? Ti a ddylid, ddarlleydd duwiol, fadde i ni, er dy fod yn tybied adrodd o honom-mi y petheu hyn yn chwerwach ag a geirieu duach nog a wedde i wyr Eglwysig eu harfer; oblegid mae'r destyn mor wradwyddus, ag awydd y Pab i ddwyn rhwysc yn y byd mor anrhaith-ddióddef ag na ellir traethu hyn yn llarieiddiach nag a geirieu amgenach."

Ar ol gofyn rhes o gwestiynau duon, aiff y cyfieithydd ymlaen i osod tipyn o hanes y Pab,—ffeithiau nas gallai eu gwadu:—

"Blin ydym yn adrodd y fath betheu ar rhain, a phoenus iawn fydde goffau holl gampau gwchion Pabau Rhufain. O ba blaid, ydolwg, oedd y sawl a wenwynodd yr Ymerodr

Henri'r 7-fed wrth Gymuno? ag a wenwynodd y Pab Victor yn derbyn y caregl? ag a wenwynodd Ioan brenin y deyrnas ymma wrth yfed diod? Pwy bynnag, ag o ba blaid bynnag yr oeddynt, diau nad oeddynt hwy na Lutheraniaid na Zuingliaid. Pwy heddyw sy'n cynnwys Brenhinoedd a Thwysogion galluawg i gussanu ei draed bendigaid ef? Pwy sy'n peri i'r Ymerodr sefyll wrth ben ei farch; ag yn gorchymyn i Frenin Ffrainc ddal y warthol iddo? Pwy a rwymodd mewn cadwyni Francis Dandalus, yr hwn ydoedd Dduc o Venis, brenin Creta a brenin Cypres, ag a'i taflodd ef dan ei fwrdd i gnoi escyrn ymhlith cŵn? Pwy, nid a'i law, ond a'i droed, a goronodd yr Ymerodr Henri'r 7fed, ag a'r un troed a fwriodd y goron oddiar ben yr Ymerodr gan ddoedyd allu o honofo wneuthyr ymerodreu, a'u dad-wneuthyr hwynt fal y mynne efe? Pwy a barodd i Henri'r mab godi mewn arfeu yn nerbyn yr Ymerodr Henri y pedwerydd ei dad ef, ag a wnaeth i'r mab ddal ei dad ei hun yn garcharor; a phwy wedi cneifio a dirmygu'r Ymerodr a wnaeth ei fwrw ef mewn Mynachlog, lle, drwy newyn a nychdod a thrymder, y bu ef farw? Pwy mor frwnt aruthrawl a rodd dan ei draed wddf yr Ymerodr Frederic, a rhag na bae hynny ddigon trahaus, ef a draethodd yn y chwaneg y geirieu

hyn o'r Psalmeu, "Ar yr Asp a'r Basilisc y cerddi, a thi a sethri dan dy draed y Llew a'r Ddraic:" y fath ddirmyg a diystyrwch ar fraint a mowredd Twysog na chlywyd son am dano mewn oes yn y byd, na chynt na chwedi; oddi-eithr y peth a wnaeth Tamberlan brenin Scithia, yr hwn ydoedd wr ffromwyllt di-ddysc di-ddawn, neu'r hyn wnaeth Sapores, Brenin Persia?

Pabau ydoedd y rhain cymain un, a phob un yn cadw eisteddle Pedr Abostol, a phawb o'honynt oeddynt Sancteiddiolaf, a hefyd rhaid cymeryd amryw eirieu pob un o'honynt fegis amriw Efengylon."

Dyma etto ddarn sy'n ymosod ar allu ag awdurdod y Pab:—

"Ond mae arna fi chwant ymliw ychydig a'r Pab ei hun, a doedyd hyn wrth ei wyneb ef. Doedwch chwithe ini (sancteiddiol Bab) gan eych bod chwi'n ffrostio cymaint o henafiaeth ag yn bostio fod pawb yn rhwymedig yn unig i chwi, pwy er ioed o'r holl hen Dadeu a'ch galwodd chwi'n Brelat uchaf, neu'n Escob pennaf trwy'r holl fyd, neu'n ben ar yr Eglwys? Pwy onynt er ioed a ddoedodd ddarfod rhoddi'r ddau gleddyf i chwi? Pwy o'honynt er ioed a fynegodd may iawn i chwi, a bod awdurdod

gennyh, i ddyfyn Cymanfa-Gynghorau? Pwy onynt er ioed a sonniodd nad yw'r holl fyd onid eych Dioeces chwi? Pwy onynt a grybwyllodd ddarfod i'r holl Escobion dderbyn och cyflownder chwi? Pwy onynt a yngenodd ddarfod rhoddi i chwi holl alluowgrwydd yn y nef yn gystal ag ar y ddayar? Pwy onynt a draethodd na alle na Brenhinoedd na'r holl wyr Eglwysig na'r holl fyd ychwaith mo'r barnu arnoch'i? Pwy onynt a ddoedodd fod Brenhinoedd ac Ymerodreu, drwy ewyllys a gorchymyn Crist, yn cymryd eu hawdurdod gennyh? Pwy onynt, drwy mor ystrowgar gyfrwyddid mathematicaidd, a ddangosodd eych bod chwi ddeng-waith a thrugain saith-waith mhwy no'r Brenhinoedd mwyaf? Pwy onynt a fynegodd ddarfod rhoi i chwi mwy o allu ag awdurdod nag i'r Patrieirch eraill? Pwy o honynt a sonniodd may chwychwi yw'r Arglwydd Dduw? neu, nad oeddech yn unig o rywiogaeth dyn, eithr rhyw sylwedd wedi ei wneuthyr ai dyfu ynghyd, o Dduw ag o ddynd? Pwy o honynt a grybwyllodd may chwychwi yw prif ffynnon holl Gyfraith? Pwy o honynt a yngenodd fod ichwi alluowgrwydd ag awdurdod ar y Purdan? Pwy o honynt a draethodd y gellwch'i orchymyn Angylion Duw fal y mynnoch eych hunan? Pwy onynt er ioed a

ddoedodd may chwychwi yw Brenin y Brenhinoedd ag Arglwydd yr Arglwyddi?

Ar ddiwedd y llyfr, ceir rhybudd dwys a bygwth llym:—

“Eu holl nad a’u trin ydyw am gadw drwy gywilydd a gwarth a enillasant hwy drwy wradwydd. Achwyn arnom-mi’r pryd hyn y mae Parynnwyr y Pab, a’i Roddwyr, Ardrethwyr, llattaion, ag eraill yr rhai sy’n tybied may elw bydol yw duwioldeb, heb wasnaethu Crist eithr eu boliau eu hun. Gynt gyntoedd y bu elw annianol i’r fath ddyinion a’r rhain, a thybied y maent eu bod nhwy’n colli beth bynnag y mae Crist yn ei ennill. Am hynny mae’r Pab yn cwyno ddarfod i gariad perffaith oeri a fferu, er mwyn nad ydis yn talu ardreth iddo ef cyn helaethed ag oeddid arfer. O ran hyn y mae ef yn peri’n cassau ni fwya ddim byth a’r allo, gan regu arnom a’n bwrw yn euog o Heresi, fegis y tybio y sawl nid ydynt gydnabyddus a’n hachos nad byw mo’n gwaeth ni. Etto er hyn y gyd, yn y cyfamser, nid oes mor cywylidd arnom ac ni ddylem mor cywilyddio o achos yr Efengyl. Herwydd mwy gennym am ogoniant Duw nog am fri dynion. Nyni a wyddom mai gwir yw’r holl betheu rydym-mi’n dyscu, ag ni allwn-ni na mynd yn-nerbyn eyn cydwytodau eyn hunain, na dwyn testiolaeth yn-

nerbyn Duw. Canys o gwadwn-ni ddarn yn y byd o Efengyl Iesu Grist geyr-bron dynion, ynte a'n gwada ninne geyr bron ei Dad. Ag od oes rai a fynnant fyth gymryd achos anfodlondeb, ag na allant ddioddef athrawiaeth Crist, deillion (meddwn-ni) a thwyswyr deillion yw'r rhai hynny; etto, nid anllai, rhaid i ni bregethu a gossod allan y Gwirionedd o flaen pob peth, a hefyd ddisgwyl trwy ddioddefgarwch am farn Duw. Yn y cyfamser, edryched y gwyr hyn beth a wnelont, a meddyliont am eu hiechyd-wriaeth, peidiont a chassau ag erlid Efengyl mab Duw, rhag ofn iddynt ryw amser gael diwygwr a dialwr onaw ef yn ei achos ei hun. Ni ddiodefa Duw mo'i watwar. Y mae dynion yn canfod er ys-dyddieu bellach, beth yr ydis arno. Am y fflam ymma, pa fwyaf y cedwer hi lawr, fwy fwy y cyfyd ag y cynnydda hi. Ni wna eu hanffyddlondeb nhwy mo ffyddlon addewid Duw yn ofer. Ond os nhwy ni fynnant roi heibio hyn o galedrwydd calon a derbyn Efengyl Crist, diau ynte yr aiff Publicaniaid a phechaduriaid o'u blaen nhwy i wlad teyrnas nef.

Duw, Tad eyn Harglwydd Iesu Grist, a egoro eu llygeid nhwy i gyd, i allu gweled y gobaith sanctaidd i'r hwn y darfu eu galw, fal y gallom-mi y gyd yn un, ogoneddu'r un

hwnnw sydd wir Dduw a'r un Iesu Grist, yr hwn a ddanfonodd ef i lawr attom o'r Nef: i'r hwn, ynghyd a'r Tad a'r Ysryd Glan y rhodder holl anrhydedd a gogoniant yn ollawl dragowydd. Amen." TERFYN.

Ar ddiwedd y cyfieithiad y mae ol-nodyn :—

“Yr araaithy fyddei yn fynech yn-geneu Sanct Asaph Episcop llan Elwy, DXC,—
Y sawl a wrthladdant air Duw, cenfigenu y maent wrth iechedd eneit dyn.”


EDWARD KYFFIN. 1603

YCHYDIG iawn sydd ar gael o hanes Edward Kyffin. Ond y mae un peth sicr am dano, sef iddo gyhoeddi rhannau o'r Salmu ar gân yn 1603, a phleser yw darllen ei ragymadrodd llithrig i'r llyfr. Teitl y llyfr yn llawn ydyw,

“Rhann o Psalmae Dafydd Brophwyd i'w canu ar ôl y dôn arferedig yn Eglwys Loegr. Simon Stafford a'i Printiodd yn Llundain dros T.S. 1603.”

Yr oedd Edward Kyffin felly ym mlodau ei ddyddiau adeg cyfieithiad y Beibl i'r Gymraeg, yng ngwanwyn deffroad Cymru am addysg ysgrythyrol. Ei ran ef yn y deffroad yma oedd cyfieithu rhai o'r Salmu,—mewn Cymraeg glân, cadarn, ac mae'n fwy na thebyg mai ei ddymuniad cryf yn ei ragymadrodd am i ŵr mwy cymhwys nag ef gymeryd y gwaith i fyny a ysgogodd feddwl yr Archddeon Edmwnd Prys i droi Salmu Dafydd ar gân.

Credir fod Edward a Morus Kyffin yn ddau frawd; yr oeddynt yn byw yn yr un adeg, mae dull eu hiaith yn debyg iawn i'w gilydd, a roedd y ddau wedi meddwl am wneyd yr un gwaith o gynghaneddu llyfr y Salmu (gweler Morus Kyffin, tud. 67).



RHAGY MADRODD EDWARD KYFFIN I'W
PSALMAU CAN.

“ At fy ngharedigion wlad-wyr y sawl a
garant Ogoniant yr Arglwydd, ag ymgeledd eu
gwlad-iaith.

Wrth weled mor ofalus ydyw ieithyddion
eraill am eu gwlad-iaith, a chynnydd yr efengyl
drwy oll grêd, a bod y Saeson mor gymwynas-
car i'w gelynion y Spaeniaid ag iddynt brintio
bagad o lyfre yn yr Yspañ-iaith a'u danfon
ymysc y gelynion ar feddwl eu hynill at Dduw;
a'r rhai a aeth a'r llyfre rheini at y gelynion, a
fentriasant nid yn unig eu dâ a'u trafael ond eu
hoedl hefyd ar fedr gwneuthur lles i Estron-
genedl.

Pa faint mwy y dylem ni ymgeleddu
ein hiaith ein hunain, yr honn a ddeffynodd
y Goruchaf Dduw yn yr unlle yn y deyrnas
honn ers seithgant ar hugain o flynyddoedd,
ag ychwaneg ymysc cynnifer o amrafaelion
cenhedloedd, terfyscoedd a dinystroedd a fu
i'n mysg er yr amser hwnnw i geisio difa a
dinystrio yr iaith a'i phobl yn llwyr. Yr hynn
beth ni all un nasiwn nag iaith ar sydd dan
Grêd a Bedydd heddyw ddoedydd y cyffelyb.

Am yr hynn yr ydym ni yn fwy rhwymedig i'r Arglwydd nag oll Bobloedd y byd : ag nyni yn olaf ag yn ddiweddaraf am osod allan Ogoniant Duw yn ein hiaith ein hunain.

Ag wrth weled a chlywed mor brydferth ag mor hyfryd rydys yn moliannu Duw yn yr holl Eglwysi lle mae'r Efengyl yn cael rhyddid, ond Ynghymru yn unig, wrth ganu Psalmae Dafydd, hynny a wnaeth i mi (Er Gogoniant i'r Arglwydd a Chariad i'm Gwlad), ddangos fy ewyllys dâ yn cychwyn hynn o waith ar ddechre cynganeddu hynn o Psalmae yn nesa ag ellais at feddwl yr Yspryd Glân, fel y cefais hwynt yn scrifenedig yn y Scrythurau.

Mi a rois y Psalmae prês ar gyfer y cynganedd, ag a adewais lê rhwng pôb vers ai gilydd o'r cynganedd, fel y gallo rhai celfyddach gymhennu a pherffeithio hynn a wnaethym i o fras-naddiad, er prâw yn unig, ag er annog eraill (a fedrant yn well) ei hail-ddiwygu hwynt. Gan ddymuno arnoch bawb yn ol ei allu hyfforddi fy wyllys dâ i a'ch cyngor a'ch cymorth, i amlygu i'r byd eych serch a'ch cariad i Dduw a'ch Gwlad. Yr hynn bêth os gwnewch, chwi a ogoneddwch yr Arglwydd, chwi a fawrhewch eych gwlad, ag a'm cyssurwch innau, nid yn unig i fynd trwodd a holl gorff y Psalmae yn yr un rhyw gynganeddiad (yr

hwnn fesur gynghanedd sydd gymhwysaf ei ganu gann yr holl Gynlleidfa ar un-waith) ond hefyd i lëshâu fyngwlâd ymhellach ar ôl hynn mewn pethau duwiol eraill o'r Scrythur lân drwy obeithio gann gadw o Dduw nyni a'n hiaith mor gryno ag mor ddilwgr dros gyd o amser, fôd gann yr Arglwydd Dduw ryw orcheswaith a goruchafiaeth tu ag at amlhâd ei ogoniant ei hûn ym-mysc yr hên Frutaniaid a gadwodd ef mor wyrth-fawr mewn rhyddid a diogelwch hyd yn hynn.

A chann eyn bod yn byw yn yr oes honn dann ardderchockaf Vrenhines o'n gwlad eyn hunain, yr honn sydd yn canhiadu i ni gael y Scrythur lan yn eyn hiaith eyn huain, ag oll gyfreidiau eraill ar a ddamunem er cael tu ag at amlhau Gogoniant Duw, a mawrhâd eyn hiaith : (yr hynn bêth ni a attolygwn i Dduw ei hîr-gynnal i ni rhag-llaw). O fy anwyl wladwyr, tra fo Duw yn canhiattau i ni y rhwydddeb, yr heddwch, a'r rhyddid y rydym yr rowron yn ei gael, na chollwn yr amser presennol, ond yn hytrach gwardwn yr hîr-amser a gollasom yn barod, a dangoswn i'r byd eyn bod yn prisio mwy am ogoniant Duw, am orchafiaeth a derchafiad eyn gwlad a'n hiaith ag am ddi-dranck lywenydd ag iechydwrïaeth eyn Eneidiau eyn hunain nag yr ydym am

ddarfodedig fwnws y byd hwnn, yr hynn nid oes i ni ond byrr amser iw fwynhau.

Ag ar hynn mi a ddymunwn ar bob gwir Gymro na rodde hun iw lygaid, na heppian iw amrantau (fel y doedodd y prophwyd Dafydd) nês gweled Gogoniant yr Arglwydd, drwy hyfforddi gorffenniad y Gorchwyl duwiol yma yn ei wlad-iaith ei hunan.

Yr oll-alluawg Dduw yr hwn yn unig a roes y meddwl ynof i gychwyn hynn a waith a gynhyrfo ynoch chwithau wyllys i gymhorth yr unrhyw, tu ag att helaethiad Gogoniant Duw, mawrhâd eyn priod-iaith a chyssur eyn Eneidiau erbyn y dydd a ddaw.

Yr eiddoch iw orchymyn yn-Christ Iesu.

EDWARD KYFFIN."

EDWARD JAMES.

MAE tywyllwch dudew yn aros ar hanes a bywyd Edward James, cyfieithydd medrus “llyfr yr Homiliau.” Brodor o’r De ydoedd, derbyniodd ei addysg ym mhrif athrofa Rhydychen, ond ni wyddir a dderbyniodd urddau Eglwysig. Rhaid ei fod ym mlodau ei ddyddiau ddiwedd teyrnasiad y frenhines Elisabeth, canys cyhoeddwyd yr “Homiliau” yn 1606, a gwelodd yntau felly y Beibl yn Gymraeg a Phrotestaniaeth wedi cael y llaw uchaf ar y Babyddiaeth yn Lloegr, a gallu teyrnas Spaen wedi ei dorri. Fe ddwg amryw lenorion dystiolaeth uchel i werth ei waith. Dywed “Llyfryddiaeth y Cymry” am dano, “Y mae si gyfieithiad o’r ‘Homiliau’ yn gyfieithiad rhagorol dros ben, ac yn teilyngu sylw pe na bai ond er mwyn ei brioddedd wir Gymreig yn unig. Saif Edward James ar orsaf uchel fel gwasanaethwr ei gyd-genedl, yn ymyl Gwilym Salsbri, yr Esgob Morgan a’r Esgob Parri; ac fel ysgrifenwr Cymraeg dileddiaeth, nid yw yn ol i un o honynt.” Pa bryd y bu farw, nis gwyr neb, ac os cafodd gareg fedd, y mae mwsag a glaswellt wedi tyfu drosti.



EDWARD JAMES.

Pregethau a osodwyd allan trwy awdurdod
i'w darllein ymhob Eglwys blwyf a phob
capel er adeiladaeth i'r bobl annysgedig.
Gwedi eu troi i'r iaith Gymraeg drwy waith
Edward James.

Robert Barker, printiwr i odidowgaf fawrhydi
y Brenin, ai printiodd yn Llundain. Anno
Dom. 1606."

Ie'r Rhagymadrodd :

“Y mae'r Apostol Paul yn tystiolaethu yn
eu na all neb alw neu weddio ar Dduw heb
redu ynddo, na all neb gredu heb wrando, na
eb wrando heb fod rhai a bregetho air Duw
dynt. Am hyny, pan ystyriodd y brenhin
uancg duwiol Edward VI. pa mor anaml oedd
wir bregethwyr gair Duw o fewn ei deyrnas ef,
rhai a fedrai addysgu'r bobl i gredu yn Nuw,
alw arno, ac i gadw ei orchymynion sanctaidd
; efe a barodd wrth gyngor ei gyngoriaid i
y'r duwiol dysgedig, cyfarwydd yngair Duw,
ynnull a sgrifenu yr Homiliau duwion yma,

allan o'r Ysgrythyrau sanctaidd ; unig ffynnon pob doethineb ; unig ymborth yr eneidiau ; unig dywysog ac arweinydd, a rhinwedd, a duwioldeb ; unig ddiwreiddydd pob chwyn gwenwynig ; unig wrthladdydd pob anwybod-aeth ; ac unig gyferbyn yn erbyn pob athrawiaeth dwyllodrus, yr hon sydd yn tywys i ofer-goel, traws-opiniynau, a delw addoliad. Yn yr Homiliau hyn y cynhwysir y prif byngciau o'n ffydd ni, ac o'n dyled tu ag at Dduw a'n cymmydogion ; fel y gallai adrodd, datgan, a darllain yr Homiliau hyn, bregethu i'w pobl wir athrawiaeth ; ac fel y gallai pawb o'r bobl wrth wrando, ddysgu'n union ac yn iawn anrhydeddu ac addoli'r Hollalluog Dduw, a'i wasanaethu yn ddiwyd. Yr Homiliau hyn hefyd, am eu bod mor fuddiol, a orchymynodd yr ardderchog Frenines Elizabeth eu hargraffu eilwaith [yn Saesneg, bid sicr] ; a hi a roddodd yr un gorchymyn am eu darllain hwy ag a roisai ei brawd duwiol yn y blaen. Ac megis na ellir dywedyd bod ar y ddaear erioed Dywysog a ddangosodd ymhob peth arall fwy o zel Dduw, ac o ofal dros ei ddeiliaid, na'r Brenhin godidog ardderchog duwiol James ein Grususaf Frenin a'n Llywydd ; felly yn y peth hyn ni ddangosodd efe ddim llai o'r fath zel a gofal nag a ddangosasai y Brenhin Edward VI.,

a'r Frenhines Elizabeth o'i flaen ef. O herwydd yntau trwy gyfraith eglwysig (fel y gellir gweled yn y 46 Canon a wnaeth y Gymmanfa Esgobion ac Eglwyswyr, a gynhaliwyd yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad ef ar Brydain, Ffrainc a'r Iwerddon, yr hon a gadarnhaodd ei fawrhydi ef a'i awdurdod goruchel brenhinol) a rois orchymyn caled ar fod i bob Person, Ficar, a Churat, ddarlain yr Homiliau hyn bob Sul a gwyl (o ddiffyg pregeth) ymhob Eglwys Blwyf a Chapel o fewn ei deyrnas ; fel y gallai y rhai ni chlywant lafar pregethwr ond yn anaml, wrth arfer o glywed darllain y pregethau duwiol dysgedig hyn yn fynych ddysgu mewn amser gredu yn Nuw yn union ac yn ffyddlon, galw arno o ddifrif, ac yn deilwng, gwneuthur y cwbl o'u dyled tu ag at Dduw a'u cymmydogion, ac ymddwyn felly yn y byd hwn yn ol gwybodaeth, fel y caffont fwynhau bywyd tragwyddol yn y byd a ddaw trwy ein Iachawdwr Iesu Grist. Etto er nad oedd rheitiach i un wlad wrth y fath gynhorthwy nag i wlad Cymru, am fod pregethwyr mor anaml ynddi, ni ewyllysiodd Duw i ni gael neb o'r Homiliau hyn na'r fath eraill yn yr iaith Gymraeg hyd yr amser hyn. Ond wele, y Cymro, hwy yn awr yn dy iaith di dyhun, fel y medrech dithau wrth eu gwranddo eu deall hwy, Duw a wnelo wneuthur i ti fawr lles, ac

a'th wnelo dithau yn ddiolchus i Dduw am ei fawr ddaioni. Amen."

Dyma eto ddarn byr o'r argraffiad cyntaf, 1606, i ddangos ei ddull clir a'i feistrolaeth ar gyfieithu :—

“ Megis nad yw gwir ystyr yr athrawiaeth ymma : yr ydys yn ein cyfiawnhau ni yn rhâd, heb weithredoedd, neu fe'n cyfiawnhau'r ni trwy ffydd ynghrist yn unig: nid yw yr ystyr, meddaf, mai'n gorchwyl ni yn credi ynghrist, neu ffydd Grist yr hon sydd ynom ni, sydd yn ein cyfiawnhau ni, ac yn haeddu i ni gyfiawnhad (o herwydd ni byddai hynny onid ein cyfrif ein hunain yn gyfiawn drwy ryw weithred neu rinwedd ynom ein hunain). Ond gwir ystyr a meddwl yr athrawiaeth hon, yw, er ein bod ni'n gwrando gwir air Duw, ac yn ei gredu, er bod ynom ffydd, gobaith, cariad, edifeirwch, ac ofn Duw, ac er ein bod ni'n gwneuthur llawer o weithredoedd da, eto rhaid i ni ymwrthod a holl haeddiant y rhinweddau ymma, ffydd, gobaith, cariad, a phob rhinweddau eraill ar a wnaethom, neu a allwn eu gwneuthur, megis pethau o lawer yn rhy weinion, yn rhy analluog, ac yn rhy anghyflawn i haeddu ini ollyngdod o'n pêchodau, a chyfiawnhâd, ac am hynny rhaid ini ymddiried yn unig ynnhrugaredd Duw, a'r

erth a wnaeth ein Archoffeiriad, a'n Ceidwad
rist Iesu mab Duw a offrymmodd ef unwaith
som ni ar y groes i hebrwng ini trwy
ny rād Duw a gollyngdod, cystadl o'n
shreul bechodau cyn bedydd, ac o'n pech-
au gweithredol y rhai a wnaethom ar ol
lydd, os ni a wir edifarhawn, ac a drown yn
ragrith atto ef."

MORGAN LLWYD.

AMSER blin ac ystormus oedd tymor bywyd Morgan Llwyd. Gwyddom adeg ei farw, y trydydd o Fehefin, 1659, blwyddyn ar ol marw Oliver Cromwel, a blwyddyn cyn dychweliad Siarls yr Ail; ac er mai gwir i Forgan Llwyd farw yn ddy n ieuanc deugain oed, gwyddai yn dda am erchylltra y Rhyfel Mawr rhwng Siarls I. a'r Senedd. Mae sicrwydd bron mai yng Nghynfael, Maentwrog, Sir Feirionydd, y'i ganwyd, a'i fod yn berthynas i Huw Llwyd, cyfaill calon Edmwnd Prys. Ni fu erioed yn yr un brif-athrofa, eto cafodd addysg dda. Feallai mai yng Ngwrecsam y bu yn yr ysgol; beth bynnag, yno y cafodd droedigaeth dan bregeth Walter Cradoc, yn 1634. Ar ol ei ddychweliad at grefydd, ymdaflodd Morgan Llwyd o ddifrif i'r gwaith o efengyleiddio Gogledd Cymru, a pharhaodd i weithio a'i holl egni tan ddiwedd ei oes. Teithiol, yn ddiameu, oedd dull ei weinidogaeth, a rhaid fod iddo gyfarfod a llawer o anhawsterau, gan fod Gwynedd yn hynod yr adeg yma am ei dallbleidiaeth i Babyddiaeth a'r Frenhiniaeth. O dan Weriniaeth Cromwel, ymgartrefai Morgan Llwyd yng Ngwrecsam, ac yn ei deithiau pregethu oddiyno, sefydlodd Eglwysi Ymneillduol cyntaf y rhandir hon.

Ym mlynnyddoedd olaf ei oes, o 1653 i 1659, ymroddodd i ysgrifennu llyfrau—llyfrau a ddangosant ei fod yn wr o allu anghyffredin iawn a'i fod yn feistr ar arddull ysgrifen. Ei waith pwysicaf yw "Llyfr y Tri Aderyn," gyhoeddwyd yn 1653, neu yn ol ei lawn deitl, "Dirgelwch i rai i'w ddeall ac eraill i'w watwar, neu lyfr Tri Aderyn." Dangoswyd gwerth a phwysigrwydd y llyfr yma gan Dr. Edwards mewn ysgrif nodedig yn y *Traethodydd*, 1848, ac yn ei ragymadrodd penigamp i'r un llyfr dywed y diweddar Barch. Owen Jones, B.A., mai dyma yr unig lyfr o waith Morgan Llwyd sy'n hollol wreiddiol, tra mai lledgyfieithiad yw y gweddill. Ac er mwyn esbonio natur ac amcan "Llyfr y Tri Aderyn," dyfynaf y frawddeg hon:—"Nis gallasai ddethol tri

mwy cymwys o holl adar y nefoedd na'r *Eryr*, y *Golomen*, a'r *Gigfran* i osod allan Cromwel a'i ddiueddrwydd teg ; y Diwygyr Puritanaidd ac Anghydfurfiol, eu hegwyddorion a'u hysbryd, ym mha oes bynag ; a'r Eglwys Sefydledig, fel yr oedd Laud a'i greaduriaid wedi ei darostwng yn ei rhagfarn, ei llygredigaeth, a'i hysbryd creulon ac erlidgar." Gallwn fentro rhoddi taer a chynnes wahoddiad i bob un a ddymuno ddarllen Cymraeg pur diledryw ac ymgodymu a meddyliau uchel a godidog i brynu "Llyfr y Tri Aderyn," fel y mae wedi ei argraffu yng *Nghyfres y Ceinion* (Isaac Ffoulkes, Lerpwl). A disgwylir y bydd i hyn o bigion o hono symbylu llawer i ddarllen yr holl waith.

Yn 1899, daeth y gyfrol gyntaf o weithiau Morgan Llwyd allan (Jarvis & Foster, Bangor), wedi eu golygu gan y diweddar T. E. Ellis, dan nawdd Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, a golygir yr ail gyfrol gan J. H. Davies, M.A., Ysgrifenydd Coleg Aberystwyth.

LLYFR Y TRI ADERYN.

*Dirgelwch i rai iw ddeall, ac i eraill iw watwar ;
sef, Tri Aderyn yn ymddiddan—yr ERYR, a'r
GOLOMEN, a'r GIGFRAN—neu Arwydd i An-
nerch y Cymry yn y flwyddyn mil chwechant
a thair ar ddec a deugain, cyn dyfod 666.*

Eryr. O BA le'r wyti (y Gigfran
Ymgynabod ddû) yn ehedeg?
yr Adar. *Cigfran.* O dramwy'r ddayar, ac o

amgylchu'r gweirgloddiau i ynnill fy mywyd.

Eryr. Onid tydi yw'r aderyn a ddanfonodd
Noah allan o'i long na ddaeth yn ol fyth atto
drachefn?

Cigf. Myfi yn wir yw'r aderyn hwnnw, ac
mae arnai dy ofn di brenin yr Adar.

Er. Pam na ddoit ti yn ol at yr hwn a'th
ddanfonodd?

Cigf. Am fod yn well gennif fwyta cyrph
y meirwon na bod dan law Noah ai feibion.

Er. Di wyddost (ô Gigfran) i'r golomen
ddychwelyd yn ol, ai deilen wyrdd yn ei phîg.

Cigf. Beth er hynny? nid yw hi ond aderyn
gwan ymysg Ehediaid y ffurfafen; Rwi fy hun
yn gryfach, ac yn gyfrwysach o lawer.

Er. Ond yr wyti yn bwyta cîg y meirwon
ac yn ymborth ar y budreddi annaturiol.

Cigf. Felly yr wyt tithau (O Eryr) weithiau, er dy fôd yn falch ac megis yn frenin.

Er. Gwîr yw hynny : Ond galwn am golomen i wrando beth a ddywed hi am dani hun, ac am danom ninnau.

Cigf. Ni ddaw hi i'n cwmnhi ni rhag ofn, ac ni feiddia ddywedyd ei meddwl lle bwyfi.

Er. Nage. Rhaid wrth gyngor y golome Gwrandawn ar bawb, a dewiswn y gorau. Pa yr wyti (o golomen?) yn lloches y grisiau? Gad i ni glywed dy lais dithau.

Col. Os cair cennad (ac onide) mae Ewyll i ddangos dirgelwch y dwfr diluw, a'r hen a'r newydd ; da gennif ddwyn y ddeilen lās a newydd da i'r rhai a achubir. Ac mi ddylwn gael cennad i ddywedyd y gwîr yn llonydd am danaf fy hunan, ac am bob aderyn arall.

Er. Dôs rhagot. Ni rwystra nèb di : Di gei gennad i fynd ymlaen.

Col. Mae gennifi etto lawer ynghylch yscrythurau ac eneidiau dynion, ynghylch teyrnasoedd a rhyfeloedd, Arch y dystiolaeth a chodiad y seren ddydd, Haul y cyfiawnder, a dydd y farn, Diwedd y bÿd hwn, a dechrau'r bÿd arall, naturiaeth Duw a natur dyn, nef ac uffern, a llawer o fatterion eraill, Ond mae'r gigfran yn anhywaith, ni chair sôn am ddim daioni o'i bodd hi.

Er. Ond mae Noah wedi peri i mi 'r Eryr
lonyddu'r Gigfran a chadw heddwch ymysg
Adar: Ac fel yr ydym ni 'r Eryrod yn gryfach
na'r cigfrain, felly mae'r da yn gryfach na'r
drwg.

Col. Beth a fyn yr Eryr i wybod? ac am
ba'r newydd y mae yn ei feddwl ymofyn?

Er. Mi fyynnwn wybod genniti pa beth yw
dirgelwch Arch Noah, A chan fôd y dychryn,
a'r diluw, a'r rhyfel, a'r rhwystrau, a'r gwae, a'r
gwagedd, a'r camwedd wedi parhau cyd ar y
ddayar; Pa bryd y ceir diwedd?

Col. Cyfrinach yw Arch Noah iw ddangos
i rai, canys nid yw'r adar drwg, nag yn deilwng
nag yn ewyllysgar iw glywed: Ond am y ddeilien
wyrdd, a'r newydd da, fe baid y dwfr diluw pan
bregether yr efengyl dragwyddol drwy'r holl
ddayar.

Er. Onid yw'r pregethwyr yn i phregethu
hi ymhôb plwyf yn barod ar i rhedeg, ac yn
parablu, ac yn darllain yr efengyl i ni yn ein
sefyll?

Col. Nag ydynt gan mwyaf: Nid adwaen-
ant Dduw, Mwy nag y mae'r twrch dayar yn
adnabod yr haul, neu blant Eli yr hwn ai
Gwnaeth.

Er. Ond mae nhwy yn dywedyd mai pre-
gethu'r efengil y maent i gyd.

Col. Ie, os yr un llais sydd gan y gigfran, a'r golomen, neu os yr un fâth yw cyfarthiad cŵn a lleferydd angelion. Ac nid un o ddefaid yr Oen nefol yw'r hwn ni wŷr nad blaidd yw bugail, ac nad bugail yw'r blaidd.

Cweryl. *Cigf.* Na feia ormod arnafi, Pa warrant oedd gennit ti, os gwiw gofyn, i dorri pen y Brenin, ac i symmud Parliament-au wrth dy bleser dy hun, fel na wŷr fawr yr awron i bwy yr ymostwng i dalu teyrnged. Ac mi welaf fôd teyrnas heb reolwyr (fel corph heb ben) a phawb yn gwneuthur a fynno ef ei hunan.

Er. Geirwon yw geiriau'r Gigfran. Ond gwrando er hynny ar reswm. Mae yspryd rheolaeth fyth yn parhau, a'r sawl na phlycco iddo, a ddryllir. Mae Noah yn rhoi rheolaeth i'r sawl a fynno. Yn gostwng y naill, ac yn codi'r llall o'r dommen i reoli. Nid oedd *Gideon*, a *Saul*, a *Dafydd* ond gŵyr gwael ar y cyntaf yn y bŷd. Ac o'r tu arall, mae efe yn chwythu ymmaith bennaethiaid y bŷd fel llŵch y llawr dyrnu i'r dommen. Canys nid yw efe yn derbyn wynebau dynion. Nid yw'r holl ddayar ond stôl draed iddo. Mae efe yn rychwantu y ffurfafen, ac yn dal y môr mawr ar gledr ei law, ac yn pwysu y mynyddoedd mewn clorian-

nau ; ac os bydd un gŵr mawr yn rhy yscafn, mae efe yn i roddi heibio; ond mae efe yn edrych ar yr isel, ac yn cynnal y galon dorredig.

Cigf. Mi welaf y teyrnasoesedd yn berwi fel ped faent grochanau ar y tân. Ond beth a ddaw dybygi di O Eryr ar ôl hyn?

Er. Ni wn i fy hun, mi gaf wybod gan y golomen. Ond rwi'n tybied y ceir etto fŷd gwell nag a gaed erioed, canys yn y nef a'r ddayar newydd fe erys cyfiawnder.

Cigf. Ond oni weli dy hunan fôd y bŷd yn myned waethwaeth, a chariad perffaith yn treio?

Er. Na sonnia di am gariad perffaith (O Gigfran amherffaith). Beia arnat dy hun yn gyntaf, ac yna mae gobaith o honot. Oni weli di fôd yr haul yn cledu'r clai? a pha dwymna y tywynno ar y dommen brynta fydd: Mae'r da yn mynd well well ymhôb oes erioed, a'r drwg yn mynnu mynd waethwaeth.

Cigf. Mae Noah wedi fyingwrthod
Athron- i, ac nid gwaeth i mi beth a wnelwyf
iaith y os gwrthodedig ydwyf.
Golomen.

Er. Nid efe a'th wrthododd di. Ond dydi ai gwrthodaist ef, ac a aethost ymmaith. Cariad ac ewyllys da yw efe, ac nid oes dywyllwch ynddo. Hawdd ganddo faddeu

i'r gwaethaf; Anhawdd ganddo ddigio, a gwy~~ch~~
ganddo hîr-ymaros.

Cigf. Ond mae llawer yn dywedyd i f~~ôd~~
ef wedi gwrthod llawer, a dewis rhai cyn i
geni.

Er. Mae hyn tû hwnt i'm dysg i: fe a~~le~~
y gŵyr y golomen y dirgelwch hwn. Beth a
ddywedi di?

Col. Anhawdd dywedyd, ac anhawdd de~~all~~
pa fodd y mae'r dyfnder hwn yn Noah. Or~~ad~~
mi ddarlennaf i chwi yr A. B. C. cyntaf fel hy n.
Mae ynhragwyddoldeb dri yn un, sef ewylly~~s~~,
cariad, a nerth, a'r naill yn ymgyrhaedd~~yd~~
erioed a'r llall, ac yn ymborthi, ac yn ymge~~n~~-
hedlu yn i gilydd byth. Oni bai fôd ple~~ser~~
cariad tragwyddol i borthi'r ewyllys anfeid~~ol~~
ni byddai nêb yn gadwedig. Ac oni bai f~~ôd~~
cynhyrriad yr ewyllys cyntaf yn dân. Iloscadw~~y~~,
ni byddai nêb yn golledig. Ac oni bai fôd y
tri fel hyn yn cydweithio, ni buasai na dŷ n,
nag angel, nag anifail, na dim arall wedi i
wneuthur. Mae rhai wedi ymescor erioed ~~yn~~
y cariad drwy yscogiad yr ewyllys, yr h~~wn~~
sydd yn i gwascaru fel gwreichion allan o ho~~ro~~
ei hun, ac yn i tymheru yn nŵfr y difyrw~~ch~~
(yr hwn yw'r Arch), nid yw gwreiddyn y ~~cri~~
ond cariad ynddo ei hun, heb gashau nê~~b~~.
Ond yn yr ewyllys gweithgar hwnnw ma~~r~~

Yscogiad yn tewŷchu y peth sydd ynddo, ac yn gadel heibio (fel pren ei ddail, neu ddyn ei boeryn) y peth nad yw un ag ysbryd y galon. Wele, nid yw'r cigfrain yn adnabod tarawiad y tant ymma yn y delyn nefol. Ond deall di (O Eryr) ac fe a ddeall y colomennod hyn fwyfwy. Canys fel dymma wreiddyn y matter, a ffynnon pôb peth. Dymma fôn derwen yr holl fŷd gweledig hwn: Dymma y cynhyrfiad tragwyddol sydd yn achosi pôb symmudiad ymysg yr holl greaduriaid. Ond nid yw'r adar ar ganghennau'r pren yn meddwl pa fodd y mae'r gwreiddyn yn cynnal ei naturiaeth, a nhwythau ynddi. Yr ewyllys cyntaf yw gwreiddyn pob un (fel y mae'r wreichionen yn dyfod o'r garreg) ac mae efe ei hun yn ymgyrchu yn wastad i fonwes y mâb, ac yn ymlonyddu yno yn y cariad; Ond mae llawer o'r gwreichion heb fynnu ymoeri felly, Ond yn ehedeg gyda Luciffer yn erbyn y goleuni a'r tawelwch tragwyddol, ac yn aros yn yr yscogiad tanllyd, heb gael esmwythdra byth, eisiau dyfod iw geisio allan o'i naturiaeth ei hunain. Mae gallu yn yr ewyllys i ysgog, ond nid oes mor ewyllys gyda gallu i ddychwelyd (fel y dywad y gigfran o'r blaen ran o'r gwîr). Am hynny, mae llawer yn i gwrthod ei hunain, ac yn achwyn ar Noah. Ac er bôd ei fonwes ef yn i

chwennyach, mae ei monwes danllyd hwynt yn i dal yn ei teyrnas ei hunain. Ond (O Eryr) os cofi di ofyn ymbellach am hyn, pan fôm ni wrthym ein hunain yn y distawrwydd, mi ddangosaf yn helaethach wreiddyn pôb dirgelwch. Ond yr awron dôs ymlaen i chwedleua ar gigfran.

Dau
Esbon-
iad. *Er.* Nid rhyfedd wrth hyn fôd llawer yn golledig os yw pôb dyn fel nythed o nadroedd yn llawn o feddyliau cnawdol
Ond beth a ddywaid y frân wrth hyn?

Cigf. Dymma daro at y gwreiddyn. Os drwg gynghorwr, drwg ganlynwr. Os tywyll goleuni rheswm, mae'r holl gorph yn dywyll, a phôb gair ar a ddywedais i erioed yn ofer. Ond (om rhan i) rwi'n tybied fôd rheswm ymhôb peth, ac mai rheswm naturiol yw'r goleuni gorau. Dymma wreiddyn y pren a blannwyd yn ddwfn. Diwreiddied y golomen ef os gall.

Col. Mi wn mai dymma Salomon y bÿd, ond mae ysbryd gwirion y golomen yn fwy na Salomon yn ei holl ogoniant ai ddoethineb. Ond i ddangos i ti ddoethineb ddayarol y frân. Ei synwyr hi yw hyn. Dalied pawb ei eiddo, cippied pawb a allo. Safed pob dÿn ar ei waelod ei hun. Na ddyweded mor gwîr mewn cariad, ond mewn creulondeb. Na ddringed uwchlaw rheswm dyn. Canlyned y bÿd ai

arfer. Maged ei naturiaeth ai gnawd ai waed, a gwaried ei amser mewn trythyllwch. Bwytaed ac yfed a bydded lawen. Bodloned bawb er ei fwyn ei hun. Bydded ganddo ddau wyneb yn barod, ai galon yn ddauddyblyg. Bydded gall drosto ei hunan. Onid e marw a wna. Ond dymma ffolineb y bŷd. Dymma ynfydrwydd pen agored, canys nid call y dyn ai ceisio ei hun. Y Sawl sydd a dau wyneb gantho, mae un o'r ddau yn gythreulig: y nêb a wenhieithio ddynion sydd bwdr yn ei galon. Hawdd yw bwytta, yfed, a chwarae gormod, a dawnasio yn y cnawd ar ôl pibell yr ysbryd drŵg. Ysbryd y gwaed yw cwmmwl y meddwl. Arfer y bŷd yw'r porth llydan i ddestryw. A'r Sawl na ddringo uwch ei law ei hun, ni eistedd fyth yn y nefoedd. Mae'r dyn difyr chwerthinog allan o'i gôf ei hun, ac o'r tu fewn i gôf y sarph. Amser dyn yw ei gynnyscaeth, a gwae ai gwario yn ofer. Rhaid yw dofi ysbryd y cnawd, a magu bywyd ysbryd yr uchaf. Boddi a wna'r dyn na nôfia yn erbyn ffrŵd y wlâd. Y rheswm uchaf yw'r afreswm isaf. Ni saif nêb ond un arno ei hun. Nid eiddo nêb ei hunan. Cadwed pawb ei galon at Dduw. Adrodded pob un ei gydwybod yn ddoeth. Cladded dŷn ei reswm ei hun. Ond dymma iaith nad oes nemmor yn ei deall. Nag ofned nêb arall

cym maint ac ef ei hun. Oni fedri roi taw ar eraill, distawa dy hun. Pan fo mwyaf sŵn yn y bŷd bydded lleiaf yn dy galon. Nag ofna ddiabol, na châr y pechod, ac na chynnwys dy hun. Na ddalied ysbryd y creadur di, ond nofia i ysbryd y creawdr. Cyfrif y da o'th flaen yn berl, a'th waith o'th ôl yn dom. Melys i'r cnawd yw siwgwr diafol, ond bwytta di y manna dirgel. Mochyn yw Luciffer yn ymdreiglo ynghnawd dyn. Crochan hwn yw calon fudr yn berwi ar dân uffern. Gwŷniau'r cnawd ŷnt feirch o ryfel; descyn oddi arnynt ac nag oeda. Perthen o ddrain yw rhesymmau dŷn, ai gwado ei hun a ddiangc o honi. Portha dy chwant, ac fe a'th ladd. Llei mae dynion mae angelion, llei mae angelion y bydd dynion. Y Sawl sy'n byw ynddo ei hun sy'n byw allan o fonwes y tâd. Oni elli achub eraill, diangc dy hun oddiwrthit di hun. Gwell yw adnabod y galon yn y bŷd ymma, nai bod hi yn adnabod digofaint byth. Pa fodd y gelli fod yn llonydd oni byddi ar y graig? Nid gwaeth beth a ddywedo ffyliaid, nid ei gair nhwy a saif.

Er. Oni ŵyr y pechadur pwy sydd
Newid y yn aros ynddo?
pwnc.

Col. Na ŵyr, mwy nag y mae'r mur-
 iau meirwon yn adnabod y trigianydd. Canys

ni fŷn dyn weled y carnlladron o bechodau sydd yn llechu ynddo fel y gweli di y gene-goegion, a'r pryfed mewn pwl drewllyd.

Er. Gâd hyn heibio yr awron. O ba le y daeth yr holl ddwfr i foddi yr holl fŷd?

Col. Allan o drysorau y goruchaf. Efe a rwygodd y dyfnder mawr ynghalon y gread-wriaeth oddi tanodd, ac a egorodd ffenestri element y dwfr oddiarnodd; a rhwng y ddau ddwfr yn un fe orchfygwyd pob cnawd er dewred oedd. Ac ar ddydd y farn olaf fe ddaw tân ysbrydol, a thân naturiol i farnu ac i brofi'r bŷd oddiwrth y Goruchaf, yr hwn sydd ganddo yn ei drysordŷ y tân, a'r gwres a'r gwynt, a'r glaw, a'r ôd, a'r rhew. Ac ni all un cnawd aros na'i wres, na'i oerni ef. Ac fel y gwnaed Corph dyn o bedwar defnydd (sef tân, awyr, dwfr, a dayar), felly ni all un corph cnawdol spario yr un o'r pedwar, na byw ar awyr heb ffrwyth y ddayar, nag yn y gwres heb ddwfr, nag yn y dwfr heb y tri eraill: Am hynny fe foddwyd pob peth a'r yr oedd anadl y bywyd ynddo, ae fe ddygwyd ysbryd pob cnawd nad oedd yn yr Arch dan gaethiwed y dwfr.

Er. Pam y deuai y dwfr ymma i foddi dynion druain, heb roi rhybudd i fod yn dyfod fel y gallent i ochel?

Col. Nhwy gawsant rybudd i gyd gan

Noah (pregethwr cyfiawnder:) ond roedd yr holl fŷd yn chwerthin am ei ben ef, er bod pob dyrnod morthwyl yn bregeth yn galw a'r y byd cyndyn i'r Arch.

Er. Rwyti yn sôn yn fynych am *Dim ofn* baradwys. A wyddost ti Pwy sydd *marw.* yno?

Col. Dod gennad i mi i son yn ddifyr am fyngwlâd am bro fy hunan. Rhaid i bawb son am ei gartref. Rwi (mewn rhan) ynnddi yn barod, a'r Colomennod gyda'm fi fel y dywedais i ti.

Er. Ond Beth ped fawn i yn dy ladd di'r awron, i ba le yr ait ti?

Col. I mewn ymhellach i'm gwllâd, canys ni ellir mo'm gwthio i allan o'm naturiaeth, a naturiaeth nefol yw paradwys.

Er. A wyddosti beth yr wyti yn i ddywedyd?

Col. Gwn, er na fedrai beri i ti ddeall.

Er. Onid oes arnat ti ofn marw er hyn i gyd?

Col. Nagoes, mwy nag un sydd wedi blino, fynd iw welŷ i orphwys. Cennad yw angau oddiwrth fy nhâd i'm dwyn i adref allan o yscol y bŷd hwn fel allan o garchar y cnawd.

Er. Ond mae ofn marw ar eraill?

Col. Mae iddynt hwy achos, Canys pan fo angau yn marchogaeth attynt hwy, mae uffern wrth ei scîl ef.

Er. Pam nad oes arnat tithau ofn marw ?

Col. Am fod un arall wedi marw drosofi, a hwnnw yw fy meichiau i. A digon yw naill ai iddo ef, ai i minnau farw.

Er. Oni bu efe farw dros bob un arall cystal a thithau ?

Col. Fe fu farw dros bawb, ac mae pawb yn cael llês oddiwrtho dros amser. Ond nid ydynt hwy yn i garu ef, ond yn ymollwng oddiwrtho i fyw ac i farw fel Balaam. Ac oni bai iddo erioed ymroi a chytuno i farw, ni buase y bŷd ymma yn sefyll munud awr ar ol cwypw Adda.

Er. Ond ni bu efe farw lawer blwyddyn ar ol hynny.

Col. Ond deall di (O Eryr) iddo addo a bwriadu marw er sylfaeniad y bŷd ; a'r peth a fwriado efe, mae hynny fel ped fai wedi i wneuthur yn barod.

Er. Er a ddywettech di. Nid
Rhy ddwfn i'r Eryr. yw hyn yn mynd i'm pen i, nag im calon chwaith. Ar pen yw drws y galon. Pa fodd y mae i ddyddyn feddwl heb gamfeddwl am y pethau hyn ?

Col. Ni all fôd ond un anfesuro!l, A hwnnw am i fôd ef yn berffaith, rhaid iddo fôd ymhôb man ar unwaith, ac yn llefaru wrth bawb yn wastad, yn clywed, ac yn cynnal pob peth ar unwaith, nid rhan o hono sydd ymma, a rhan accw, canys nid oes mor rhannau ynddo. Ond mae fe i gyd, ac yn gwbl, ac yn hollawl ymhôb man ar unwaith. Am hynny y galle Moesen chwedleua ag ef wyneb yn wyneb. Canys yr oedd yr holl Dduwdod o flaen ei lygaid ef. Ond ni wêl nêb hyn ond y meddwl ysbrydol. Fel na ellir gweled yr haul ond yn ei oleuni ei hunan. Pwy sydd yn gweddio? neu pwy sydd yn pregethu? neu yn rhoi trô yn y bÿd, ac yn gweled fôd yr holl Dduwdod i gyd, sef y Duw mawr ai holl olwg arno? ac yn deall mai lle y mae ei gariad ef, yno y mae bywyd a pharadwys, ac lle mae ei ddîg ef, yno y mae angau ac uffern. Hwn yw'r Duw anfesuro!l bendigedig byth, yn ymlonyddu ynddo ei hunan, ac iddo fe bo'r glôd ym mhôb man yn dragywyddol. Ni ddyle ddyn sôn am ei enw ef heb barch a chrynfâ, canys ynddo y mae pawb yn sôn am dano. Oi flaen ef y mae'r nefoedd yn diangc, a char ei fron ef y mae'r angelion sanctaidd yn ymguddio, Ond mae dynion fel anifeiliaid direswm uffernol, yn rhuo, yn ang-hofus yn cablu, yn camarfer y gair, yn tyngu,

yn drwgfeddwl, yn melldithio, yn rhegi eraill ai heneidieu ei hunain, heb weled fôd y tân aniffoddadwy wrthynt ac ynddynt. Ac mae rhai eraill (Druain) yn edrych am Dduw o hirbell, ac hefyd yn gweiddi am dano oddiallan, heb weled fôd ffynnon a gwreiddyn ynddynt yn ceisio tarddu a thyfu drwyddynt. Canys mae fe gyda phôb dŷn er cynddrwg yw, yn goleuo pôb dŷn ar sydd yn dyfod i'r bŷd, ond er i fôd ef drwy bawb nid yw fe yn cael aros ond yn ymbell un. Y Sawl sydd gantho glŷst i wrando, gwrandawed.

Er. O Golomen. Onid wyti yn blino bellach yn siarad am y pethau hyn? Ni fyynnwn i mo'th flino di chwaith.

Ofn yr Eryr. *Er.* Ond pa fôdd y caiff 'dŷn adnabod dydd ei iechydwrriaeth?

Col. Tra fo'r adar yn canu, Tra fo'r felin yn troi, Tra fo'r gwynt yn chwythu. Tra fo'r hayarn yn dwymyn, Tra fo'r awr hon yn parhau. Tra fo'r meddwl yn ymgeisio, Tra fo'r gydwybod yn rhybuddio. Cyn diffyg yr anadl, Cyn cau porth y ddinas, Cyn hedeg or enaid, Cyn torri o'r edef, Cyn cwympo'r pren. Cyn Caledu'r ewylllys. Cyn serio'r gydwybodd, Cyn diffodd y ganwyll. Cyn passio y farn, Cyn i heddyw ddarfod. Cyn i'r munud ymma fyned

heibio. Dychwelwch O blant Dynion. Pa hŷd yr oedwch gymmeryd bywyd?

Er. Mae llawer yn Sôn am gael i dal ai cymmeryd ar awr dda. Onid oes awr dda i bôb un oddiwrth y Planedau?

Col. Mae'r Planedau yn rheoli y meddwl anifeiliaidd cnawdol nes iddo fynd allan o'r corph oddi tan yr haul. Ond mae'r dyn difrif ysbrydol uwchlaw'r holl blanedau yn ei feddwl yn barod, er bôd ei gorph ef etto fel anifail. I'r dyn cyndyn nid oes un awr dda, nag i'r dyn nefol un awr ddrwg.

CHARLES EDWARDS. 2107?

Yr wyf yn pigo cryn lawer o ddarnau o "Hanes y Ffydd," argraffiad 1677, prif waith Charles Edwards. Ychydig o hanes yr awdwr sydd ar gael. Bernir, ar sail a ddywed Gwallter Mechain, iddo gael ei eni yn Rhydycroesau, ym mhlwyf Llansilin, Sir Ddinbych, a dengys ei Gymraeg mai ar odreu Gwynedd y'i magwyd, Mae'n siwr ei fod ym Mhrifysgol Rhydychen yn 1644, gan iddo gael ysgoloriaeth yng Ngholeg yr Holl Eneidiau, ond nis daliodd hi yn hir oherwydd i ystorm y rhyfel fawr rhwng y Brenin Siarls I. a'r Senedd dorri ar y Brifysgol. Yn 1648, daeth yn ol i Rydychen, yn ysgolor yn awr o Goleg yr Iesu, ond trwy gweryl a'i gymrawdwy, ymadawodd am Gymru, ac yn 1653 fe'i gwelir ym mywoliaeth Llanrhaiadr.

Ystormus fu ei fywyd ar ei hyd. Pan ddaeth y brenin yn ol yn 1660, collodd ei fywoliaeth. Bu yng ngharchar am dymor, ac mewn iselder ysbryd rhoddodd i fyny bregethu. Ar ol bywyd priodasol hapus o un mlynedd ar bymtheg, ymadawodd a'i wraig a'i deulu drwy gydsyniad cariadus. Trodd yn ol am Rydychen, ond yr oedd achos Cymru o hyd yn agos at ei galon. Yma, mewn hiraeth dwfn ac mewn tlodi cyfyng ag afiechyd hir, gwnaeth ei oreu tuag at ei fam-wlad trwy ysgrifennu llyfrau Cymraeg, a gweddus oedd i Gymru gael hanes y "Ffydd Ddiffuant" pan oedd, erbyn hyn, yn dechreu dyfod yn gydnabyddus a gwirioneddau'r efengyl. Gwnaeth lawer o waith arall, ond dyna ei brif waith, yr hwn gafodd ddylanwad mawr ar feddwl Cymru, ag a adargraffwyd lawer gwaith. Treuliodd lawer o amser llafurus yn ei ysgrifennu, ag mae ei Gymraeg mor ystwyth a thlws a Chymraeg neb byd. [Am hanes ei fywyd, a'i bryder, a'i iselder ysbryd, gweler ysgrif ddyddorol gan Ysgrifennydd cyntaf Prifathrofa Cymru yn y *Traethodydd* am 1886.]

CHARLES EDWARDS.

AT Y DARLLEYDD.

Annerch Charles Edwards. Gras, trugaredd, a thangneddyf a liosogo i ti trwy Grist Iesu. Wrth ystyried mor gynnorthwyawl i'm gwladwyr a fyddai hyspysrwydd o'r pethau a ganlynant, ac nad adwaenwn i un llyfr i'w gyfieithu ydoedd yn wahanredol yn amgyffred y cwbl o'honynt, ymosodais i'w pigo allan o amryw lyfrau; a chymerais gwrs y wenynen i sugno llawer llysiuyn i wneuthur hyn o ddilyn. Cyd-ddwg ditheu â'r fath grwybyr ag sydd ynddo.

Cawn weled yma siamplau pobl Dduw, a'r modd y carasant ei ewyllis ef, ac y cadwasant ei orchymynnion ef; fel y bo i ni ganlyn y brisc a dorrasont hwy drwy lychfeydd profedigaethau'r byd dryc-hinog hwn; a cherdded y llwybr cul sydd yn arwain i orphwystra tragywyddol. . . . Ni a ddeuwn i borfeydd gleision, os awn rhagom ar ol praidd y gwir fugail. Can. Sol. 1. Na fyddwn fuscrell eithr dilynwyr i'r rhai drwy ffydd ac ammynedd sy'n etifeddu'r addewidion, Heb. 6. 12, yn enwedig byddwn ddilynwyr i'n henafiaid megis y buont hwythau i Grist, 1 Cor. 11. 1. Dodwn hawl i fraint a bonedd ein hen

deidiau, sef purdeb ffydd efangylaidd, a grym duwioldeb. Er mwyn hynny, fy 'ngwladwyr anwyl, y rhoddais hyn o ddiwydrwydd ar yscrifennu atoch am yr iechydwrïaeth gyffredinol, gan eich annog i ymdrech ym mhlaid y ffydd, yr hon a roddwyd unwaith i'r Sainct, ie ym mhlith y Britanniaid. Jud. 3. Yr oedd Paul yn hoffi Timotheus yn hytrach wrth alw i'w gof y ffydd ddi-ffuant ydoedd ynddo ef, yr hon a drigodd yn gyntaf yn ei nain Lois, ac yn ei fam Eunice. 2 Tim. 15. Eled y cymro yn hoff gan Dduw yn yr unrhyw fodd. Ac fel y dylem ddilyn rhinweddau yr ychydig o rai da ym mysc ein henafiaid, felly hefyd gochelyd pechodau y llaweroedd o honynt ydoedd ddrwg, a ddug arnynt ddialedd dwys, ac a wnaethont na bu Duw fodlon i'r rhan fwyaf o honynt; canys cwmpwyd hwynt yn nhir eu ganedigaeth. A'r pethau hyn a wnaed yn siamplau i ni, fel na chwennychem ddrygioni, megis ac y chwennychasant hwy; ac na odinebwn, fel y godinebodd rhai o honynt hwy, ac y syrthiodd miloedd o honynt; ac na themtiwn Grist, megis ag y temtiodd rhai o honynt hwy, ac a'i destrywiwyd. A'r pethau hyn oll a ddigwyddasant yn siamplau iddynt hwy, ac a scrifenwyd yn rhybydd i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd. 1 Cor. 10. 5, 6, 8, 9, 11. Na fyddwch fel eich tadau, y rhai

y galwodd y prophwydi arnynt, gan ddywedyd, Dychwelwch oddiwrth eich ffyrdd drwg, ond ni chlywent, ac ni wrandawent, nes i fwgrythion Duw eu goddiwes hwynt. Zech. 1. 4, 6.

Darllen yn astud, a chydabyddi nad yw ffydd beth newydd, eithr hen ; na pheth dychymybol, eithr sylweddol ; a siccrwydd y pethau nid ydis yn eu gweled. Heb. 11. 1. Y rhai sydd ystyriol ar eiriau a gweithredoedd Duw, ac yn byw yn rasol, a dderbyniant gyflawn hyder yn ei ffyrdd ef. Arfera sanctaidd ddiwydrwydd er mwyn llawn siccrwydd gobaith hyd y diwedd. Heb. 6. 11. I'w blant ufudd, ac nid i'w elynion anghymmodol y mae'r Duw doeth yn adrodd ei gyfrinach. . .

Y mae i mi achos arbennig i glodfori enw yr Hollalluog am ddwyn fy ngorchwyl i hyn o hyd. Ac i'w alw Eben-Ezer, a dywedyd,—“Hyd ymma y cynnorthwyodd yr Arglwydd fi.” 1 Sam. 7. 12. Adolwg na ddigio neb wrth hyn o lyfran, eithr ei dderbyn â'r un ewyllis ac yr wyf inneu yn ei ddanfon. Na friwa'r llaw a estynno it arwydd o garedigrwydd, er gwaeled fyddo. Nid yw ddiarwybod i mi fod eraill yn y wlad a fedrasent wneuthur y rhan fwyaf o hyn yn well. Ond ni rediff y sŷg o'r aeron,—er pereiddieda chyflawned fyddont,—nes eu dryllio a'u gwascu. Os digwydd i'r cyfryw, a nhwy yn

gwybod ofn yr Arglwydd, ymosod i berswadio dynion, y mae iddynt er hyn ddigon o waith, a lle i'w wneuthur. Ac ni hwyrach i ryw un o gariad iti, neu o genfigen i mi, yscrifennu ychwaneg ynghylch yr unrhyw bethau; pa fodd bynnag, gwna'r defnydd goreu o bob cynnorthwy. Yr oedd yn o-anhydyn genifi fyned drwy'r daith hon, i geisio it hyn o hanes am beth gwerthfawr a fu ar y goll, ac i hel ynghyd hyn o dystion yn achos Duw, nes i'w wialen ef fy ngyrru, ac i'w ragluniaeth ef osod anghenrhaid arnafi; ac i gariad Crist fy nghymell. O cofiwn yr hwn a fu farw tros bawb, fel na byddei i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw trostynt, ac y gyfodwyd. 2 Cor. 5. 11, 14. Bu fodlon gan baganiaid wasanaethu eu pobl drwy ddirfawr boen, a chaledi; ac os bu i'r cyfryw chwysu a gwaedu dros eu gwlad, nid ydyw ond peth bychan i Gristianogion yscrifenu er ei mwyn. Y Cymro caredig, o chei lessad wrth ddarllain, treulia ymbell ddeigryn mewn gweddi dros un a dreuliodd lawer myndyn mewn rhyw fath a'r orchwylion er dy wyn di, ac felly tâl y pwyth ith

gydwladwr anwiw

CHARLES EDWARDS.

Llundain, mîs

Ebr, 1677.

Helynt Cymru. Wrth a draethwyd gwelwn gael o'r Britaniaid yr unrhyw rybuddion ac y gafas yr Israeliaid gynt o flaen eu caethiwed, ac ynghylch yr un modd y gwrthodasant hwynt, ac ynghylch yr un fath gystudd a ganlynodd : ac nid heb ei haeddu. Yr achos amlwg o'u destryw ydoedd hollhawl bechadurieth pob gradd ar ddyinion,—sef barnwyr, eglwyswyr, a chyffredin. A'r ymlygriad a fagodd oddiwrth ymbleidiau yr Arriaid a'r Morganiaid. Pan gymerodd ymddadlau opinwnus le pregethau iachus, parasant lid yn lle duwioldeb. Aml ryfeloedd hefyd a ostegasant gyfreithiau dinasol ac ysprydol; ac a wnaethant bechaduriaid yn hyfach, a ffrwythlondeb y tir a'u gwnaeth yn wresoccach. Y Britwn fel Jeshurun a aeth yn fras, ac a wingodd, pwyntiodd, yna efe a wrthododd Dduw, yr hwn a'i gwnaeth. Am hynny cafodd ei gystwyo, a cholodd y wlad a halogodd. Ac ni wnaeth Arglwydd y winllan mor cam fwrw allan denantiaid anniolchgar. Yr hwn yn ei ddoethineb a'i gyfiawnder a ganhiadodd i'r un fath beth ddigwydd mewn llawer o wledydd eraill ynghylch yr un amser, gan laccio ffrwyn cenhedloedd y gogledd, y rhai oeddent bob amser, pan lanwent eu gwledydd oerion eu hunain, yn deirion am ymhyrddu i leoedd cynhesach,

Heidient am bennau rhai eraill pan lenwent eu cychod eu hunain. Y cyfryw oedd y Phichtiaid y ddaethant i'r Albain, y Gothiaid, a'r Fandaliaid a ymgyrchasant i'r Ital a'r Affric a'r Hispaen ychydig cyn yr amser hwn; a'r Lwmbardiaid a breswylasant yn yr Ital. A'r Ffranciaid yn nghylch hyn a arhosasant yn Gallia, ac a'i galwasant hi Ffrainc. Ac ychydig wedi hyn daeth y Twrciaid a'r Tartariaid i gymeryd meddiant o'r gwledydd gorau yn yr hollfyd, sef Asia Leiaf, Arabia, yr Aipht, a Syria. Ymhob oes torrodd Duw genhedloedd pechadurus i lawr fel glaswellt; a hynny i'w ymddiffyn ei hun a'i anrhydedd yn erbyn pechaduriaid afreolus. Pan addfedeu eu hanwireddau, troseddwy'r a gyd-ddestrywid, weithiau drwy'r elfenau, sef drwy ddwfr yn amser Noah, a thrwy dân yn amser Lot; weithiau drwy ddynion, megis y Cananeaidd yn amser Joshua; a'r Israeliaidd drwy'r Assyriaidd a'r Caldeaid.

Yr achlysur o wanhychiad ein gwlad
Rheswm ydoedd rheoliad y Rhufeiniaid arni,
am a'u hymadawiad hwy o honi i ddiffyn
wendid yr Ital. Megis mewn dychryn pan
Cymru. gilio'r gwaed o'r wyneb a'r aelodau at y galon
 i'w diddanu hi, digwydd glesni a llescedd
 ynddynt hwy. Ni adawodd ei hen feistriaidd

fawr o'u hol, ond amryw eiriau Ladin yn gym-scedig a'n iaith ni. A phlanniad y Britaniaid yn Llydaw a eiddilodd lawer ar eu cenedl gartref, ac a'u cymwysodd i dderbyn yr un mesur gan y Saeson, ac a roddasent hwythau i'r Letafiaid. Anghydfod y penaethiaid hefyd a agorodd adwyau i ollwn aflwydd i'r ynys. Pan aeth Fortigern, duwc Cerniw, yn frenin drwy frad gwaedlyd, rhoddodd fwy ymddiried yn y Saeson y gyflogasai nag yn ei ddeiliaid ganedigol. Gorfu i'r brenin Arthur ryfela a'i wladwr Melfas, tywysog gwlad yr haf, i ddial trais ei frenhines Gwenhwyfar. A chwedi iddo ynnill deuddeg brwydr oddi ar y Saeson, trwy anfodlonrwydd ei nai, Modred, cafodd ei farw-olaeth; a chydag ef syrthiodd llwyddiant ei genedl; a'r deyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun a anghyfaneddwyd. Hefyd tra yr oedd Prydain yn wan, yr oedd hi yn brydferth, a'i glendid y barodd i gymaint o ddieithriaid ei threisio hi. Ni chafodd lonydd gan yspeilwyr wrth fod ei thir mor gyfoethog. Ffrwythlondeb y pren afalau y wnaiff ergydio cymmaint o bas-tynau atto, yn enwedig os bydd heb gae yn ei gylch. Aeth ei hymddiffynfeydd fel ffigyswydd a'u blaenffrwyth arnynt, pan ysgydwyd hwynt, syrthiasant yn safnau y bwyttawyr. Pe buasai yn addoli Duw yn ddyladwy, ni chawsai neb

chwennyachu mo'i thir, er anamled ei gwr-ryw-iaid; ac os buasai rhuthr iddi, creuasai'r Arglwydd amddiffyn ar ei holl ogoniant. Ond wedi iddi ddigio Duw, aeth ei golud hi yn obrwy i'r Sawl a'i Lladdent hi. Plannasei'r Arglwydd winllan,—sef ei eglwys,—ynddi, a disgwyliodd iddi ddwyn grawnwin o weithred-oedd grasol, a hitheu a ddug rawn gwylltion o foesau drwg, sef trais yn lle barn, ac yn lle cyfiawnder gwaedd. Am hynny tynnodd ymaith ei chae amddiffyn fel y porid hi, a thorrodd ei magwyr fel y byddai yn Sathrfa; a gosododd hi yn ddifrod, ac i'r cwmylau y gorchymynnodd na lawient law arni, gan attal oddiwrthi neu brinhau ei ordinhadau a moddion gras. Cyn pen nemawr ar ol yscrifen Gildas bu agos i bla a elwid y Fall Felen a dibennu gweddillion y Britaniaid, y rhai wedi hynny a gollasant Gaer-loiw, a'r Bath, a'r cwbl o orllewin Lloegr oddi-eithr Cerniw. A deleodd y Saeson y grefydd Gristnogol, a throesant yr Eglwysydd yn demlau eulynnod Paganaid, drwy eu harglwyddiaethau oll.

Moddion gwella Cymru. Gwelwm yma mor aflesol fu i'n henafiaid amcanu bwrw cystudd oddi-wrthynt cyn troi at Dduw drwy edifeirwch. Prifiodd y gwrthryfel hwn, fel un

Zedeciah, yn achos o gaethiwed Babilonaidd. Darfu ir daroganau eu siomi nhw hefyd. Gnawd i bob cenedl dan orthrymder goelio pob Bruttiwr a'r addawo ryddhâd iddynt. Cresawai'r Israeliaid y prophwydi gwenhiethus, ond deuai'r peth yn y gwrthwyneb i'r bobl anwir-eddus. Pan dorrodd Hananiah y gefyn pren, rhoddes Duw yn ei le iau o haiarn ar eu gwarrau. Dull yr amseroedd Pabaidd hynny, a chystudd gyda'g hiraeth am warediad, a wnaeth ein henafiaid ni yn dueddol i roi lle i feddyliau ofergoelus. Y newynog a'r sychedig a freuddwydia am lun-ieth, ond pan deffro gwag a deffgyiol fydd ei enaid. Pan gafodd y brenin Arthur ei friw marwol aeth i ynys Wydren i'w ddiweddu, er mwyn celu ei farwolaeth, rhag llawenyachu ei elynion, na digaloni ei ddeiliaid. Am hynny bu ein gwladwyr ni, gantoedd o flynyddoedd gwedi, yn tybied na buasai ef farw, ond yn brithgoelio y caent ef eilwaith i lywodraethu arnynt fel y taer ddymument. A phan aeu tywysogion Cymry a'r maes oddiar y Saeson mewn dwy frwydr neu dair, ymhyfâent yn aruthr, gan ddisgwyl cyflawni bruttiau'r prydyddion am gael o'r Britaniaid ail gorescyn yr ynys. A hynny a wnaeth i'r Saeson, o ran gwawd, wisco coron am ben Llewelyn y dorrasent oddi ar ei gorph ef, wrth ei osod ar y tŵr yn Llundain.

A dyma fel y cyfieitha Charles Edwards lythyr yr Esgob Morgan at y Frenhines a Thy'r Cyffredin :—

*“Pr ardderchoccaf frenhines Elizabeth, gras
a bendith yn yr Arglwydd.*

Pa gymaint y mae eich mawrhydi chwi, odidoccaf dywysoges, yn nyléd y goruchaf Dduw, nid yn unic ei ryfeddol amddiffin ef yn tarfu y gelynyon creulon yn ddiweddar, eithr hefyd y duwioldeb rhagorol, clodfawr drwy'r hollfyd, â pha un yr addurnodd ef eich mawrhydi, sy'n eglur dystiolaethu. A hyn a ddengis pa radlawn ofal ydoedd gan eich mawrhydi chwi am eich Britaniaid, nid amgen na'ch ordinhâd drwy awdurdod Parliament y deyrnas i droi yn Gymraeg yr ddwy yscrifen o Sanctaidd air Duw, sef yr hen a'r newydd. Yr hyn hefyd sy'n datcan ein syrthni a'n esgeulysder ni, gan nad allai y fath athrwm angenrhaid ein cynhyrfu ni, na chyfraith mor llesol ein cymell ni, fel nad arhosai peth mor bwysfawr, mwy na pha un nis gallai dim fyth fod, cyhyd heb ei gymeryd mewn llaw. Canys y Testament Newydd yn unic a drodd escob Menyw yn Gymraeg er ys ugain mlynedd, gyda chynorthwy William Salisbury, gwr a haeddai yn dda ar law ein eglwys, ni. Nid hawdd mynegi faint o

leshad y wnaeth ef i'n gwlad ni wrth y gorchwyl hwnw. Canys y pryd hynny prin y medrai ymbell un bregethu yn Gymraeg o herwydd bod y geiriau rheidiol i egluro Sanctaidd ddirgeledigaethau yr Scrythr lân yn Gymraeg wedi myned ar aball, megis wedi eu golchi ymaith â dwfr Lethe; neu wedi eu claddu dan lwch anarfer; mal nas gallau na'r dyscawdwyr agor yn ddigon amlwg yr hyn a ewyllysient, na'r gwrandawyr eu deall; na dirnad pa rai oedd geiriau'r scrythyrau, a pha rai oedd esponiadau o honynt. Yn ddiau pan ymgasclent yn chwannog at bregethau, a bod yn ddyfal ynddynt, etto yn anhyspys ac yn amheus y byddai y rhan fwyaf yn ymadel, megis wedi cael tryssor mawr nis gallent gloddio atto, neu fod mewn gwledd fawr heb gael bwytta o honaw. Ond yn awr, drwy ddirfawr ddaioni y Goruchaf Dduw, a llafur y Cyfieithydd hwn, y mae genym fwy o bregethwyr a pharottach, a gwrandawyr hyddyscach. Fel y mae'r ddau beth hyn yn dda gan y duwiol, etto nid yw'r un o'r ddau hyd yn hyn yn gyfattedbol i'w dymuniad hwy. Canys gan fod ar ein gwlad ni eisiau yr yscrifen gyntaf honno o air Duw, y sydd ragfynegiad, a darluniad a thyst ddiogel i'r llall,—och faint o esamplau, pa nifer o addewidion a chyssuron sydd dan gudd? Pa faint o rybuddion, annog-

au, a thystiolaethau y mae ein pobl ni o'u hanfodd hebddynt? iechydwrïaeth dragwyddol pa rai sydd mewn mawr berigl hyd yn hynn, pan yw pob un i fyw drwy ffydd, a bod ffydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw, yr hwn ni seiniodd ond ychydig i'n cenedl ni hyd yn hyn, gan ei fod mewn iaith ddieithr. Am hynny, wrth weled mor llesol ac angenrheidiol ydoedd cyfieithu'r Scrythyrau eraill i'r Gymraeg,—er i atgof o'm gwendid fy hun, a maintioli'r gorchwyl, a drygianiaeth rhai anwydau fy nicaloni yn hir—gan gydsynio â dymuniadau'r duwiol, goddefais fy mherswadio i osod ar y gwaith poenus hwn, a thra anghymeradwy i lawer. A chwedi ei ddechreu, deffygiaswn o ran anhawstra'r peth, a maintioli'r gost, a dugaswn bum llyfr Moesen yn unig at y printwasc, oni bai i'r parchediccaf archescob Caer Gaint, achleswr dysceidiaeth, amddiffynwr y gwirionedd, a thirion wrth ein cenedl ni, fy nghymorth â'i haelioni, â'i awdurdod, ac â'i gynghor i fyned ymmaen. Ar ol ei esamplef, aeth gwŷr da eraill yn gynnorthwyol i mi; oni chyfieithais i yr Testament Hen i gyd, a diwygiais argraphiad y Newydd.

Os tybia neb mai gwell er mwyn cyttundeb fyddai cymell ein cenedl ni i ddyscu Saesonaeg, na throï'r Scrythyrau i'n iaith ni, dymunwn

arnynt ymogel na yrront grefydd ymmaith wrth hyfforddi cordiad. Er bod yn ddymunol i drigolion yr un ynys siarad yr un iaith; etto mae yn gystal i'w ystyried, y gofyn hynny gymmaint o amser a thrafferth i'w ddwyn i ben, oni byddai yn rhy greulon ewylllysio neu oddef pobl Dduw i golli drwy newyn ei air ef yn y cyfrwng. Heblaw hynny diammau y dichon cyssondeb crefydd wneuthur mwy tuag at danghnefedd na chyssondeb iaith. Ac nid duw-iol cyfrif budd yn well na chrefydd, a chordiad addiallan yn well na'r heddwch y mae gair Duw yn ei seilio ymmeddyliau dynion. Yn olaf, mor annoeth yw y rhai y dybiant, pe gwarafunid gair Duw yn ein iaith mammawl, yr annogai hynny i ddyscu un arall. Canys bydd crefydd yn anadnabyddus onis dyscir yn iaith y cyffredin; a'r peth y bo un heb adnabod ei felysdra a'i werthfawrogrwydd, ni chymmer ddim poen er mwyn ei gael. Am hynny attolugwn ar eich mawrhydi i'r rhai y rhoddasoch un fron y gwirionedd eusus, ganhiadu yr llall, fel y clodforo pob tafod Dduw."

*Canlyniad
cyfieithu'r
Yscrythur.*

Ond er pan ddaeth yr scrythyrau yn Gymraeg i'n plith, y mae'r helynt orau ar ein cenedl ni ac y furs llawer o genedlaethau. Rhodd-

galon rasol, y fyddo â'r ewyllís ac â'r gallu yn ymgodi at bethau perthynol i deyrnas nef, gan ddychwelyd â chafodydd o fendithion aml. Ni bydd y nef yn nyled y ddaiar, yr hyn a wyddai Salomon yn hy-dda wrth ei brawf a'i lwyddiant ryfeddol wedi iddo adeiladu'r deml. Am hynny yn ei ddoethineb a'i serch cynghorodd ei fab, gan ddywedyd,—“Anrhydedda yr Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth pennaf o'th holl ffrwyth; felly y llenwir dy yscuboriau a digonoldeb, a'th winwryfoedd a dorrant gan win newydd.” Ac nid yn y byd yma yn unig y ceir tâl am yr hyn a dreulier at wasanaeth Duw, eithr yn y byd arall hefyd. Pan gipio marwolaeth y rhai didda at benyd a phrinder dragwyddol, caiff y goruchwylwyr ffyddlon a arferant eu talentau yngwasanaeth eu Harglwydd dryssor yn y nefoedd yr hwn ni dderfydd, a chynhalieth ogoneddus byth.

ELLIS WYNNE. 179

GANWYD Ellis Wynne, awdwr y "Bardd Cwsc," yn 1671,— yn yr un lle ag y maged ef ag y bu farw yn 1734,—yn y Lasynys, hen balasdy ryw filltir a hanner o Harlech, Sir Feirionnydd. Rhaid i bawb a ddarlennu y "Bardd Cwsc," gredu fod Ellis Wynne wedi cael addysg dda, a'i fod yn wr athrylithgar iawn : ond ymhle y derbyniodd ei addysg foreol nid oes neb a wŷr. Yr oedd yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, pan yn un ar hugain oed, ond tebyg iddo ymadael cyn cymeryd ei radd. Fe'i hurddwyd yn ddiagon ac yn offeiriad yr un adeg, a bu byw ar hyd ei oes ynghanol golygfeydd rhamantus bro ei enedigaeth, ac yn swm hen draddodiadau yr hen Gastell, fel periglor Llanfair, ger Harlech. Fe briododd yn 1702 Lowri Llwyd o'r Hafod Lwyfog, Beddgelert, a bu o'r briodas naw o blant. Flwyddyn ar ol ei briodas, ymddangosodd ei brif waith, "Gweledigaethu y Bardd Cwsc," gwaith a osododd yr awdwr ar unwaith ymhlith goreugwyr llen Cymru. Fe allai iddo gael llawer o help i ysgrifennu y llyfr yma drwy ddarllen cyfieithiad o waith yr Yspawwr Cwevedo (fel Morgan Llwyd o waith Jacob Behmen), ond gresyn o beth, a cholled anadferadwy i lenyddiaeth Gymraeg, oedd i edliwiad rhai cechrwyr mai cyfieithiad a dim ychwaneg oedd y "Gweledigaethu," wneud i Ellis Wynne ymwylltio a llosgi ei lawysgrif o'r rhannau diweddaf o'r gwaith, fel nad oes yn aros ond tair gweledigaeth, sef Cwrs y Byd, Angeu ac Uffern.

Bu farw yng nghanol Gorffennaf 1734,—a bron nas gallwn beidio a chysylltu geiriau agoriadol ei lyfr ag adeg ei farw. Fe'i claddwyd o dan fwrdd y cymundeb yn Eglwys Llanfair, a bu yn hir heb yr un mymryn o ddim i ddangos man ei fedd, hyd nes i'r Parch. Ioan Wynn o Landrillo roi ffenestr liwiedig yn yr Eglwys yn gof am ei hen-daid.

Y mae Cymraeg Ellis Wynne yn gryf ac yn nerthol,—fel pe bai yn dwyn cysgod y creigiau a'r mynyddoedd geirwon yng

nghesail y rhai y treuliodd ei oes. Cwynir weithiau fod ei iaith yn isel ei chwaeth,—ond cofier ar yr un pryd mai isel ryfeddol oedd moes a chwaeth y genedl ar ddechreu y ddeunawfed ganrif —amser cyn i lais yr un John Wesley na Whitfield na Howel Harris gael ei godi yn erbyn pechod ac anfoesoldeb, ac amser du cyn torri gwawr y diwygiad crefyddol.

Cafodd y Bardd Cwsc ei argraffu lawer gwaith,—gan Spurrell, Caerfyrddin, dan olygiaeth y Parch. D. Silvan Evans (pris 1/6), ac yn ddiweddar iawn gan Jarvis & Foster, Bangor, dan olygiaeth yr Athro J. Morris Jones (pris 3/6). A gresyn o beth os na fydd i fechgyn a merched ieuainc Cymru ei ddarllen, a'r llyfr o fewn eu gafael.

ELLIS WYNNE.

*Cychwyn
taith y
Bardd
Cwsc.* Ar ryw brydnhawngwaith têt o
hâ hir felyn tesog, cymmerais hynt i
ben un o fynyddoedd *Cymru*, a
chydami Spienddrych i helpu 'n
golwg egwan, i weled pell yn agos, a
phetheu bychain yn fawr; trwy 'r awyr deneu
eglor ar tês ysplenydd tawel canfyddwn ymhell
bell tros Fôr y *Werddon*, lawer golygiad hyfryd.
O'r diwedd wedi porthi fy Llygaid ar bôb rhyw
hyfrydwch o'm hamgylch, onid oedd yr Haul
ar gyrraedd ei gaereu 'n y Gorllewin; gorwedd-
ais ar y gwelltglas, tan syn-fyfyrio deuced a
hawddgared (wrth fy ngwlâd fy hun) oedd y
gwledydd pell y gwelswn gip o olwg ar eu
gwastadedd tirion; a gwyched oedd gael arnynt
lawn olwg, a dedwydded y rhai a welseint gwrs
y byd wrthifi a'm bâth: Felly o hir drafaelio
â'm *Llygad*, ac wedi â'm *Meddwl* daeth blinder,
ac ynghyscod Blinder daeth fy Meistr *Cwsc* yn
lledradaidd i'm rhwymo; ac â'i goriadeu plwm
fe gloes ffesestri fy Llygaid a'm holl Synhwyreu
eraill yn dynn ddiogel. Etto gwaith ofer oedd
iddo geisio cloi 'r *Enaid* a fedr fyw a thrafaelio

heb y Corph : Canys diangodd fy Yspryd ar
 escill Phansi allan o'r corpws cloiedig: Achynta
 peth a welwm i, yn f'ymyl *dwmpath chwareu*,
 â'r fâth gâd-gamlan mewn Peisieu gleision a
 Chapieu cochion, yn dawnsio 'n hoew-brysur.
 Sefais ennyd ar fy nghyfyng gyngor awn i attynt
 ai peidio, oblegid ofnais yn fy ffwdan mai haid
 oeddynt o *Sipsiwn* newynllyd, ac na wnaent âs
 lai na'm lladd i iw swpper, a'm llyncu yn ddi-
 halen : Ond o hir graffu, mi a'u gwelwn hwy 'n
 well a theccach eu gwedd na'r giwed felyn-ddu
 gelwyddog honno. Felly anturiais nesau atynt,
 yn ara' dêg fel iâr yn sengi ar farwor, i gael
 gwybod beth oeddynt ; ac o'r diwedd gofynnais
 eu cennad fel hyn o hyd y nhîn ; Attolwg lan
 gyn'lleidfa, 'r wy 'n deall mai rhai o bell ydych,
 a gymmereich i Fardd i'ch plith sy'n chwennych
 trafaelio? ar y gair distawodd y trwst, a phawb
 a'i lygaid arnai, a than wichian, *Bardd*, ebr un,
trafaelio eb un arall, *in plith ni* ebr y trydydd ;
 erbyn hyn mi adwaenwn rai oedd yn edrych
 arnai ffyrnicca o'r cwbl: Yna dechreuasant sib-
 rwd o glust i glust rywddirgel swynion ac edrych
 arnai, a chyda hynny torrodd yr hwndrwd, a
 phawb a'i afel yno'i, codasant fi ar eu 'scwyddeu,
 fel codi Marchog Sîr ; ac yna ymaith a ni fel y
 Gwynt tros Dai a Thiroedd, Dinasoedd a Thy-
 nasoedd, a Moroedd a Mynyddoedd, heb allu

dal sulw ar ddim gan gyflymed yr oeddynt yn hedeg. A phe' sy waeth, dechreuais ammeu nghymdeithion wrth eu gwaith yn gwrthuno ac yn cuchio arnai eisieu canu duchan i'm Brenin fy hun.

Felly nineu aethom i weled y
Dull y 'Lecsiwn. Y Gwŷr oedd yn sefyll
Lecsiwn am y Swydd oedd y *Stiwardiad*, y
Llogwyr, y *Cyfreithwyr* a'r *Maersiandwyr*, a'r
cyfoethocca o'r cwbl a'i cai : (oblegid pa mwya
sy gennit, mwya gei ac y geisi, rhyw *ddolur
diwala* sy'n perthyn i'r Stryd.) Gwrthodwyd
y Stiwardiaid y cynnyg cynta, rhag iddynt dlodi
'r holl Stryd, ac fel y codaseint eu Plasau ar
furddynnod ei Meistred, felly rhag iddynt o'r
diwedd droi 'r Dwysoges ei hun allan o fedd-
iant. Yna rhwng y tri eraill yr aeth y ddadl ;
mwy o Sidaneu oedd gan y Marsiandwyr, mwy
o Weithredoedd ar Diroedd gan y Cyfreithwyr,
a mwy o Godeu llownion, a Bilieu a Bandieu
gan y Llogwyr. Hai, ni chyttunir heno, ebyr
Angel, tyrd ymaith, cyfoethoccach yw'r Cyf-
reithwyr na'r Marsiandwyr, a chyfoethoccach
yw'r Llogwr na'r Cyfreithwyr, a'r Stiwardiaid
na'r Llogwyr, a *Belial* na'r cwbl, canys ef a'u
pieu hwy oll a'u petheu hefyd. I ba beth y mae'r
Dwysoges yn cadw 'r Lladron hyn o'i chylch,

ebr fi? Beth gymmwysach, eb ynte, a hi 'n Ben-lladrones ei hun. Synnais ei glywed e'n galw 'r Dwysoges felly, a'r Bon'ddigion mwya yno, yn Garn-lladron; Attolwg f' arglwydd, ebr fi, pa fodd y gelwch y Pendefigion urddasol yna yn fwy Lladron na 'Speilwyr-ffyrdd? Nid wyti ond ehud, ebr ef: Onid yw'r cnâ êl â'i gleddy 'n ei law a'i reibwyr o'i ôl, hyd y byd tan ladd, a llosgi, a lladratta Teyrnasoedd oddi ar eu hiawn berch'nogion, ac a ddisgwyl wedi ei addoli yn Gyncwerwr, yn waeth na Lleidryn a gymer bwrs a y Ffordd-fawr? Beth yw Taeliwr a ddwîg ddarn o frethyn, wrth Wr mawr a ddwîg allan o'r Mynydd ddarn o Blwy? Oni haeddei hwn ei alw'n Garn-lleidr wrth y llall? ni ddûg hwnnw ond cynhinion oddiarno *ef*, eithr efe a ddûg oddiar y *tlawd* fywioliaeth ei anifail, ac wrth hynny ei fywioliaeth ynteu a'i weiniaid. Beth yw dwyn dyrneid o flawd yn y Felin, wrth ddwyn cant o hobeidieu i bydru, i gael gwedi werthi un ymhrîs pedwar? Beth yw Sawdwr lledlwm addycco dy ddiillad wrth ei gleddyf, wrth y Cyfreithwyr a ddwg dy holl stát oddiarnat, a chwi gwydd, heb nac iawn na rhwymedi i gael arno? A pheth yw Pigwr-pocced, a ddygo bumpynt, wrth gogiwr dîs, a'th yspeilia o ganpynt mewn traean nôs? A pheth yw Hwndliwr a'th siommei mewn rhyw

hên geffyl, methiant, wrth y Potecari a'th dwylla o'th arian a'th hoedl hefyd am ryw hên physygwriaeth fethedig? Ac etto, beth yw'r holl Ladron hyn wrth y Pen-lladrones fawr yna sy'n dwyn oddiar y cwbl yr holl betheu hyn, a'u calonneu, a'u heneidieu yn niwedd y ffair.

Wedi i mi spio ennyd ar ffals-
Canhebrwng der pob cwrr o'r Adeilad, dyma
a Phriodas. *Ganhebrwng* yn mynd heibio, a
 myrdd o wylo ac ochain, a llawer o ddynion a
 cheffyleu wedi eu hulio mewn galarwiscoedd
 duon; ymhem ennyd dyma 'r druan *Weddw*,
 wedi ei mwgydu rhag edrych mwy ar y byd
 brwnt yma, yn dyfod tan leisio 'n wann, ac
 och'neidio 'n llêsc rhwng llesmeirieu: Yn wîr,
 ni fedrais inneu nad wylais beth o dosturi: Iè,
 iè, eb yr Angel, cedwch eich dagreu at rywbeth
 rheitiach: Nid yw'r lleisieu hyn ond dÿsc
Rhagrith, ac yn ei Hyscol fawr hi, y lluniwyd
 y gwiscocdd duon yna. Nid oes un o rhain yn
 wylo o ddifri: Mae'r *Widw*, cyn mind corph
 hwn o'i thÿ, wedi gollwng *Gwr arall* eusys at ei
 chalon; pe cai hi ymadel â'r gôst sy wrth y
 corph, ni waeth ganddi o frwynen pettei ei enaid
 ef yn ngwaelod Uffern, na'i geraint ef mwy na
 hitheu; oblegid pan oedd gletta arno, yn lle ei
 gyinghori 'n ofalus, a gweddio 'n daerddwys am

drugaredd iddo, sôn yr oeddid am ei Betheu, ac am ei Lythyr-cymmun, neu am ei Acheu, neu laned, gryfed Gŵr ydoedd ef, a'r cyffelyb: Ac felly rwan nid yw 'r wylu yma, ond rhai o ran defod ac *arfer*, eraill o *gwmnhi*, eraill am eu *cyflog*. Prin yr aethei rhai'n heibio, dyma Dyrfa arall yn dyfod i'r golwg, rhyw Arglwydd gwŷch aruthr, a'i Arglwyddes wrth ei glun, yn mynd yn araf mewn stât, a llawer o Wyr cyfrifol yn eu gapio a myrdd hefyd ar eu traed yn dangos iddo bôb ufudd-dod a pharch; ac wrth y *Ffafreu*, deellais mai *Priodas* ydoedd. Dyma Arglwydd ardderchog, ebr fi, sy 'n haeddu cymmaint parch gan y rhai'n oll. Ped ystyrid y cwbl, ti a ddywedit rywbeth arall, eb ef: Un o Stryd *Pleser* yw'r Arglwydd yma, a Merch yw hitheu o Strŷd *Balchder*; a'r henddyn accw sy 'n siarad âg ef, un ydyw o Stryd yr *Elw*, sy ganddo arian ar hôll dîr yr Arglwydd agos, a heddyw 'n dyfod i orphen taledigaeth: ni aethom i glywed yr ymddiddan.

Tyrd trwodd weithian, eb yr Angel,
Hawdd-garwch ac a'm tynnodd i mewn lle gwelwn yn
 y *Llys*. y porth yn gynta *Fedyddfaen* mawr,
 ac yn ei ymyl, *Ffynnon* o ddw'r hallt;
 beth a wnâ hon ar lygad y ffordd, ebr fi? Am
 fod yn rhaid i bawb ymolchi ynddi cyn cael

braint yn Llŷs *IMMANUEL*, hi a elwir *Ffynnon Edifeirwch*; uwch ben gwelwn yn scrifenedig, *Dyma Borth yr Arglwydd*, &c. Yr oedd y Porth a'r Stryd hefyd yn lledu ac yn yscafnhau fel yr elid ymlaen; pan aethom ronyn uwch i'r Strŷd, clywn lais ara'n dywedyd om hôl, *Dyma'r Ffordd, rhodia ynddi*. Yr oedd y Stryd ar orufynu, etto 'n bur lân ac union, ac er nad oedd y tai ond îs yma nac yn y Ddinas *ddihenydd*, etto 'r oeddynt yn dirionach, os oes yma lai o feddianneu mae 'ma hefyd lai o ymryson a gofalon; os oes llai o seigieu, mae llai o ddolurieu; os oes llai o drŵst, mae hefyd lai o dristwch, a mwy'n siccr o wir lawenydd. Bu ryfedd genni'r Distawrwydd a'r *Tawelwch* hawddgar oedd yma wrth i wared. Yn lle 'r tyngu a'r rhegu, a'r gwawdio, a phutteinio, a meddwi; yn lle balchder ac oferedd, y syrthni'n y naill cwrr, a thrawsni'n y cwrr arall; iè, 'n lle'r holl ffrio ffair, a'r ffrôst, a'r ffrwst, a'r ffrwgd oedd yno 'n pendifadu dynion yn ddibaid, ac yn lle 'r aneirif ddrygeu gwastadol oedd isod; Ni weliti yma oedd sobrrwydd mwynder a sirioldeb, heddwch a diolchgarwch; Tosturi, diniweidrwydd a bodlonrhwydd yn eglur yn wyneb pôb Dyn; oddieithr ymbell un a wylei 'n ddistaw o frynti fod cŷd yn Ninas y Gelyn. Nid oedd yma na châs, na llid, ond i *bechod*, ac yn siccr o orchfygu hwnnw,

dim ofn ond rhag digio'u Brenin, a hwnnw'n barottach i gymmodi nac i ddigio wrth ei ddeiliaid, na dim sŵn ond Psalmau mawl i'w ceidwad.

Ond ni chês i fawr aros nad
Angeu a'r Farn. dyma fi yngolwg *Allor* fawr ararswydus lle gwelwn y Brenin.

Dychrynadwy yn traflyncu cig a gwaed Dynion, a mil o fân angheuod o bob twll yn ei borthi fyth, â chîg îr twymn: Dyma, ebr yr Angeu, a'm dygasei i yno walch a gês i ynghanol *Tir Ango*, a ddaeth mor yscafn-droed, na phrofodd eich mawrhydi dammeid o hono 'rïoed. Pa fodd y gall hynny fod, ebr y Brenin, ac a ledodd ei hopran cyffled a daiargryn i'm llyncu. Ar hyn, mi a drois tan grynu at *Gwsc*; Myfi, ebr *Cwsc*, a'i dygais ef yma. Wel', ebr y Brenin cul ofnadwy er mwyn fy mrawd *Cwsc*, chwi ellwch fynd i droi 'ch traed am y tro yma; ond gwiliwch fi 'r tro nesa. Wedi iddo fod ennyd yn bwrw celanedd iw geubal ddiwala, parodd roi dyfyn i'w ddeiliaid, ac a symmudodd o'r *Allor* i *Orseddfainc* echryslawn dra-uchel, i fwrw 'r carcharorion newydd ddyfod. Mewn munyd, dyma 'r meirw fwy na rhi o finteioedd yn gwneud eu moes i'r Brenin, ac yn cymryd eu lle mewn trefn odiaeth. A'r Brenhin *Angeu* yn ei frenhinwisç o Scarlad gloewgoch, ac hyd-

ddi lunieu Gwragedd a Phlant yn wylo, a Gwŷr yn ochneidio; ac am ei ben gap dugoch tri-chonglog (a yrrasei ei gâr *Lucifer* yn anrheg iddo) ar ei gonglau scrif'nasid *Galar a griddfan a gwae* uwch ei ben 'r oedd myrdd o lunieu rhyfeloedd ar fôr a thîr, trefi'n llosgi, y ddaiar yn ymagor, a'r Dw'r-diluw; a than ei draed nid oedd ond coroneu a theyrnwial yr holl Frenhinoedd a orchfygasei fe'riod. Ar ei law ddeheu 'r oedd *Tynge*d yn eiste, ac â golwg ddu ddèl yn darllen anferth Lyfr oedd o'i flaen: Ac ar y llaw asswy 'r oedd henddyn a elwid *Amser*, yn dylifo aneirif o edafedd *aur*, ac edafedd *arian*, a *chopr*, a *haiarn* lawer iawn, ac ymbell edy 'n prifio 'n well at ei diwedd a myrddiwn yn prifio'n waeth; hyd yr edafedd yr oedd *orieu*, *diwrnodiau* a *blynyddoedd*; a Thynged wrth ei Lyfr yn torri'r edafedd *einioes*, ac yn egor dryseu'r Wâl derfyn rhwng y *ddau Fyd*. Ni chawsw'n i fawr edrych na chlywn alw at y barr bedwar o ffidleriaid oedd newydd farw. Pa fodd, ebr Brenin y Dychryn, a daed gennych lawenydd na ddaliasechwi o'r tu draw i'r *Agendor*, canys ni fu o'r tu yma i'r Cyfwng lawenydd erioed? Ni wnaethom ni, ebr un Cerddor, ddrwg i nêb erioed, ond eu gwneud yn llawen, a chymeryd yn distaw a gaem am ein poen. A gadwasoch i nêb, ebr *Angeu*, i golli eu hamser oddiwrth eu gorchwyl,

neu o fynd i'r Eglwys, ha? Na ddo, ebr un arall, oddieithr bod ymbell Sul wedi gwasanaeth yn y tafarn-dy tan dranoeth, neu amser hâ mewn twmpath chwarae, ac yn wîr, yr oeddym ni 'n gariadusach, ac yn lwccusach am gyn'lleidfa na'r Person. Ffwrdd, ffwrdd â'r rhain i Wlâd yr Anobaith, ebr y Brenin ofnadwy, rhwymwch y pedwar gefn-gefn, a theflwch hwy at eu cym-eiriaid i ddawnsio'n droednoeth hyd aelwydydd gwynias, ac i rygnu fyth heb na *chlod* na *chlera*.

Erchyll Trwy'r *Gymmyscfa* fawr arswyd-
gosh yr us, ni a dorrasom o'r diwedd allan i'r
annuw. llaw chwîth; a chyn trafaelio neppell
yno, lle 'r oedd pob peth yn dechreu mynd
hyllach hyllach, clywn y galon ynghorn yng-
wddf, â'm gwâllt yn sefyll fel gwrŷch draenog
cyn gweled; ond pan welais och ormod golwg
i dafod ddatcan, nac i yspryd dyn marwol
edrych! mi a lewygais. Oh! aruthrol anferth-
ol *Gyfwng* tra erchyll yn ymagor i Fyd arall!
Och ar cleccian fyth yr oedd y fflameu echrys-
lawn wrth ymluchio tros ymyleu'r Geulan fell-
tigatedig, a'r dreigieu mêllt yscethrin yn rhwygo'r
mŵg dudew 'r oedd y *Safn* anferth yn ei fwrw
i fynu. Pan ddadebrodd f'anwyl gydymmaith
fi, rhoes i mi ryw ddw'r *ysprydol* iw yfed; o

odidocced oedd ei flâs ai liw ! pan yfais y dwr nefol clywn *nerth* rhyfeddol yn dyfod imi, a *synwyr*, a *chalon*, a *ffydd* ac amryw rinweddeu nefol eraill. Ac erbyn hyn nesseais gydage 'n ddiarswyd at fin y Dibyn, yn y Llenn, â'r fflammeu 'n ymrannu o'n deutu ac yn ein gochel, heb feiddio cyffwrdd â Thrigolion *Gwlad Uchelder*. Yno o ben y Geulan anaelef ymollyngasom fel y gweliti ddwy Seren yn syrthio o entrych nêf, i lawr â ni fil filiwn o filltiroedd, tros lawer o greigieu brwmstan, a llawr anfad raiadr gwrthun, a chlogwyn eirias a phôb peth â gŵg crogedig ar i wared fyth, etto'r oeddynt oll yn ein gochel ni ; oddieithr unwaith yr estynnais fy nhrwyn allan o'r *llen-gel*, tarawodd y fâth archfa fi o fygfeydd a thagfeydd ac a'm gorphenasei oni basei iddo'n ddisymwth f' achub a'r dw'r bywiol. Erbyn imi ddadebru gwelwn ein bod wedi dyfod i ryw sefyllfod ; canys yn yr holl Gêg anferthol honno nid oedd bossibl ddim cynt gae attreg, gan serthed a llithricced ydoedd. Yno gaddawodd fy nhwysog i mi orphwys peth drachefn ; ac yn hynny o seibiant digwyddodd i'r Taraneu a'r Corwyntoedd crôch ddistewi gronyn, ac heb waetha i sŵn y rhaiadydd geirwon, mi a glywn o hirbell sŵn arall mwy na'r cwbl, o grochleisieu echrys, bonllefain, gwaeddi, ac ochain crŷf,

a thyngu a rhegu a chablu, oni roeswn i newid ar fy nghlustieu rhag gwranddo. A chyn i ni ymsymmud fodfedd clywem oddifynu'r fâth drwp-hwl-rwp-rap dy-dwmp dy-damp, ac oni basei i ni oscoi'n sydyn syrthiasei arnom gant-oedd o ddynion anhappus oedd yn dyfod ar eu penneu mewn gormod brÿs i ddrwgfargen, a llu o Ellyllon yn ei gyrru. O Sir, ebr un Diawl, cymrwch yn araf rhag dyrysu'ch cudyn crÿch. Madam, a fynnwchwi glustog esmwyth? mae arnai ofn na fydd arnoch ddim trefn erbyn yr eloch i'ch lletty, meddei ef wrth y llall. Gwrthysig aruthr oedd y die'ieithriad i fynd ymlaen, gan daeru eu bod allan o'r ffordd, ac er hynny mynd yr oeddid a ninneu o'u lledol, hyd at Weilgi ddu ddirfawr o faint, a thrwodd yr aethant hwy, a throsodd ninneu, â'm cydymaith yn dal y *dw'r* wrth fy nhrwyn i'm nerthi rhag archfa'r affon, ac erbyn y gwelwn rai o'r *trigolion*, canys hyd yn hyn nis gwelwn gymmaint ac un *Diawl*, ond clywed eu llais. Beth, ertolwg fy nhwysog, y gelwir yr Afon farwedd hon, ebr fi? *Afon y Fall*, ebr ynte, lle trochir ei holl ddeiliaid ef iw cymwyso at y Wlâd: Mae'r *dw'r* melltagedig hwn, ebr ef, yn newid eu *gwedd*, yn golchi ymaith bob *gweddillion* daioni, pòb *rhith* gobaith a chysur. Ac erbyn gweled y llu yn dyfod trwodd, nis gwyddwn i ddim

rhagor gwrthuni rhwng y *Diawliaid* a'r *Damniaid*. Chwenychei rai o honynt lechu yngwaelod yr Afon, a bod yno fyth fythoedd yn tagu, rhag cael ymlaen waeth lletty : Ond fel y mae 'r ddihareb, *Rhaid i hwnnw redeg y bo Diawl yn ei yrru*, felly gan y Diawliaid oedd o'u hôl 'r oedd yn gorfod i'r damniaid hyn fynd ymlaen hyd y Feisdon ddinistriol iw dihenydd tragwyddol ; lle gwelais inneu ar y golwg cynta fwy nac a all calon Dyn ei ddychymyg, chwaethach tafod ei draethu o arteithieu a dirboeneu ; a digon oedd weled un o honynt er gwneud i'r gwallt sefyll, i'r gwaed fferri, i'r cnawd doddi, i'r escyrn ymollwng, iè, i'r yspryd lewygu. Beth yw polioni, neu lifio Dynion yn fyw ? tynnu 'r cnawd yn dammeidieu, â gwrthrimynnod heirn, neu friwlio cîg â chanwylleu o fesur golwyth, neu wascu penglogeu 'n lledfennau mewn gwâsc, a'r holl ddirmyg erchylla fu 'rioed ar y ddaiar ? nid ydynt oll ond megis dyfyrwch wrth un o'r rhain. *Yma* fîl can mîl o floeddiadau ac ebychiau hyllgryg ac ochneidieu cryfion ; *draw* wylofain crôch, ac aruthrol gri 'n eu hatteb, ac mae udfa cŵn yn bêr fuwsic flasuwr wrth y lleisieu yma. Pan aethom ronyn ymlaen o'r Feisdon felltgedig i wŷllt *Destryw*, wrth eu tân eu hunain canfûm aneirif o Feibion a Merched yma a thraw ; a Diawliaid heb rifedi

ac heb orphwys â'u holl egni 'n dâl byth iw harteithio ; ac fel y gwaeddei 'r Diawliaid gan eu poen eu hunain, gwnaent i'r Damniaid eu hatteb hyd adre. Deliais fanylach Sulw ar y cwrr oedd nesa atta 'i : Gwelwn y Diawliaid â phigffyrch yn eu taflu i ddescyn ar eu penneu ar hislanod gwenwynig o bicellau geirwon gwrth fachog, i wingo gerfydd eu menyddieu, ymhen ennyd lluchient hwy ar eu gilydd yn hunfeydd, i ben un o'r Creigieu llosc i rostio fel poethfel. Oddiyno cippid hwy 'mhell i ben un o fylcheu y rhew a'r Eira tragwyddol : yna 'n ôl i anferth lifeiriant o frwmstan berwedig, iw trochi mewn *lloscfeydd*, a *mygfeydd*, a *thagfeydd* o ddrewi anaelef ; oddiyno i Siglen y pryfed i gofleidio *ymlusciaid uffernol*, llawer gwaeth na Seirph a Gwiberod ; yna cymmeri 'r Cythreuliaid wiail clymmog o ddur tanlyd o'r ffwrnes, ac ai cureint oni udent tros yr hôll *Fagddu fawr*, gan yr anhraethawl boen echryslawn ; yna cymereint heirn poethion i serio'r archollion gwaedlyd. Dim *llewygu* na *llesmeirio* nid oes yno, i sommi munyd o *seibiant*, ond nerth gwastadol i *ddiodde* ac i *deimlo* ; er y tebygiti ar ôl un echryslef, nad oedd bossibl fod fyth rym i roi un waedd arall mor hyllgref, etto byth ni ostwng eu cyweir, a'r Diawliaid yn eu hatteb, dyma 'ch croeso *byth bythoedd*.

A phettei possibl, gwaeth na'r boen oedd goegni a chwerwder y diawliaid yn eu *gwawdio*, ac yn eu *gwatwar*: A pheth oedd waethaf oll, oedd eu *Cydwrbod* y rwan wedi cwbl ddeffro, ac yn eu llarpio hwy'n waeth na mîl o'r Llewod uffernol.

Yn y canol, uwchben *Lucifer*, yr *Araith Lucifer*. oedd *Dwrn* mawr yn dâl bôllt tra ofnadwy. Y tywysogesau wedi gwneud eu moes a ddychwelasant i'r Byd at eu Siars yn ddiymaros. A phan gynta 'r ymadawsant dyma gawr o Ddiawl ceghir ar amnaid y Brenhin yn rhoi bonllef uwch na chan ergyd o Ganon, cufuwch pe possibl, a'r Udcorn ddiweddaf, i gyhoeddi 'r Parliament uffernol; ac yn ebrwydd, dyma giwed Annwn wedi llenwi 'r Llys ar cyntedd ymhob *llun*, yn ol delw a chyffelybiaeth y *pechod penna* 'r y garei pob un i wthio ar ddynion. Wedi gorchymmyn gosteg, dechreuodd *Lucifer*, a'i olwg ar y Pennaethiaid nesa atto, lefaru 'n rasmusol fel hyn: chychwi Bennaethiaid Annwn, Twsgion *Fagddu Anobaith!* Os collasom y meddiant lle buom gynt yn discleirio hyd Teyrnasoedd gwynion *uchelder*, er maint, etto gwŷch oedd ein cwmpni, nid oeddem ni 'n bwrw am ddim llai na'r *cwbl*; ac ni chollasom mo'r cwbl chwaith, canys wele

Wledydd helaeth a dyfnion hyd eitha Gwyllt-oedd *Destryw* fawr, tan ein rheolaeth ni etto. Gwyr yw, mewn dirboen anaelef yr ŷm ni 'n teyrnasu, etto gwell gan ysprydion o'n uchder ni *deyrnasu* mewn penyd na *gwasanaethu* mewn esmwythyd. Ac heblaw *hwn*, dyma ni agos ac ennill Byd *arall*, mae mwy na phum rhann o'r *Ddaiar* tan fy maner i-er's talm. Ac er darfod i'r Gelyn hollalluog yrru ei Fab ei hun i farw trostynt, etto 'r wyfi wrth fy nheganeu yn mynnu dêg enaid am un a gaffo fo gyda 'i Fâb croeshoeliedig. Ac er na chyrraeddwn i gyffwrdd Ef yn y Goruchafion, sy 'n ergydio 'r taraneu anorchfygol; etto melys yw dial *rywffordd*: Gorphenwn inneu ddifa 'r gweddill sy o Ddynion yn ffafr ein Destrywiwr ni. Mae'n gôf genni 'r amser y parasoch iddynt losci yn fyddinoedd, ac yn ddinasoedd, iè, i Ddaiarlwyth cyfan ddescyn trwy 'r Dw'r, attom ni i'r tân. Ond yrwan er nad yw'ch *nerth* a'ch *creulonder* naturiol ronyn llai etto, rÿchwi wedi rhyw ddiogi: Ac oni bai hynny gallasem fod er's talm wedi difa'r ychydig rai duwiol, ac wedi ynnill y ddaiar i fod yn un â'r Llywodraeth fawr yma. Ond gwybyddwch hyn, weinidogion duon fy nigofaint, oni byddwch glewach a phrysurach weithian a byrred yw 'n amser ni, myn *Anwn* a *Destryw*, ac myn y *Fagddu fawr*

dragwyddol, cewch brofi pwys fy llid arnoch eich hunain yn gyntaf mewn poeneu newyddion a dieithrol i'r hyna o honoch, ac ar hyn fe guchiodd oni chwmylodd y Llŷs yn saith dduach nac o'r blaen.

*Perygl
Hawdd-
fyd.*

Yma gwelwn yr holl brif-gythreuliaid a'u cegeu tra-erchyll yn egored ar *Lucifer*, i ddisgwyl beth bossibl a allai hwn fod, a minneu cyn rhywired genni glywed a hwytheu. *Un*, ebr *Lucifer*, y bŵm i 'n rhŷ hŷr heb ystyried ei haeddiant hi, fel dithe *Satan* gynt wrth demtio *Job* yn troi 'r ty hagr fel ffŵl. Hon fy Nghares yr wy'nawr yn ei hordeinio 'n Rhaglaw ar holl achosion fy llywodraeth ddaiarol yn nesa'attaf fy hun, hi a elwir *Hawddfyd*; *Hon* a ddamniodd fwy o Ddynion na chwi i gŷd, ac ychydig a dalechwi oll hebddi *hi*. Canys mewn *Rhyfel*, neu *Berygl*, neu *Newyn*, neu *Glefyd*, pwy a brisia mewn na *Thobacco*, nac *Arian* na hoewdra *Balchder*, nac a feiddia feddwl am groesawu nac *Anlladrwydd* na *Diogi*? ac mae Dynion yn y cyfyngoedd hynny 'n rhŷ effro i gymryd eu pendifadu gan *Ragrith* nac *Anystyriaeth* chwaith: ni lefys un o'r uffernol *wybed y Syndod* ddangos ei bŷg ar un o'r Stormoedd hyn. Eithr *Hawddfyd* esmwythglyd yw'ch

Mammaeth chwi oll: yn ei chyscod tawel, ac yn ei monwes hoewal hi y megir chwi oll, a phob pryfed uffernol eraill yn y Gydwybod, a ddaw i gnoi eu perchen *yma* byth heb orphwys. Trabydder *esmwyth*, nid oes sôn ond am ryw ddigrifwch, gwleddoedd, bargeinion, acheu, storiâu, newyddion a'r cyffelyb; ni sonir am *Dduw* oddeithr mewn ofer lyfon a rhegfeydd, lle mae'r *tlawd* a'r *cla*, &c. â Duw'n ei eneu ac yn ei galon bôb muniyd. Ewch chwithe 'ch saith ynghynffon hon, a chedwch bawb yn ei hûn ai heddwch, mewn llwyddiant ac esmwythyd, a llawnder a diofalwch; ac yno cewch weled y tlawd gonest yn mynd yn garl trowsfalch anhyweth, pan gynta 'r yfo o *hudol-gwppan Hawddfyd*; cewch weled y llafurwr diwyd yn troi 'n llefarwr diofal ysmala; a phôb peth arall wrth eich bodd. Oblegid *Hawddfyd* hyfryd yw cais a chariad pawb; hitheu ni chlyw gynghor, nid ofna gerydd; os da nid edwyn, os drwg hi a'i meithrin. *Hon* yw'r brif-brofedigaeth, y dyn a ymgadwo rhag ei Swynion mwynion *hi*, gellwch daflu 'ch Cap iddo, ffarwel i ni byth am gwmnhi hwnnw. *Hawddfyd* ynteu yw fy *Rhaglaw* ddaiarol i, dilynwch *hon* i *Brydain*, ac ufuddhewch iddi, megis i'n Brenhinol Oruchelder ni'n hunain.

Ar hyn gwyntiwyd y fôllt fawr a
Cawres thrawyd *Lucifer* ai Ben-cynghoriaid
Uffern i Sugnedd *Uffern eitha*, ac och fyth
Eithaf. erwined oedd weled *Cêg Annwn* yn
ymagor iw derbyn. Wel', eb yr Angel, weith-
ian ni a ddychwelwn: Ond ni welaisti etto
ddim wrth y *cwbl* sydd o fewn cyffinieu *Des-*
tryw, a phe gwelsit y *cwbl*, nid yw hynny etto
ddim wrth sy o drueni anhraethawl yn *Annw'n*,
canys nid yw'n bossibl bwrw *amcan* ar y Byd
sy'n *Uffern-eitha*. A chyda'r gair, f' a'm cip-
piodd yr Eryr nefol fi i entrych y Fagddu
felltigedig ffordd na's gwelswn, lle cês o'r Llŷs
hyd holl ffurfafen y *Destryw* duboeth, a holl
Dir Ango hyd at gaereu 'r *Ddinas ddihenydd*
lawn olwg ar yr anfad anghenfil o *Gawres* y
gwelswn ei thraed hi o'r blaen. Ac nis meddai
mo'r geirieu i ddatcan ei moddion hi. Ond mi
fedraf ddywedyd iti mai *Cawres dri-wynebog*
oedd hi, un wyneb tra sceler at y *Nefoedd*, yn
cyfarth, yn chwyrnu ac yn chwydu ffeidd-dra
melltigedig tu ac at y Brenhin nefol, wyneb
arall têt tu a'r *Ddaiar*, i ddenu Dynion i aros
yn ei chyscod, a'r wyneb anaelef arall at
Annwn iw poeni byth bythoedd. Mae hi 'n
fwy na'r *Ddaiar* oll, ac yn cynnyddu etto beu-
nydd, ac yn gan erchyllach na holl *Uffern* ;
Hi a barodd wneud *Uffern*, ac sy 'n ei llenwi

hi â thrigolion. Pe ceid *hon* o Uffern f' ai Annwn yn Baradwys: A phe ceid hi o'r Ddaiar, fe a'i 'r Byd bâch yn Nef; a phe cai hitheu fynd i'r Nef, hi a droe 'r Gwynfyd yn Uffern eitha. Nid oes dim yn y bydoedd oll (ond *hon*) nad Duw a'i gwnaeth. Hon. yw Mamm y pedair Hudoles ddihenydd, hon yw Mamm *Angeu*, a hon yw Mamm pob *drygioni* a *thrueni*; a chanddi grâp ofnadwy ar bob Dyn byw. Hi a elwir PECHOD. *Y sawl a ddiango o'i bacheu hi, gwyn ei fyd fyth*, eb yr Angel. Ar hyn fe ymadawodd, a chlywn ei adlais e'n dywedyd, '*Scrifenna 'r hyn a welaist, a'r sawl a'i darllenno 'n ystyriol, ni fydd byth edifar ganddo.*

THEOPHILUS EVANS, 1614-1767

MAE enw Theophilus Evans yn gysylltiedig, i bob un sy'n darllen llenyddiaeth Gymreig, a'i brif waith, "Drych y Prif Oesoedd," a gyhoeddwyd yn 1715, ac a ail-argraffwyd gyda llawer o ychwanegiadau gan yr awdwr yn 1740. Mae'r gwaith yma yn ddwy ran,—y rhan gyntaf yn ymdrin a rhyfeloedd a bywyd gwladol yr hen Gymry, a'r ail ran yn adrodd hanes eu moes a'u crefydd. Y mae y llyfr drwyddo draw wedi ei ysgrifennu mewn iaith ystwyth, gyfoethog, ac mewn arddull dlos a byw. Y mae mewn gwirionedd yn waith mawr ei fywyd, oherwydd treuliodd y rhan fwyaf o'i amser i chwilio allan hen awduron am oleuni ar hanes bywyd ei gydgenedl,—cenedl ag sydd a llawer o niwl a thywyllwch yn cuddio dyddiau ei mabandod o'r golwg.

Fe anwyd Theophilus Evans yn 1693, yn bumed mab Pen y Wenallt, ym mhlwyf Llandygywydd, yn agos i Gastell Newydd Emlyn, ar gyffin Ceredigion a Chaerfyrddin,—lle ddaeth yn hynod yn hanes llenyddiaeth ein gwlad, gan mai yn yr ardal honno y ceir yr argraffwasg gyntaf yng Nghymru. Pan yn bump ar hugain oed, cafodd ei lawn urddo yn offeiriad, a'i guradiaeth gyntaf oedd Defynog, ac yna Ty'r Abail, ym Mrycheiniog. Gwelir felly ei fod wedi dwyn allan ei "Ddrych" cyn cymeryd ar ei ysgwyddau lawn urdd eglwys. Symudodd amryw weithiau yn ei fywyd,—i Lanlleonfel, i Lanynys, i Langamarch, i Lanfaes Aberhonddu,—ond nid aeth oddiallan i Sir Frycheiniog. Gwan oedd ei iechyd ar hyd ei oes,—a dywedir mai ef oedd y cyntaf i ganfod rhinwedd meddygol dwfr naturiol y sir,—eto bu fyw agos i bymtheg a thrigain mlynedd. Cyfieithodd amryw lyfrau—llyfrau ddangosent ddrygioni pob math o sect—a chyhoeddodd amryw bregethau, a pharhaodd hyd ei fedd yn bregethwr hyawdl ac yn efrydydd diball. Bu farw yn 1767, a chladdwyd ef ym mynwent Llangamarch.

Y mae y darnau a ddetholir o'i waith wedi eu dewis o'r Rhan I. o'r "Drych."

THEOPHILUS EVANS.

*Afarwy
ac ail ym-
gyrch Iul
Caisar.*

Ac o ran ei fod efe yn gwybod mai hen gadnaw oedd Iul Caisar, ac nad oedd ond ofer iddo dybied y rhoisid coel idd ei eiriau heb ryw fechnïaeth, y bradwr Afarwy a anfonodd ei fab, ynghyd â dauddog ar hugain o farchogion, i ddwyn y llythyr at Iul Caisar, ac hefyd i fod yn wystlon o fod ei amcan ef yn gywir. Bywiogodd hyn galon Caisar, ac nid allasai un peth yn y byd ddigwydd yn fwy dymunol ganddo; ond etto o herwydd na chafas efe ond groesaw cyn haccred, a gorfod arno ffoi a throi ei gefn y waith gyntaf, fe a ddaeth yn awr yn llidiog ac yn hyderus, yr ail waith; canys lle nid oedd ganddo ond pedwar ugain ysgraff (neu o longau) y tro cyntaf, i fordwyo ei wŷr trosodd i Frydain, yr oedd ganddo yn awr wyth gant, a nifer ei sawdwyr y tro hwn ond tair mil ar ddeg ar hugain a thri chant a deg ar hugain o wŷr traed, a'r un nifer hefyd o wŷr meirch; sef oedd eu rhifedi gyda'i gilydd, chwech mil a thrugain, a chwech cant a thri

ugain. Agos i gan mil o wŷr arfog, a'r rhei'ny, gan mwyaf, yn rhyfelwyr o'i mebyd, beth a allai sefyll yn erbyn y fath lu mawr a hwnnw! Ac ni wyddys pa nifer o filoedd oedd gan y bradwr Afarwy i fod yn blaid â hwy! Ac y mae un bradwr gartrefol (a melldith ei fam a gaffo pob cyfryw un byth) yn waeth na chant o elynion pellenig; canys y mae y bradwr gartref yn gydnabyddus â phob amddiffynfa a lloches, a lle dirgel, lle y mae dim mantais i'w gael. Ond er hyn oll, ni fydd i Iul Caisar ddim achos mawr i orfoleddu o'i daith, na chlod chwaith gan ei gydwladwyr yn Rhufain. Canys yr oedd y Brutaniaid wedi pwyo, yng ngwaelod Tems, farrau heirn erchyll â phigau llymmion, y rhai nid allai neb eu canfod o yma draw, am eu bod droedfedd neu ddwy dan y dwfr; a phan ddaeth llongau Caisar yn ddiarwybod ar draws y rhei'ny, gwae fi; pa waeddi wwbw a therfysc oedd, ar hynny ym mysc sawdwyr Rhufain; y pigau dur yn rhwygo yr ysgraffau, a hwythau yn soddi ar fin y lan; a'r Brutaniaid hwytheu ar dir sych, yn llawen am weled eu dyfais yn llwyddo cystal. Y mae'n hawdd i farnu (pe bai hynny ond oddiyma yn unig), nad oedd yr hen Frutaniaid ddim cyn anfedrused pobl ac y mae rhai yn gweled bod yn dda i daeru. "Cas yw'r gwirionedd lle ni charer."

Heddwch a Therfysg. Ac ar hyn o bryd, wele ddychymmyg arall ac ystryw o eiddo'r Rhufeiniaid i gadw tan llaw yr hen drigolion; canys gwnaethant glawdd mawr o dyweirch a pholion, bedwar ugain milldir o hyd, draws yr ynys o fôr i fôr, sef o Abercwnrig, y naill ran o'r ynys tua'r dwyrain, hyd yn Ystrad Clwyd, tua'r gorllewin; sef yn agos i gydiad Lloegr ac Iscoed Celyddon, neu Scotland, lle mae'r ynys yn gulaf drosti. Pwy bynag ni roddai ufudd-dod i lywodraeth y Rhufeiniaid a yrrid allan o gyffiniau Lloegr, y tu arall i'r clawdd; a sawdwyr yn gynnifer pentwrr yma ac accw, ar bwys y clawdd, yn gwylied, i gadw pawb allan o'r tu draw.

Dros dalm ar ol hyn y bu amser lled heddychol, megys heddwch rhwng boneddigion, oddieithr ambell wth a bonclust yn awr a phryd arall, yma ac accw. Ond, megys wrth Gronni afon redegog, hi a erys ond odid yn llonydd ac yn dawel dros encyd; etto pan ddél llifeiriant, hi a ffrydia yn rhaiadr gwyllt dros yr ystangc, ac a dreigla ac a chwilfriwia pa beth bynnag a saif ar ei ffordd: felly y Brutaniaid hwythau, er eu bod dros amser yn lled esmwyth eto, wrth weled eu trin mor hagr, ac fel estroniaid yn eu gwlad eu hun, a gymmerasant galon o newydd etto. Er bod eu gwŷr dewisol,

pigion a blodeu ieuengtid y wlad wedi eu cippio o drais y tu draw i'r môr, (megys yr oedd y Rhufeiniaid yn arferol o wneuthur, etto yr oedd digon o yspryd chwerw o ymddial yn brydio calonnau y gwŷr oedd gartref; canys y gwŷr y tu draw ni wnaethant fwy cyfrif o'r clawdd, nac a wna march rhyfel i neidio dros gornant; a phreswylwyr Lloegr a Chymru hwythau, y tu yma i'r clawdd, a godasant yn un a chyttûn dros wyneb yr holl wlad, nes ei bod hi yn amser gwaedlyd y pryd hwnnw ym Mhrydain. Cynllwyn am waed, lladd, a dyfetha eu gilydd drwy boenau a chreulonder, llosgi tai a gwŷr a gwragedd a plant o'i mewn; ar air, ymffyrnigo mewn dialedd oedd agos yr unig beth ag oedd y Rhufeiniaid ar Brutaniaid yn astudio arno dros amryw ac amryw flynyddoedd. Digon gwir, hwy a lonyddent dros ychydig amser i gymmeryd eu hanadl, megys dau darw gwyllt yn ymgornio, ac yn gadael heibio dros ychydig; ond yna eu llid a ffrydia o newydd, a myned i ymdoppi yn ffyrniccach nag o'r blaen.

Eisiau rhac weled pethau mewn
Cyflwr amser a fu'n dramgwydd i filoedd;
truenus. ac yn nyddiau disclair i esceuluso
 barotoi rhag dryghin yw rhan yr ynyfyd. Ac

felly ar hyn o bryd, ar ol cael y trecha' ar eu gel-nion, nid oedd yr hen Frutaniaid ysmala hwy yn pryderu rhag un ymgyrch arall, ond di-swyddo eu milwyr a wnaethant, megys pe ni buasei dim rhaid wrthynt mwyach. Nid oes yn wir ddim hanes neillduol oblegid pa ddrygau a wnaeth y Brithwyr a'i cyfeillion dros rai blynyddoedd ar ol eu herlid y waith hon, oddi eithr eu bod yn lledratta gyrr o dda a defaid, a llosgi ambell bentref, ynawr a phryd arall, ac yno chwippyn ar gerdded; megis barcut ar gip yn dwyn cyw, ac yno ymaith gynted ac y gallo. Ond pan gydnabu y Brithwyr fod y Brutaniaid wedi gadael eu cleddyfau rydu, a bod math o hurtrwydd wedi eu perchennogi, megis rhai yn dylyfu gen rhwng cyscu a pheidio; yno danfon a wnaethant at eu hen gyfeillion, y Frangcod a'r Saeson a'i gwahawdd trosodd i wneuthur pen ar bobl ddi-doreth a musgrell nad oeddent dda i ddim ond i dwymno eu crimpau wrth bentan ac ymlenwi.

Y Brutaniaid yn ddilys ddiammeu ar hyn o amser oeddent wedi diriwio yn hagr oddiwrth eu gwroldeb gynt. Canys yna, ar waith y Brithwyr a'i cyfeillion yn rhuthro arnynt, nid oedd galon yn neb sefyll yn eu herbyn, mwy nag a all crug o ddail ar ben twyn sefyll yn erbyn gwth o wynt. Er lleied o wyr arfog oedd

y pryd hwnnw ym Mrydain, etto pe buasent yn galw ar Dduw am ei gymmorth ac yn ymwroli, byth ni fuasai y fath dreigl ladronach ag oedd eu gelynyon ynawr yn eu sathru mor ddi-daro, ac heb godi llaw yn eu herbyn.—Ond hwynt hwy digalonni a wnaethant, ac yn lle arfogi eu hieungctid, a'i hannog i hogi eu cleddyfau, a anfonasant lythyr cwynfannus at eu hen feistr-iaid y Rhufeiniaid yn taer ymbil am gymmorth i yrru y barbariaid allan o'i gwlad.—Prin y gallasant ddisgwyl y fath ffafr y pryd hwnnw, am fod mwy na gwaith gan y Rhufeiniaid gartref, ac hefyd yn eu côf yn ddigon da wrthryfel Macsen Wledig, etto yr Ymherawdr a dosturiodd wrthynt, ac a ddanfonodd leng o wyr dewisol, *h.y.* o gylch saith mil, neu medd eraill 6666. Hwyn-gynted ac y tiriason, y chwedl a aeth allan (a chwedl a gynnydda fel casseg-eira) fod yma 5 lleng wedi dyfod ac ar hynny y Brithwyr, y rhai oeddent yn anrheithio canol y wlad a ffoesant ymaith y tu hwnt i Wal Sefer i'r anialwch ac i'r Iwerddon; ond y rhai o gylch Llundain a glan Tafwysc a wanwyd a chleddyf y Rhufeiniaid. O gylch oedran Christ 418 y bu hynny.

Gwahodd y Saeson. Felly Gwrtheyrn, ar ol ymgynghori a'i bennaethiaid, a anfonodd bedwar o wyr anrhydeddus ei lys i wneuthur ammod a'r Saeson, a'i gwahawdd hwy trosodd i Frydain, sef oedd enwau y pen-defigion hynny, Cadwaladr ap Tudur Ruddfag, Rhydderch ap Cadwgan freich-frâs, Meuric ap Trahaern, a Gwrgant ap Maelgwn Ynad, heblaw eraill o îs-radd yn osgordd iddynt.—Ac yno, wedi myned i ben eu siwrnai, os gwir a ddywed cronicl y Saeson (canys Sais cynhenid sydd yn adrodd hyn o fatter, nid oes air yn un cronicl Cymraeg am dano) y cennadon a wnaethant araith ger bron eisteddfod o Saeson yn y geiriau hyn, “Nyni y Brutaniaid truain
 “wedi'n harcholli a'n blin-gystuddio gan aml
 “ruthrau 'n gelynion, ym yn deisyf eich porth
 “a'ch nawdd yn y cyfyngdra trallodus i'n dyc-
 “pwyd ynddo ar hyn o bryd. Ein gwlad sydd
 “ehang ddigon, fflwch a diamdlawd o bob peth
 “buddiol i gynhaliaeth dyn; cewch feddiant
 “ynddi; digon yw hi i ni a chwithau. Hyd
 “yn hyn y bu y Rhufeiniaid yn ymgeleddwyr
 “tirion i ni; nessaf at ba rai ni adwaenom neb
 “a rodde brawf mor helaeth o'i grymmusdra
 “a chwy-chwi. Bydded eich arfau seinio allan
 “eich gwroldeb yn Ynys Brydain, ac ni fydd
 “flin gennym wneuthur o'n rhan ninnau, un

“ fath o wasanaeth a esyd eich ardderchawg-
 “ rwydd arnom. “ Ac yno yr atebodd y Saeson
 wrth fodd eu calonnau gan ddywedyd, “ Chwi
 “ ellwch hyderu arno, Frutaniaid anrhydeddus,
 “ y bydd y Saeson yn geraint cywir i chwi, ac
 “ yn barodol i'ch cynnorthwyo yn yr ing a'r
 “ trallod mwyaf “ [Y gwirionedd yw, nid yw
 yr araith hon, ond chwedl-gwneuthur y Sais;
 nid dim ond ei ddychymmyg ei hun: canys nid
 oedd awdurdod y cennadon a ddanfonwyd at y
 Saeson, ddim amgen ond ammodi a hwy er
 cymmaint a chymmaint o gyflog, megis y gall-
 ent hwy gyttuno arno: nid oedd air o sôn am
 gael meddiant mewn un cwrr o'r deyrnas.

Yr oedd ambell un (y rhai oedd a'i syn-
 hwyrau yn neffro) yn darogan y gwir chwedl,
 ac yn ofidus eu calon wrth rag-weled y distryw
 gerwin oedd ar ddyfod. “ Pan gaffo y caccwn,
 “ ebe un, letty ynghwch y gwenyn, ê orfydd ar
 “ wir drigolion y cwch roddi lle i'r pryf gorme-
 “ sol. Gwae fi, na bo gwahawdd y Saeson
 “ ddim yn gwirio dihareb, Gollwng drygwr i
 “ 'scybor gwr da: a llawer gwaith y gwelwyd
 “ mai gelyn i ddyn yw ei dda.—Mi a glywais
 “ hen chwedl, eb un arall, i'r colommenod gynt
 “ ammodi a'r barcuttanod ar eu cadw rhac
 “ rhuthr y brain: y bodaod yn ddilys ddigon
 “ a erlidiasant y brain ymaith, ond beth er

“hynny? Nid hwyrach ac y byddai chwant
“saig felus ar y bodaod, nid dim arall a was-
“anaethai eu tro ond colommen at giniaw a
“phrydnawnfwyd. Mi gâf gan Dduw mai nid
“hynny a fydd corph y gaingc ar waith ein
“Brenin da ninnau yn anfon am y Saeson.”
Ond nid oedd ond ambell offeiriad tlawd yn dal
hyn o sulw ar bethau. Canys, ar ol dychwelyd
y cennadon adref, y bu llawennydd o'r mwyaf
yn y llys; a byth ni welai y Brenin ynfyd
ddigon o arlwy ar eu medr, na digon o ddan-
teithion a moethau'r Ynys i'w groesawu. Ac
ym mhên ychydig, ryw bryd ym mis Awst yn
y flwyddyn o oedran Christ 449 y ticiasont mewn
tair llong, a dau frawd, Hengist a Hors yn
flaenoriaid arnynt.—Ar ôl gwledda a bod yn
llawen dros rai dyddiau, a llwyr gyttuno ar y
gyflog ag oedd y Saeson ei dderbyn am eu
gwasanaeth fel na byddai dim ymrafael am
hynny rhagllaw, y Saeson yno yn wir a roisant
brofiad helaeth o'i gwroldeb a'i medr i drin arfau
rhyfel. Canys, er nad allent fod dim yn nifer
fawr iawn pan y gallasai tair llong eu dwyn,
etto a hwy yn awr yn borth i'r llû egwan oedd
yn y deyrnas eusys, y Brithwyr a wasgarwyd,
eu byddinoedd a ddrylliwyd, a Niawl-mor-mae-
flan a dorrodd ei wddf ar ei waith yn ffoi yn
frawychus ac yn fyrbwyll.

Ymladd dewr. Emrys Benaur oedd ynawr eu Brenin, yr hwn a fu yn ben-capten y llu yn amser Gwrthefyr fendigaidd, megis y soniwyd o'r blaen. A chymmaint oedd ei glod wedi ehengu dros yr holl deyrnas, fel prin oedd wr o ugain i hanner cant oni chwenychai ddwyn arfau tano. A gwyr Gwynedd a Deheudir hefyd ar hyn o bryd a ddaethant yn gymmorth cyfamserol idd eu brodyr yn Lloegr; ac yn wir, achos da pa ham: canys fe rydd pob un fenthyg ei law i ddiffodd ty ar dân: a phob un a ymgyfyd a'i arf yn ei law i daro cî cyn-ddeiriog yn ei dalcen.—Felly, a hwy ynawr yn llu cadarn (a'i hymddiried yn yr Arglwydd) myned a wnaethant yn union-gyrch, a danfon gwys at y gelynion, i ymadael o Frydain; neu, od oedd calon ynddynt i ymladd, deuent i'r maes, ac ymladdent yn dêg, ac nid fel bradwyr yn cynllwyn am waed dan rith cyfeillion.—Hengist ar hynny a wrychiodd (canys yr oedd yr hen gadnaw yn fyw byth, ac ynawr o gylch saith a thriugain oed) ac ar ôl ymgynghori a'i frawd Hors ac eraill o'i gapteniaid, efe a atebodd i'r pen-rhingyll a anfonasai Emrys atto, “fod ganddo gystal hawl yn y tir a orescyn—“nasai efe drwy nerth arfau, a'r goreu o'r “Brutaniaid. Seren-bren am eu bygwil.

A'r hynny ryw bryd yn mis Mai yn y

flwyddyn o oedran Christ 484 y bu ymladdfa greulon rhwng y ddwy genedl; y naill yn ymwroli er gyrru estron genedl, bradwyr a mwrddwyr, allan o'i gwlad; a'r llall yn ffyrnigo fel ellyllon er cadw craff yn eu traws-feddiant anghyfiawn. Ar ôl cwmpo cannoedd o bob parth, yn enwedig o blaid y Saeson, dynessau a wnaethont yn dra llidiog i ymladd law law, a chethin oedd yr olwg i weled rhai wedi eu hollti yn eu canol, rhai a'i ymyscaroedd allan, rhai yn fyrr o fraich, ac eraill yn fyrr o goes. Hors a wanwyd yn ei wddf, a Hengist a ddaliwyd yn garcharor, a'r lleill a'r hynny a ffoesant, ond y rhan fwyaf yn archolledig a dart yn ei dû ol. Y sawdwyr yno a luscasont Hengist gerfydd ei farf tua phabell y Brenin, a phan oedd dadl yn eu mysc ynghylch pa beth a wneid o hono, Dyfrig, Archesgob Caer-lleon ar Wysc, a gododd ar ei draed ac a ddywad, "Pettai pob un o "hono chwi am ei ryddhau, myfi, ie myfi ag "wyf yn esgob a'i drylliwn ef yn chwilfriw; "canys mi a ganlynwn siampl y Prophwyd "Samuel, yr hwn pan oedd Agag Brenin Abi- "melec yn ei law a ddywedodd, Fal y diblant- "odd dy gleddyf di wragedd, felly y diblentir "dy fam ditheu ym mysc gwagedd. A Samuel a ddarniodd Agag ger bron yr Arglwydd yn Gilgal, 1 Sam. 15. "Gwnewch chwitheu

“ anwyl-wyr (eb efe) yr un ffunud i Hengist yr
 “ hwn sydd megis ail Agag.” Ac ar hynny,
 Eidiol, Iarll Caerloyw a ruthrodd arno, ac a'i
 lladdodd. Gyda bod y cleddyf yn ei botten,
 yno chwi welech yr holl lû yn gwasgaru, rhai
 yma, rhai accw, i geisio bob un ei garreg i
 daflu arno; a chyn nosi, yr oedd yno gryn garn
 ar ei ben, megis yr oeddid yn arferol o wneu-
 thur a drwg-weithredwyr, y rhai oddiyma a
 gyfenwir yn garn-ladron.

Emrys Brenin y Brutaniaid yn y
Lladd cyfamser oedd yn glaf yng Haer-
Emrys went? ac hyfryd iawn oedd y newydd
 ynghlustiau Pascen, ac a ddymunasei o eigion
 calon ei fod efe mewn rhyw le arall nag yn nhir
 y rhai byw. Ac yno neidio a wnaeth y Diawl
 i galon Pascen, a dyfalu ffordd i ladd y Brenin;
 ac fe wyddai eusys fod ganddo Sais yn ei gym-
 deithas (Eppa oedd ei enw) o gystal un at y
 fath orchwyl ag a fu erioed yn ysgol-dy Belze-
 bub. Yr oedd efe yn deall y iaith Gymraeg,
 yn ryw ychydig o feddyg, ac yn ddyn dewr
 ystrywgar hefyd. Ac fel y bai efe yn fradwr
 hollol, efe a ymrithiodd megis offeiriad, ac etto
 yn deall meddiginiaeth. “ Wele ynawr, ebe
 “ Pascen wrtho, dos a llwydda; a gwybydd
 “ fyned yn ebrwydd at y Saeson i Iscoed-Cel-

“yddon ar ôl gwneuthur o honot dy orchwyl ;
“a danfon air attaf finneu“.—Y Sais mewn
rhith gwr crefyddol, ac yn un yn deall meddyg-
iniaeth a gas fynediad yn hawdd i lys y Brenin,
ac a roddes iddo ddiod o lysiau a gasglodd efe
o'r ardd yngwydd pawb ; ond efe yn ddirgel a
gymmiscodd wenwyn a hi, ac o fesur cam a
cham a ddiplannodd o'r golwg, a phrin y gor-
phwysodd efe yn iawn nes myned a'r newydd
at ei gydwladwyr i Iscoed-celyddon, a'i hannog
i wisgo eu harfau.

Yr oedd gan Arthur amryw
Rheolau'r lysoedd heblaw ei benpalas yn
Ford Llundain. Ambellwaith yngHaer-
Gron. y Gamlas, dinas hyfryd gynt yng-
wlad yr Haf : ambellwaith mewn lle a elwid y
Gelli-wyg yngHerniw: ac yn fynych yngHaer-
Lleon ar Wysc, yr hon oedd gynt yn drydedd
ddinas o ran tegwch a maint drwy'r holl deyrn-
nas, ac yn eisteddfa arch-esgobaeth.

Ac efe yn wr call i rac-achub cynnen ym
mysc ei farchogion ynghylch y lle uchaf ar y
bwrdd, dywedir mai efe oedd y cyntaf a ddyfeis-
iodd y ford gron, fel y gallai pawb eistedd blith
dra-phlith yn ddi-wahan heb ddim ymrys-
son am oruchafiaeth. A'r rhai hyn yw y
cynneddfau a ofynnid gan bob un o farchogion

Arthur, y rhai y caniaataid iddynt eistedd ar ei fwrdd ei hun.

I. Y dylai pob marchog gadw arfau da, ac yn barod at bob rhyw wasanaeth a osodid arno, a'i ar fôr a'i ar dîr.

II. Y dylai'n wastad wneud ei oreu er darostwng bawb a fyddai'n gorthrymmu ac yn treisio 'r bobl o'i iawn.

III. Y dylai amddiffyn ac ymgoleddu gwragedd gweddwon rhac magl a niweid mal-eiswyr; edfryd plant a dreisid o'i heiddo at eu gwir feddiant; a maentumio'r grefydd Gris-nogol yn wrol.

IV. Y dylai hyd eitha' i allu gadw llonyddwch yn y deyrnas, a gyrru ymaith y gelynyion.

V. Y dylai chwanegu at bob gweithred glodfawr; dorri lawr bob campau drwg, gyn-northwyo y gorthrymmedig, dyrchafu braint yr Eglwys Gatholic, ac ymgoleddu pererinion.

VI. Y dylai gladdu y sawdwyr a fyddent yn gorwedd ar wyneb y maes heb feddrod, gwared y carcharorion a'r rhai a gaethiwd ar gam, a iachau y rhai a glwyfid yn ymladd dros eu gwlad.

VII. Y dylai fod yn galonnog i fentro ei hoedl mewn pob rhyw wasanaeth anrhydeddus, etto fod yn deg a chyfiawn.

VIII. Y dylai, wedi gwneuthur unrhyw

weithred odidog, sgrifennu hanes am dani mewn côflyfr, er trag'wyddol ogoniant i'w enw, a'i gyd-farchogion.

IX. Os dyccer dim achwyniaid i'r llys am dyngu anudon, neu orthrwm, yno y dylai'r marchog hwnnw a appwyntiai 'r brenin, amddiffyn y gwirion, a dwyn y drwg-weithredwr i farn cyfraith.

X. Os digwyddai ddyfod un marchog o wlad ddieithr i'r llys, ac yn chwennych dangos ei wroldeb, yna y dylai'r marchog a appwyntiai'r brenin ymladd ag ef.

XII. Y dylai pob marchog ddysgu arglwyddi, a phendefigion iefaingc i drin arfau yn gywrain, nid yn unig i ochelyd seguryd, ond hefyd i chwanegu at anrhydedd eu swydd a'i gwroldeb.

Hynod oedd eu medrusrwydd i

Arferion baentio a britho a lliwiau yn enwed-
y Brut- ig i baentio ar eu crwyn luniau
aniaid. ehediaid, bwystfilod, pyscod ac ym-
 lusciaid : hyn oedd ran o wychder y gwyr
 mawr, sef eu bod o goryn y pen hyd wadn y
 traed yn llawn o luniau creaduriaid byw : math
 o liw glas ydoedd, ac ni wisgid mo'no byth
 allan am ei fod wedi ei ollwng i mewn a phigad
 nodwy i'r croen. Pa un a bod yn rhinwedd

ynddo i gadw'r corph mewn iechid, hynny ni's gwn i; ond y mae'n ddilys fod yr hen Frutaniaid yn byw yn aml i saith ugain. . . .

Crwth a thelyn oedd y gerddoriaeth bennaf ym mysc yr hen bobl. Symlen ben bys oedd gaingc gyffredin iawn. Lledr oedd dros wyneb y cafn; ac o achos hynny a gyfenwyd yn delyn ledr; y disgyblion a ddechreuent ganu a thanau rhawn; ac a dalent bedair ceiniog ar hugain ar eu gwaith yn myned yn ben-cerddwyr; canys felly y dywed y gyfraith, "Y neb a fynno "ymadael a thelyn rawn a bod yn gerddor cyweithas, 24 a ddyly." . . .

Yr hên Frutaniaid a eillient eu cyrph yn llwyr gwbl, ond y pen a'r wefus uchaf; eu hymborth oedd laeth a chig, ond ni fwyttaent hwy ddim cig ysgyfarnog, ieir na gwyddau, er bod ganddynt amledd o honynt. Yr oedd bagad yn dilyn hwsmonnaeth, ac yn achlesu eu tir a marl a thywod y môr, ac yn cael gwenith a haidd eu gwala; yn gwneuthur bara o'r naill, a chwrrw o'r llall; ac y mae yspysrwydd goleu y medrent ddarllaw cwrw a bragod gantoedd o flynyddoedd cyn i Iul-Caisar droedio ym Mrydain. Eu defod oedd i losci cyrph y meirw, a chasglu y lludw a thalpau o'r esgyrn mewn math o ystên bridd, a'i osod ynghadw yn rhestrau yn y crugiau, neu'r tommenydd y

rhai sy i'w gweled etto mewn amryw fannau. Y mae un hynod, ym mhlwyf Trelech yn rhandir Caerfyrddin a elwir Crug y Deyrn. Y mae eu hallorau hefyd i'w gweled hyd y dydd heddyw, ar y rhai yr aberthid ambell waith ddynion; sef naill a'i drwg-weithredwyr neu ynteu y gelynion a ddelid yn garcharorion wrth ryfela. Y mae un nodedig i'w gweled etto ym mhlwyf Nyfern yn rhandir Penfro a elwir Llech y Drybedd; y garreg uchaf neu'r allor sydd 12 llathaid o gylch, ac o du'r gogledd fortais ynddi, i ddwyn ymaith waed yr aberth. Pa le bynnag y gwelir tair o gerrig mawrion wedi eu sicrhau ar eu pennau yn y ddaear, ar ddull trybedd, ê fu yno allor gynt.

EDWARD SAMUEL. 1671-1752

ADNABYDDIR yr ysgrifennwr llithrig hwn yn aml fel Person Bettws Gwerfil Goch. Fe'i ganwyd mewn tyddyn o'r enw Cwt y Defaid, plwyf Penmorfa, Sir Gaernarfon, yn 1674. Tlodion iawn oedd ei rieni, fel na chafodd Edward Samuel nemawr o addysg ym moreu ei oes, ond addysg brin ei gymydogaeath. Ond yr oedd Dr. Humphreys, Esgob Bangor, yn noddwr tyner iddo, a thrwy ei waith ef daeth Edward Samuel yn berson Bettws Gwerfil Goch yn 1702. Arosodd yno tan 1721, pryd y symudodd i blwyf agos arall, Llangar, lle y bu farw yn 1748. Felly treuliodd yr oll o'i fywyd gweinidogaethol yn nhawelwch mil bryniau Meirion sy'n gwyllo glannau y Ddyfrdwy,—yno y bu'n pregethu, ac yn cyfieithu amryw lyfrau i'r Gymraeg; ac yn eglwys Llangar y gorphwys ei weddillion.

Y mae'r darnau a ddetholir yma wedi eu dewis o'i gyfieithiad o 'Wirionedd y Grefydd Gristionogol,' a ymddangosodd yn 1716, gwaith mawr Hugo Grotius. Y mae ei gyfieithiadau yn lluosog iawn,—yr oll o'honynt yn llyfrau crefyddol a'u hamcan yn unig i wella moes a buchedd y werin Gymreig. Y deryn olaf a gyhoeddodd oedd pregeth angladdol a draddodwyd ganddo yn eglwys Llangower, ym Mai 1720, i Ficer Gwyddelwern. Yr oedd hefyd yn fardd lled hwyliog; gwnaeth farwnad i Huw Morus, a gwelir darnau o'i waith yn y 'Blodeu-gerdd.'

EDWARD SAMUEL.

GWIRIONEDD

Y

GREFYDD GRIST'NOGOL

o waith

HUGO GROTIUS.

A Gyfeithwyd gan Edward Samuel

Person Bettws Gwerfil Goch.

Hosea 14. 9.

Dihar. 8. 33.

Argraphwyd yn y Mwythig. Gan John

Rhydderch yn y flwyddyn, 1716.

At y Darllennydd,

Pwy bynnag a fwrio Olwg ar hyn Lyfran mor bwylllog ac mor ystyriol ag y gweddai ir defnydd rhagorol y cyfansoddwyd Ef o honaw, nid rhaid byth ddywedyd iddo fuddioled a godidocced ydyw ; gan ei fod yn cadarnhau sylfaen a gwreiddyn y Grefydd Grist'nogol, yn goleufynegi siccrwydd ei holl Brif bynciau ardderchoccaf, gyda phurdeb a gwirionedd ei Hysgrythyrau ; ac yn dadcan ei godidowgrwydd rhagor pob Crediniaethau eraill cyn llwybreiddied a chyn llithricced mor ddibetrus ac mor gadarn-ddihafarch, nad all neb ai dar-

llenno ai hystyrio ac ai deallo, amgen na gweled a chydabod pa achosion anfeidrol sydd iddynt i ymlynu yn ddiyscog yn eu Proffess, i ymdrech *Ymmhlaid y Ffydd a roddwyd unwaith i'r Sainct*, ac i drefnu eu Buchedd au Hy marweddiad yn gyfattedbol; gan fod iddynt y fath hyspysrwydd diammeu am wirionedd eu crediniaeth, a'r fath ddilys eglurdeb am wobr gogoneddus a thal-edigaeth.

Eglur ddadcan y gwirioneddau dwys-fawr hyn yw sylwedd a pherwyl y Traethawd digymmar sydd ger eich bron; ar cwbl ynddo sydd gwedi ei osod allan cyn gywreiniad a chyn gyflawned ac etto cyn fyrred, trwy gyfryw ddyfndwr Dysceidiaeth, a'r fath ddoeth ymresymmiad didwyll anorfod, nas gwn i erioed ddarllain a chlywed sôn am un oi faint yn eilfydd iddo. Ond beth a dâl fy marn i am bath wrth Dystiolaeth cynnifer o Brif Dyscedigion pob gwlad *Yn Ghred*, a gydnabyddant am Awdur y Llyfr yma, ei fod yn ei amser yn un o *Oleuadau* discleiriaf holl *Europa*, am bob math ar Ddoethineb a Dysceidiaeth, fel y mae hefyd amryw Lyfrau Eraill o'i Waith Ef, a hwn yn anad un yn hollawf-fynegi.

Mor ddefnyddiol hefyd ac angenrheidiol y barnwyd *Hwn*, ai fod mewn brî a chymmeriaeth gydâ phob Gwyr o Ddysc yn y *Llading-iaith* y

cyfansoddwyd Ef ynddi, ac wedi ei gyfieithu ir rhan fwyaf o'r Ieithoedd sathredig yn y Parth yma or Byd (sef Ieithoedd y *Saeson*, y *Ffrancod*, yr *Ellmyn*, yr *Italiaid*, ac eraill, a rhai hefyd o Ieithoedd *Asia*) er mwyn iawn sylfaenu'r Bobl Gyffredin ymmhob Gwlad *YnGwirionedd* a siccrwydd y *Grefydd Grist'nogol*. Ac dyma'r achos a barodd ir Awdur ei 'sgrifennu ar y cyntaf yn iaith ei Wlâd ei hun, ar Draethod Cynganedd er lles y *Cyffredin*, *yn enwedig y Morwyr*, er mwyn eu sefydlu yn y Ffydd au harfogi yn erbyn Gau Grediniaethau, *Cenhedloedd ac Iuddewon a Mahumediaid*, fel y mae'n mynegu'n helaeth yn y Rhagymadrodd.

Gan ei fod wrth hynny gwedi ei gyfansoddi ar y cyntaf, er cyfarwyddid a Gwybodaeth ir Gwerin cystal ac ir Dyscedig, ai gyfieithu mewn amryw Dafodau o herwydd yr un perwyl rwy'n gobeithio na wêl neb fai am ryfygu o honof ei droi hefyd yn Gymraeg er mwyn ein cydwladwyr ninnau. Mae cyn rheitied i ni ag i Bobl Eraill fedru *rhoddi Rheswm am y Gobaith sydd ynom*; Mae *Efrau* ysowaeth gwedi eu hau yn ein plith ni cyn dewed ac mewn marfnau eraill; ac nid wy'n deall nad oes gan bob math o Drigolion *Cymru* gystal Athrylith a Synhwyr Naturiol i wrando a dirnad Rheswm i wybod rhagoriaeth rhwng da a drwg, rhwng Cam ac

Union, a rhwng Gwir ac Anwir, ag sydd gan Eraill o'u Cŷd-râdd yn y gwledydd o'u hamgylch. Gobeithio ynteu y gall y rhai'n dderbyn cymmaint lleshâd ac adeiladaeth wrth ddarllain y Llyfr yma yn Gymraeg ac y gafodd eu cyffelyb yn holl ardaloedd *Cred* wrth ei ddarllen yn ieithoedd y Broÿdd hynny.

Ac nid ydyw'r cyfryw orchwyl ysgatfydd mor afreidiol yn ein Gwlad ni ag y gall Bagad feddwl ei fod. I Dduw y bo'r diolch mae Goleuni yr Efangyl yr awrhon yn llewyrchu cyn ddiscleiried *YnGhymru* ag mewn odid o wlad arall, mae mwy o Lyfrau Duwiol, defnyddiol yn Argraphedig, ac amlach, ac ond antur well Pregethwyr yr awrhon yn ein plith nag a fu mewn un Oes er ys mwy na Mil o Flynyddoedd, ac etto ni a welwn fod Anghrefydd ac Anuwioldeb, Anghydfod ac Anghariad, Gwregrediniaeth a Gwahanedigaethau, Drwg-Foesau ac Arferion llygredig yn rhŷ gynnefin a chyffredinol yn y Fro yma cystal ag mewn manau eraill. Ac yn ddiamheu Un Achos mawr or Afreolaeth yma, yw eisieu bod pobl yn gydnabyddus a Sylfaen eu Crediniaeth, sef Prif-achosion sydd iddynt i *Gredu* ac *Ufuddhau*, a pha well gwasanaeth a ddichon undyn wneuthur iw Wlad na dangos i bawb megys o flaen eu Llygaid, *Nad peth ofer yw Crefydd*, eithr mae

gwir diragrith, diddadl ydyw, a gwneuthur iddynt ddeall a chydabod nad oes le iddynt fod yn *Anghrist'nogol* oni byddant yn *Anrhesymol* hefyd?

Hyn yw amcan a bwriad y Llyfr sydd yn canlyn, nid eglurhau a datcan holl Brif Athrawiaethau a Dyledswyddau Christianogaeth, eithr cadarnhau Sylfaen Gwirionedd y rhain oll, ar Ffydd a sefydler ar y cyfryw seiliau diyscog a fydd disigl a diymmod *megys y Ty a sylfaenwyd ar y Graig*, ac ni eddŷ *ei gwyrddroi ai chylch-arwain gan bob awel o wag ddysceidiaeth*; eithr a saif yn ddi-betrus yn erbyn pob rhuthrau a phrofedigaethau, yn erbyn erlidiau a gorthrymderau o'r naill dŷ, ac yn erbyn hoccedion twyllodrus, a Gau-grediniaethau cyfrwys-ddrwg o'r tŷ arall.

Darllain ditheu ef, F' anwyl Gydwladwr, yn fynych ac yn fyfyrion, ac os byddi gwell erddo, diolch i *Dduw* yn gyntaf, ac yn nesaf i'r Gwyrda haelionus sydd au henwau yma'n argraphedig; escusoda feiau'r Cyfieithydd ar Argraphyddion, ac yn dy weddiau Cofia am dy

Wasanaethwr,

E.S.

AT YR

ANRHYDEDDUS AR PARCHEDIG

JOHN WYNNE.

o Felai, Esq.

Nid yw yn anhyspys i chwi, ben-

*Cyfarch
Noddwr.*

defig urddasawl! Nac i neb arall dyscedig, am Hugo Grotius, er maint ei fri ai gymmeriaeth oblegyd ei synhwyr ai ddysceidiaeth, ddarfod iddo syrthio i flinder a chaethiwed yn ei wlad ei hun, ac ymdeithio o honaw, o fann-bwygilydd nes cael or diwedd ei dderbyn yn graesawus gan Bennadur dyscedig a Meceaenas Dyscedigion eraill sef Hieronymus Bignonius Dadleuwr y Brenin ym mhrif-frawdle Paris. Nid anhebyg i helbul yr awdur a ddigwyddodd iw Lyfr yma: Gwedi treidio o hanaw trwy holl ardaloedd Europa a bagad o Froydd Asia, a dyscu llawer ou hêithoedd, a chael ei groesawu'n barchedig o herwydd ei wybodaeth ai Ddoethineb, f'a ddaeth iw dynged yn ddiweddaf oll anturio ir Oror fynyddig yma. Ac, er daed ei Ddysc a doethed ei resymmau; etto o ran fod ei wisc yn sittrachog ai Gymraeg yn gandryll, bydd tebyg a darraw wrth groesaw oeraidd oddieithr i ryw wrda rhywioglân dosturio wrtho, ai achlesu'n ymgel-eddgar ac wrth ei esampl ei hun ai wneuthur yn gymmeradwy gan eraill. Ac nid oes achos

ddysgwyl hyn ond lle bo Gwr o ddysc a wypo ei deilyngdod ai Godidowgrwydd, a Gwr o haelioni a thrugaredd iw gymmorth yn garediglan, a Gwr hefyd o Fawrfryd Bonheddigaidd a fo ganddo wir gariad iw wlad, ac na bo anfodlon i hepcor ir gwaelaf oi Gyd-Ddeiliaid yr eglurdeb ar siccrwydd sydd yma iw cael, am sylfaen a gwreiddyn Gwirionedd y Grefydd Grist'nogol. I ba fan ynteu yr ymgyrch yr Adyn digydnabyddiaeth yma am gyfryw nodedd ac amddeffynfa ond i Elusengar Noddfa'r Dieithriaid, sef i'r Fynachlog Letteugar Haelionus lle mae'r cynneddfau rhagorol hyn yn trigfannu'n gartrefol? Lle mae Gwybodaeth eglur heb ei chaddugo â mwrlwch Pabyddiaeth, lle mae Duwioldeb heb Goel-Grefydd, Cariad heb redres, a gweithredoedd da heb ymddiried wrth eu haeddedigaeth; ar air, lle mae mwy o Ddysc a Dawn ymmhen ei Pherchennog presennol nag a fu, ond antur, mewn Deugain o'i hen Abbadeu. Lle nid oes na gwyro at Rufain o'r naill du nac at Geneva o'r tû arall, eithr ymlynu'n ddiyscog yn ffydd Eglwys Loegr ac yn yr Athrawiaeth ddilwgr a gadarnheir ac a siccrheir yn y llyfr yma. I chwi ynteu yr ufuddanrhegaf hyn o Gyfieithiad anghelfydd; gan ostyngedig ddiolch ichwi ac ir holl Wyrda Parchedig sydd yn fy haelionus-gynnorthwyo

iw osod allan yn argraphedig. A chan ddifrifol weddio ar ir Arglwydd eich cadw mewn hir iechyd a hoedl yn barch ac yn harddwch i Gymru, ac yn wir aelod Union-gred o Eglwys Loegr, ac (i ddywedyd y cwbl ar air) a wnel i chwi ach heppil ar eich ôl ragori, od oes le, ar Rinwedd a Godidowgrwydd eich Hynafiaid ardderchog. Hyn yw ac a fydd taer-ddeisyfiad diragrith,

SR.

Bettws Gwerfil
Goch Hydref
25, 1715.

Eich gostyngediccaf
ach Ufuddaf Wasanaethwr,
EDWARD SAMUEL.

*Am y Dyledswydd o addfwynder tuag at ein
Cymmydogion, er gwneuthur o honynt hefyd
niweid i ni.*

Ein Cyffelyb ir rhain yw'r Dyled-
Dyled- swyddau a ofynnir gennym tuag at ein
swydd. Cymmydogion. Nid yw Crefydd
Mahomet, gwedi ei chenhedlu mewn
Rhyfel yn chwythu dim ond destryw a chelaneddau, a thrwy nerth Arfau y mae'n ymgynnal ac yn cynnyddu. At Ryfeloedd hefyd ac ymladdfaau gwaedlyd yr oedd Gosodigaethau'r *Lacedemoniaid* (y rhai a gyfrifid gan *Apollo* 'n oreu o Gyfreithiau'r Groegiaid) yn tueddu'n hollawl, fel y mae *Aristotle* yn dal sulw ac yn

beio arnynt o'r Achos. Eithr y mae'r un *Aristotle* yn barnu fod Rhyfel yn erbyn Estron Genhedloedd yn beth naturiol; yr hyn sydd wrthwynebol ir gwir oblegid mae Naturiaeth yn dyscu pobl i fod yn garedig ac yn gymdeithgar ai gilydd. Canys beth sydd anghyfiawnach a chywilyddiach na chospi pobl am lâdd un neu ddau, ac ymffrostio a gorfoleddu am lâdd mil-oedd megys rhyw orchest ogoneddus. Ac etto pa fodd y cafodd y Ddinas Enwog honno, Rhufain, y fath barch ac enw ond trwy Ryfeloedd, ar rheiny'n fynych yn ddigon anghyffion, fel y maent hwy eu hunain yn cyfaddef am eu Rhyfeloedd yn erbyn *Sardinia* a *Cyprus*. Ac yn wir yr oedd y rhan fwyaf o'r Cenedloedd, fel y mae awdwyr goreu'r Côflyfrau'n mynegi i ni, yn credu'n gyffredinol nad oedd gywilydd yn y byd lâdd a lledratta o fewn terfynau Estrooniaid. Mae *Aristotle* a *Cicero* yn barnu mae Rhinwedd yw ymddialu, peth o gyhoedd: Ddifyrwch y Cenedloedd oedd edrych ar y cleddyfwr yn anafu ac yn arteithio eu gilydd; a pheth arferedig beunydd oedd bwrw eu plant allan newydd eni, au gadael tan drugaredd Cŵn neu Fôch, neu rhyw bryfeid gwylltion ereill. Yn wir yr oedd gwell Cyfraith, a sancteiddiolach Discypliaeth ymmhlith yr *Hebreaid*. Eithr f'a gyd-ddygid ag ymbell beth ir bobl ddigllon

anoddefus hynny, megys rhuthro ar y saith genhedl a haeddasant hynny ; ac nid ymfodlonasant ar hyn chwaith, eithr cassaient yn llidiog ac erlidient yn greulon bawb oedd yn anghyttuno a hwynt. Ac y mae etto arwyddion o'r tuedd-fryd ffyrnig yma yn y gweddiau a ddychymmygant yn erbyn y Crist'nogion : Eithr yr oedd y Gyfraith ei hun yn caniadhau rhydd-did iddynt i ddial eu cam a'u dwylo'u hunain, ac i ladd llofrudd a fuasei'n Euog o Farwolaeth un o'u cyfnesyfiaid a'u dwylo'u hunain heb na chwyn na chalyn. Ond y mae Cyfraith Christ yn gwahardd yn hollawl ad-talu drwg neu gamm nac ar air nac ar weithred, rhag am y drwg y byddom yn ei euog farnu yn Eraill, i ni ei ganmol ai hoffi ein hunain trwy wneuthur y cyffelyb, mae'n peri ini wneuthur da i bawb yn enwedig yn wir ir sawl sydd dda a rhinweddol eithr ir drwg hefyd, yn ol esample Duw ei hun, yr hwn sy'n rhoddi'r Haul a'r Sêr, ar awyr ar Gwynt ar Cafodydd yn ddoniau llesfawr Cyffredinol i bob Dyn.

*Dideddir Paganeidd-dra o herwydd fod iddi
ddiflannu o honi ei hun pan gollodd hi
Gymmorth Dynion.*

HEB law a ddywedasom or blaen,
*Pagan- mae Paganeidd-dra yn hebcor i ni un
iaeth yn Rheswm rhagorol yn ei herbyn ei
diflannu. hun ; sef syrthio a diflannu o honi'n*

Ilwyr ymmhob mann, lle collodd hi Gymmorth
Dynion, megys pe buasei ei hunig Gynheiliad
ai cholofn gwedi ei dorri i lawr ai dadymchwel.
Oblegyd os bwriwch olwg o amgylch ar y
Gwledydd ar Teyrnasoedd sydd tan Lywodraeth
Christianogion a Mahumediaid, nid oes, oddi-
eithr mewn Llyfrau, ddim coffa am *Baganeidd-
dra*, îê, mae Cof-lyfrau yn dangos, yn yr am-
seroedd hynny pan oedd yr Ymmerodron trwy
nerth Arfau a Chospedigaethau, megys yr oedd
y rhai cyntaf, neu trwy Ddysceidiaeth a Syn-
hwyr megys yr oedd *Julian* yn ceisio cynnal i
fynu Grefydd y Paganiaid, ei bod hi er hynny
yn gwanhychu beunydd, a hynny, nid trwy
wrthwynebion Creulondeb ac Erlidiau, nid trwy
Ardderchowgrwydd Achau (canys ni chyfrifid
yr Iesu gan y bobl gyffredin, ond mab i Saer)
nid trwy flodeu Dysceidiaeth, oblegid nid ar-
ferai'r sawl a ddyscasant Gyfraith Christ ddim
or fath beth yn eu Pregethau. Nid trwy Rodd-
ion (canys Tlodion oeddynt), nid trwy Eiriau

têg ac y madroddion gwênieithus pan oeddynt yn y gwrthwyneb yn mynegi y gorfyddai ir sawl a dderbyniant Gyfraith Christ, ddiystyru pob Elw a difyrrwch bydol, a goddef pob adfyd a chaledi o'i hachos.

Gwelwch ynteu faint gwendid *Paganeiddra* pan allodd y fath arfau ei gorfod ai dinystrio. Ac ni ddiplannodd Crediniaeth y Paganiaid yn unig trwy'r Athrawiaeth honno. Eithr yr Ysprydion a yrrwyd allan o Gyrph Dynion, ac a dawsant, a phan ofynnid iddynt yr achos o'u mudaniaeth, gorfu arnynt gyfaddef nad allent hwy ddim lle y gelwid ar Enw *Christ*.







1

1



